

Dogfennau Ategol – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd	Martha Da Gama Howells
Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Hydref 2019	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddDGCh@cynulliad.cymru

– Atodiad 1

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

3 Ymchwiliad y gerddoriaeth fyw yng Nghymru: Llywodraeth Leol

(10.30–11.30)

(Tudalennau 1 – 137)

Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd
Ruth Cayford, Rheolwr Diwydiannau Creadigol a Diwylliant
Jon Day, Pennaeth Polisi Economaidd, Cyngor Caerdydd

Dogfennau atodol:

Cyngor Caerdydd
Argymhellion Adroddiad Dinas Gerdd Sound Diplomacy
Crynodeb Adroddiad Dinas Gerdd Sound Diplomacy



Eitem 3

SOUND
DIPLOMACY

ADRODDIAD DINAS GERDD SOUND DIPLOMACY HYSBYSU STRATEGAETH GERDD I GAERDYDD

Astudiaeth Ecosystem Cerdd ac Argymhellion Strategol

Hysbysu strategaeth gerdd i Gaerdydd	1
1. Cyflwyniad	5
1.1 Am y project	7
1.2 Methodoleg	7
1.3 Am yr awduron	8
2. Cyd-destun	9
2.1 Cyd-destun byd-eang	9
2.2 Lle Caerdydd yn niwydiant cerddoriaeth y DU	9
3. Ecosystem Cerdd Caerdydd	11
3.1 Effaith economaidd cerdd Caerdydd	11
3.2 Mapio diwydiant Caerdydd	18
3.3 Canfyddiadau allweddol	19
4. Argymhellion Strategol	33
LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH	33
Y Swyddfa Gerdd	33
1.1 Penodi Swyddog Cerdd	34
1.2 Adeiladu a chynnal cyfeiriadur busnes o'r ecosystem cerdd leol	36
1.3 Datblygu llwyfan i gyfathrebu rhwng preswylwyr lleol a digwyddiadau cerdd	37
Y Bwrdd Cerdd	38
2.1 Sefydlu Bwrdd Cerdd	39
2.2 Creu Is-grŵp Sefydliadau Proffesiynol Bwrdd Cerdd Caerdydd	40
2.3 Creu Is-grŵp Lleoliadau Bwrdd Cerdd Caerdydd	40
2.4 Cryfhau a datblygu cydweithredu rhyng-ddinas pellach	41
Trwyddedau A Pholisïau Sy'n Dda i Gerddoriaeth	44

3.1 Symleiddio'r broses drwyddedu ar gyfer gweithgareddau cerdd	44
3.2 Ailasesu gofynion diogelwch ar gyfer lleoliadau a digwyddiadau	45
3.3 Gwella mynediad i ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i gynulleidfaoedd dan oed	46
3.4 Cyflwyno parthau llwytho i gerddorion ar gyfer lleoliadau yng nghanol y ddinas	47
3.5 Creu canllaw canu yn y stryd gwirfoddol i Gaerdydd sy'n adlewyrchu anghenion preswylwyr, busnesau a cherddorion	47
Grantiau a Chyllid	50
4.1 Galluogi fframwaith cydweithio ar gyfer partneriaethau ariannu	51
4.2 Cyfathrebu'r holl gyfleoedd ariannu presennol ar gyfer sector cerdd Caerdydd mewn modd clir a hygrych	51
4.3 Cefnogi lleoliadau cerdd, cynhyrchwyr digwyddiadau a sefydliadau i wella amodau eu cwmni drwy atgyfeirio at sefydliadau defnyddiol	53
MANNAU A LLEOEDD	55
Dyrannu lleoedd i gerddorion a phobl broffiesynol yn y diwydiant	55
5.1 Datblygu Hyb Cerdd Cymunedol	56
5.2 Cynnig fframwaith i hwyluso prydlesï dros dro ar gyfer sefydliadau cerdd a diwylliannol lleol mewn mannau anhraddodiadol	57
Cynllunio, Trafnidiaeth, Creu Lleoedd	58
6.1 Gweithredu Polisi Cynllunio Cymru 10 yn gyson a defnyddio'r egwyddor 'Cyfrwng Newid' yng Nghaerdydd	59
6.2 Datblygu strategaeth ac uwchgynllun creu lleoedd ar gyfer Ardal y Castell sy'n amlygu ei sefyllfa unigryw yn sîn gerddoriaeth Caerdydd	62
6.3 Ymgysylltu â'r sector cerdd lleol yn y datblygiad Arena Caerdydd newydd	62
6.4 Gweithio â phartneriaid i gefnogi hygyrchedd gwell o ran trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos	62
ADDYSG	66
Mynediad i Addysg Cerdd Ar Bob Lefel ac i Bob Oedran	66

7.1	Creu Map o Gyfleoedd Cerdd a'r llwybrau perthnasol i ddangos i gyfranogwyr sut i gynllunio'u taith gerdd yn y ffordd orau	67
7.2	Datblygu gweledigaeth ar gyfer Cynnig Addysg Cerdd Cynhwysol i'r holl Bobl Ifanc yng Nghaerdydd	68
7.3	Cyflwyno gweithdai cerdd ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd	68
DATBLYGU ARTISTIAID		70
Cynnig Cyfleoedd Datblygu i Artistiaid Lleol		70
8.1	Creu siarter moeseg a thystysgrif 'Chwarae Teg' i leoliadau	70
8.2	Creu llwyfan i ddatblygu perfformio	74
8.3	Creu digwyddiad arddangos artistiaid rhyngwladol traws genre	74
DATBLYGIAD PROFFESIYNOL		74
Cynnig Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol i'r Sector Lleol		74
9.1	Trefnu gweithdai a chynadleddau busnes cerdd mewn partneriaeth â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn y DU	75
9.2	Asesu'r broses o greu rhaglen dechrau busnes cerdd yng Nghaerdydd	77
CYNNWYS CYNULLEIDFAOEDD		78
10.1	Eirioli dros fwy o raglenni cerdd cymunedol ac yn ystod y dydd	78
10.2	Creu platform rhestru gigiau ar-lein sy'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r sîn gerddoriaeth ehangach yng Nghaerdydd	79
10.3	Ailsefydlu Neuadd Dewi Sant fel neuadd gyngerdd o'r radd flaenaf	79
MARCHNATA CERDDORIAETH		83
Creu Brand Dinas Gerdd		83
11.1	Diffinio rolau Croeso Caerdydd, y Swyddfa Gerdd a rhanddeiliaid eraill o ran hyrwyddo'r ddinas trwy gerddoriaeth	83
11.2	Cynghreirio'n strategol â llwyfannau a chynhyrchwyr chwaeth ryngwladol i hywyddo sîns amgen a thanddaearol Caerdydd	84

Gweithgareddau Twristiaeth Cerdd	85
12.1 Creu cynllun cyfathrebu 'Dinas Gerdd' Caerdydd ar gyfer strategaeth ar-lein ac all-lein	86
12.2 Creu dewisiadau i ymgysylltu ag ymwelwyr cerdd cyn ac ar ôl iddynt gyrraedd	87
12.3 Creu taith treftadaeth cerdd	89
12.4 Cynnig cynnal digwyddiadau diwydiant cerdd rhyngwladol allweddol	90
12.5 Ystyried partneriaeth â Neuadd Colston Bryste	90
5. Llyfryddiaeth	91
Atodiad 1	97
Hamburg	98
Austin	100
Aarhus	104
Atodiad 2	107

Llun ar y Clawr gan Tafwyl

1. CYFLWYNIAD

Fel prifddinas Cymru a'i dinas fwyaf, mae Caerdydd - dinas amlieithog mewn cenedl ddwyieithog - yn gweithredu fel canolfan i ddiwylliant Cymru yn ogystal â thwristiaeth ddomestig a rhyngwladol. Caerdydd yw'r ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac, felly mae'n rhaid sefydlu neu ddiweddarau seilweithiau er mwyn meithrin a chefnogi twf y sectorau hyn.

Gall fod yn hawdd anghofio nad diwydiant yw 'diwylliant', ond yn hytrach ei fod yn dapestri o wahanol sectorau ac economïau, pob un ohonynt â'i anghenion gwleidyddol a seilwaith ei hun. Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yn y DU i ymgorffori trefolaeth gerdd yn ei strwythur dinas, o gynllunio a thrwyddedu i lesiant cymdeithasol a thwristiaeth. Mae trefolaeth gerdd yn gweld y gwerth y mae cerdd yn ei gyflwyno i ddinas, ac yn ei integreiddio ar draws holl adrannau'r llywodraeth, yn hytrach na chadw cerdd ar gyfer addysg yn unig, neu fel arf marchnata ar gyfer twristiaeth.

Yn unol â hyn, rhaid i bob adran o Gyngor y Ddinas edrych ar gerdd a holi sut y gall gefnogi'r diwydiant cerdd lleol orau, a sut y gall ymgorffori cerdd o fewn ei strategaethau ei hun i gael yr effeithiau mwyaf posibl a gwella safon byw o fewn y Ddinas. Er mwyn cael ei defnyddio'n effeithiol, rhaid i gerdd fod yn brif ystyriaeth yn hytrach nag yn ôl-ystyriaeth. Cwestiynau sy'n helpu i ddiffinio ac archwilio gwerth cerdd ar draws pob adran yw:

- **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth** - Pa mor gryf yw'r llinellau cyfathrebu rhwng y diwydiant cerdd a llunwyr polisi, os ydynt yn bodoli o gwbl? A oes bwrdd, ac, os felly, a gynrychiolir amrywiaeth o sectorau arno? A oes aelod penodol o'r cyngor ar gyfer diwydiannau cerdd neu ddiwylliannol?
- **Trwyddedau a Heddlu** - Ystyried a oes modd gwneud unrhyw welliannau i'r dull gweithredu trwyddedu er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn rhoi sylw dyledus i werth diwylliannol yn ogystal â blaenoriaethu diogelwch.
- **Mannau a Lleoedd** - A oes gan gerddorion gyfleusterau hygyrch, fforddiadwy a digonol i ymarfer, recordio a pherfformio? A oes amrywiaeth o leoliadau cerddoriaeth gyda chapasiti gwahanol? A oes amrywiaeth o ran genre a chynrychiolaeth ddemograffig?
- **Cynllunio** - A yw cerdd a diwylliant yn cael eu trin fel blaenoriaeth graidd, ochr yn ochr â defnydd tir arall, mewn polisiâu adfywio? A yw darpariaethau diwylliannol a cherddorol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau newydd, neu a ydynt yn cael eu gadael ar ôl, i'w hychwanegu fel ôl-ystyriaeth?

- **Trafnidiaeth** - A yw polisi trafndiaeth yn ystyried anghenion artistiaid a busnesau creadigol? A oes polisi trafndiaeth economi min nos ac yn y nos sy'n caniatáu i'r celfyddydau gael eu harddangos, ac i'r rhai sy'n eu mwynhau allu teithio adref yn ddiogel wedyn?
- **Addysg** - A yw addysg cerdd yn cael ei thrin gyda'r un blaenoriaeth â phynciau eraill? Mae addysg cerdd, o'r oedran cynharaf, yn cefnogi datblygiad gwybyddol, yn hyrwyddo cymdeithasoli ac yn ymgysylltu â meddyliau ifanc mewn ffyrdd nad yw pynciau eraill yn ei wneud. A oes dealltwriaeth y bydd pobl fusnes y ddinas a dinasyddion yn dyfodol yn elwa o ymgysylltiad cerddorol?
- **Cyflogaeth a Sgiliau** - Sut mae'r diwydiant cerdd yn rhan o ddatblygiad, twf a llwyddiant y ddinas? A yw'n creu swyddi, yn cefnogi datblygiad artistig ac yn ymgysylltu â dinasyddion? A oes polisi i ddatblygu hyn?
- **Twristiaeth a Brandio** - A gymerir cerdd o ddifrif fel offeryn posibl i annog twristiaeth, cefnogi mecanweithiau pŵer meddal, a gwella dymunoldeb y ddinas? Mae sîn gerdd a diwylliant ffyniannus yn aml yn flaenoriaeth i ddenu buddsoddiad, swyddi a sgiliau. A oes digon o ffocws ar hyn?

Cynrychiolir pob un o'r categorïau hyn yn y canfyddiadau allweddol a amlinellir isod, a ddatblygwyd drwy'r asesiad rheoliadol cynharach, cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn yn lleol, gyda chyfweiliadau ac arolwg o weithwyr proffesiynol yn niwydiant cerdd Caerdydd. Bu'r canfyddiadau yn sail i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, sef adnodd unigryw Caerdydd i'w wneud yn arweinydd mewn trefolaeth gerdd.

1.1 Am y project

Caerdydd yw'r ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac mae eisiau sefydlu ei hun fel arweinydd yn y mudiad Dinasoedd Cerdd, safon datblygiad dinesig sy'n hyrwyddo cerdd fel offeryn ar gyfer twf yn hytrach na sgil-gynnyrch ohono.

Mae gan Gaerdydd ecosystem cerdd ffyniannus, cyfuniad o gyfleoedd cerddoriaeth fyw o dafarndai lleol i neuaddau cyngerdd, sioeau stadiwm a phopeth rhwng hynny. Mae cerdd yn rhan o hunaniaeth a hanes y ddinas, gyda chynnig cerddoriaeth glasurol o'r radd flaenaf a llwyfan i fandiau Cymru ddatblygu eu gyrfaoedd. Er bod hyn yn dal i fod yn wir heddiw, byddai diwydiant cerdd y ddinas yn elwa o gael ei ail-linio â'r strategaeth dinas ehangach sy'n ymwneud â thwf economaidd a phoblogaeth ehangach. Nid yn unig y mae'n bwysig cynnal sianeli cyfathrebu rhwng y rheiny sy'n creu polisïau a'r diwydiant, ond hefyd dylid mabwysiadu dull cydweithredol sy'n sicrhau bod y ddinas yn gweithio i gefnogi a hyrwyddo ei cherddorion a gweithwyr proffesiynol cerdd.

Dadansodda'r project hwn ecosystem cerdd Caerdydd yn ei chyfanrwydd, er mwyn nodi'r strategaethau datblygu mwyaf effeithiol. Rhennir yr ymchwil hwn i sawl adran – gan gynnwys yr economi, seilwaith, twristiaeth, addysg a'r amgylchedd adeiledig. Ei nod yw sefydlu beth sy'n gwneud Caerdydd y ddinas ddiwylliannol gadarn a welwn heddiw, a nodi sut y gellir manteisio i'r eithaf ar ei rôl fel Dinas Gerdd.

1.2 Methodoleg

Dechreuodd y project hwn gyda chyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn, cyfweiliadau ac arolwg o'r diwydiant. Darparodd y rhain ffynonellau sylfaenol ar gyfer ystadegau a phrofiadau a barn pobl sy'n gweithio yn y diwydiant cerdd neu ochr yn ochr â hi. Croesgyfeiriwyd y canfyddiadau hyn gydag ymchwil, a oedd yn coladu erthyglau papur newydd perthnasol a pholisï'r ddinas, fel Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, Canllawiau Cynllunio Atodol, deddfau Adran 106, a rheoliadau alcohol a sŵn. Yna adlewyrchwyd y canfyddiadau mewn cyfres o gymariaethau rhyngwladol â dinasoedd a ddewiswyd oherwydd eu tebygrwydd o ran maint a strwythur i Gaerdydd. O'r canfyddiadau hyn y gwnaed ein hargymhellion.

Mesurwyd effaith economaidd diwydiant cerdd Caerdydd drwy ddefnyddio ymchwil bresennol gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU (ONS) a PRS for Music yn ogystal ag arolwg a gynhaliwyd gan Sound Diplomacy. Dewiswyd is-sectorau'r diwydiant cerdd trwy ddefnyddio Dosbarthiad Safonol Gweithgareddau Economaidd 2007 y DU (SIC 2007). Roedd yr ystadegau swyddogol hyn yn sail i unrhyw ffigurau effaith economaidd uniongyrchol. Penderfynwyd ar ffigurau cyflogaeth trwy ddefnyddio'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (NOMIS) 2016, tra bod incwm yn deillio o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2016. Darganfuwyd effeithiau economaidd anuniongyrchol ac ysgogedig drwy'r matrices mewnbwn-allbwn a'i luosyddion, wedi'u croesgyfeirio yn erbyn ystadegau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgol Caerdydd.

1.3 Am yr awduron

Sound Diplomacy yw'r prif ymgynghorydd byd-eang ar Ddinasoedd Cerdd a datblygu'r farchnad. Fel strategwyr ar gyfer dinasoedd, datblygwyr, sefydliadau mawr yn y sector preifat a llywodraethau, mae Sound Diplomacy yn darparu ymchwil ac arbenigedd marchnad arloesol i gynyddu gwerth yr economi busnes cerdd ar lefel gwladwriaeth, dinas a rhanbarth drwy gynlluniau datblygu. Yn ogystal, rydym yn arbenigwyr mewn strategaethau technoleg cerdd, o deithiau masnach i ddatblygu marchnad, ymchwil ac ymgynghori.

Mae Sound Diplomacy yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac ar hyn o bryd, mae'n gweithio mewn 20 o wahanol wledydd i nifer o lywodraethau (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol), datblygwyr eiddo, cynadleddau cerddoriaeth a thechnoleg cerdd, asiantaethau datblygu economaidd, cynghorau celfyddydau, siambrau masnach, prifysgolion, swyddfeydd allforio, gwyliau, brandiau a labeli recordiau.

2. CYD-DESTUN

2.1 Cyd-destun byd-eang

Ers amser maith, bu'r DU yn un o'r marchnadoedd cerdd mwyaf yn y byd – dim ond yr Unol Daleithiau, Japan a'r Almaen oedd ar y blaen iddi yn 2017.¹ Cyfrannodd y diwydiant cerdd £4.4 biliwn mewn GVA i'r DU a chefnogi dros 142,000 o swyddi yn 2016,² gan ddangos twf cyffredinol y diwydiant ar draws pob maes ers 2012. Mae hyn yn cynnwys twf o 5% yn y sector recordio cerdd, ei dwf cyntaf mewn pum mlynedd. Arweiniwyd y twf mewn refeniw cerdd wedi'i recordio gan ffrydio, sy'n rhoi cyfle digyffelyb i adeiladu cynulleidfaedd mewn ardaloedd gwledig a thramor.

Tyfodd sector cerddoriaeth fyw y DU 14% yn 2016, a chynyddodd ei marchnad swyddi 13% yn ystod yr un cyfnod.³ Mynychodd 30.9 miliwn o bobl sioeau byw, gyda 27 miliwn ohonynt yn mynd i gyngerdd a 3.8 miliwn yn mynd i wyl. Roedd y sector byw yn chwarter o gyfanswm GVA y diwydiant cerdd ac 20% o gyfanswm y gweithlu cyflogedig.⁴ Cynhaliodd twristiaeth cerdd 47,445 o swyddi llawn amser, i fyny 18% o'r flwyddyn cynt⁵. Yn 2017, gwelodd Cymru 379,000 o dwristiaid cerdd yn gwario £115 miliwn (yn uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar gyngherddau a gwyliau.⁶ Er bod ffigurau presenoldeb uwch mewn cyngherddau, gwariai cynulleidfaedd gwyliau fwy yn gyffredinol, gan ddod â £39 miliwn yn uniongyrchol i'r economi mewn digwyddiadau poblogaidd fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Rhif 6.

Ni wyddys yn iawn eto beth fydd effaith trafodaethau 'Brexit', er y disgwylir i'r diwydiant byw fod yn un o'r sectorau yr effeithir arno fwyaf oherwydd gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn arbennig o wir am artistiaid tramor llawr gwlad ac ar lefel lai sy'n cychwyn ar eu teithiau cyntaf yn y DU, gan fod disgwyl i faint y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â ffiniau gynyddu. Fodd bynnag, mae hefyd yn gyfle i artistiaid o'r DU ffocysu ar farchnadoedd newydd i allforio eu cerddoriaeth iddynt.

2.2 Lle Caerdydd yn niwydiant cerddoriaeth y DU

Ers amser maith, bu Caerdydd yn ganolbwynt i ddiwydiant cerdd Cymru, ac mae llawer o fandiau wedi mynd ymlaen i gyflawni llwyddiant rhyngwladol. Bu'r Super Furry Animals,

¹IFPI (2018)

²UK Music (2017a)

³Ibid.

⁴Ibid.

⁵Ibid.

⁶UK Music (2017b)

Catania, High Contrast, The Stereophonics a'r Manic Street Preachers ymhlith nifer a berffeithiodd eu crefft yn lleoliadau'r ddinas.

O ran Cerddoriaeth Glasurol, Caerdydd yw un o ddinasoedd arweiniol y DU o ran seilwaith a darpariaeth. Mae dwy gerddorfa breswyl o'r radd flaenaf, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, a hefyd Ffilharmonig Caerdydd a Sinfonia Cymru. O ran seilwaith, mae Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru (Neuadd Dewi Sant) yn cael ei chydabod yn eang fel un o'r deg neuadd gyngerdd orau yn y byd ar gyfer acwsteg, ac mae Neuadd Hoddinott yn neuadd gyngerdd ac yn stiwdio recordio o'r radd flaenaf, hefyd gydag acwsteg o'r radd flaenaf. Yn ategu'r cynnig hwn, ceir y Conservatoire yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a neuadd gyngerdd Doris Stoutzker.

Gelwir Cymru yn 'Wlad y Gân' ac mae ganddi enw da yn rhyngwladol am Gorau a gweithgaredd Corawl, a Chaerdydd yw canolbwynt hyn, gyda Chorws Cenedlaethol Cymru y BBC, Côr Polyonig Caerdydd, Cantemus Côr Caerdydd a Chantorion Ardwyn Caerdydd, i gyd wedi'u lleoli yn y ddinas. Hefyd, mae Caerdydd yn cynnal y gystadleuaeth ryngwladol Canwr y Byd Caerdydd y BBC, a'r Wyl Lleisiau.

Cynigia Caerdydd amrywiaeth o leoliadau, o lawr gwlad i stadiwm. Mae teithiau stadiwm diweddar yn cynnwys Beyonce & Jay-Z, The Rolling Stones, Ed Sheeran, Coldplay a Robbie Williams, tra bod Florence + the Machine, Jason Derulo, a George Ezra i gyd wedi chwarae yn Arena Motorpoint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r agosrwydd at Fryste yn her, gan fod llawer o grwpiau ac unigolion cenedlaethol a rhyngwladol yn chwarae yno, yn lle yng Nghaerdydd.

Mae bwrlwm o weithgaredd gerddorol o amgylch Stryd Womanby, yn canolbwyntio'n arbennig ar y genres roc a indie, maes o gerddoriaeth gyfoes y mae Caerdydd yn arbenigo ynddi. Mae Stryd Womanby yn gyfuniad o fariau a lleoliadau llai gan gynnwys yr hoff glwb lleol, Ifor Bach. Dyma'r math o lwybr prysur a ddatblygodd yn organig dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, fel llawer o'i gymheiriaid ledled y DU, mae mewn perygl parhaus o ailddatblygu digydymdeimlad, ac mae eisoes wedi gweld rhai o hoff leoliadau'r ddinas yn cau eu drysau.

Nid yw'r duedd hon yn anarferol, ac nid yw'n unigryw i Gaerdydd, ychwaith. Bydd yr adroddiad hwn yn sefydlu'r sail ar gyfer sicrhau bod sîn gerddoriaeth Caerdydd yn cael ei diogelu a bod ei hunaniaeth yn cael ei meithrin a'i hyrwyddo am flynyddoedd i ddod.

3. ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD

3.1 Effaith economaidd cerdd Caerdydd

Mae Caerdydd yn gyfrifol am tua 30% o'r cynhyrchiad a 41% o'r swyddi a gynhrychir gan graidd sector cerdd Cymru. Cynhyrchodd allbwn o £153.2 miliwn, ac ychwanegodd werth £104.5 miliwn (GVA) i'r economi leol yn 2016. Cyfanswm y swyddi a gynhrychwyd ac a gefnogwyd gan y sector cerdd yn y ddinas oedd 2,500; cyfanswm incwm y swyddi hyn oedd £75 miliwn.


EFFAITH UNIONGYRCHOL

Mae'r effaith uniongyrchol yn adlewyrchu gwerth economaidd craidd yr ecosystem cerdd yn yr economi leol gan ddefnyddio pedwar newidyn economaidd safonol: allbwn, GVA, cyflogaeth a chyflogau. Yn 2016, roedd 200 o fentrau, gyda 15 ohonynt yn ddielw, yn cynnwys ecosystem cerdd Caerdydd. Cynhyrchodd y busnesau hyn allbwn o £70 miliwn, a GVA amcangyfrifedig o £37 miliwn. Roeddent yn gyfrifol am 1,440 o weithwyr, sy'n cynrychioli 41% o'r swyddi sector yng Nghymru.

Mae'r trosiant busnes blynyddol fel a ganlyn: Cynhyrchodd 22% £0-£49,000, cynhyrchodd 32% £50,000-£99,000, a 24% £100,000-£199,000. Hynny yw, mae 78% o'r mentrau yn y tri chategori trosiant isaf a ddiffinnir gan yr arolwg (Graffig 1).




GRAFFIG 1: CAERDYDD – TROSIANT MENTRAU CERDD, 2016



Gan defnyddio codau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC), canfuwyd mai cerddoriaeth fyw a theithiau sy'n cynhyrchu allbwn uchaf ecosystem cerdd y ddinas, gan gynhyrchu 65% o'r cyfanswm incwm (£45.6 miliwn), a chreu 70% o'r cyfanswm swyddi. Yn dilyn hynny, ceir y diwydiannau cefnogol (gwerth 13%) a recordio a chyhoeddi (9%).



GRAFFIG 2: CAERDYDD – ALLBWN ECOSYSTEM CERDD, 2016



CYFLOGAETH UNIONGYRCHOL

Canfuwyd bod 58% o'r swyddi a gynhyrchwyd yn uniongyrchol gan y sector cerdd yn rhai llawn-amser (840) a 42% yn rhai rhan-amser (600). Yn ogystal, mae 63% o'r swyddi a gynhyrchir yn gysylltiedig â gweithgareddau artistig a chreadigol⁷, tra bod y 37% sy'n weddill yn gysylltiedig â chymorth masnachol, technegol a rheolaeth⁸.

Incwm blynyddol cyfartalog artistiaid ac asiantau creadigol yn y sector cerdd yw £18,000⁹, gyda ffynhonnell incwm amrywiol ac nid o reidrwydd i gyd o gerddoriaeth, tra bod gweithwyr technegol a rheolwyr y sector cerdd¹⁰ yn ennill £27,500 ar gyfartaledd, gwahaniaeth cyfartalog o 44%. Seilir yr amcangyfrifon hyn ar yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a'r arolwg a gynhaliwyd gan Sound Diplomacy.


⁷ Gweithgareddau artistig a chreadigol yw'r rhai sy'n ymwneud â phrosesu creu a chynhyrchu yn yr ecosystem cerdd, boed ar gyfer cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio, er enghraifft cerddorion, awduron, ffotograffwyr, dylunwyr, ymhlith eraill.

⁸ Cymorth masnachol, technegol a rheoli yw'r rhai sy'n gysylltiedig â dosbarthu a manwerthu nwyddau a gwasanaethau gweithredol a chymorth o fewn yr ecosystem cerdd.

⁹ Ychydig yn is na'r cyfartaledd cyflog cenedlaethol ar gyfer crëwyr cerddoriaeth o £20,504 (adroddiad *Measuring Music 2018* Cerddoriaeth y DU, t12)

¹⁰ Gweithwyr technegol a rheoli yn y sector cerdd: gweithwyr proffesiynol addysgu ac addysg cerdd, gweithredwyr darlledu clyweledol, peirianwyr sain, hyrwyddwyr digwyddiadau.


GRAFFIG 3: CAERDYDD – CYFLOGAETH ECOSYSTEM CERDD, 2016




Mae nifer y cyflogeion sy'n gweithio yn y sector cerdd yng Nghaerdydd yn debyg i'r rheiny ym Mryste (1,485) a Lerpwl (1,500), a llawer uwch na Rhydychen (400). Fodd bynnag, canfuwyd bod Caerdydd yn creu 4.3 o swyddi yn y sector cerdd ar gyfer bob 1,000 o breswylwyr, tra bo Bryste, Lerpwl a Rhydychen ond yn creu 2.7 (Graffig 5)¹¹. Mae hyn yn amlygu ffocws y ddinas ar ddatblygiad yr ecosystem cerdd o gymharu â dinasoedd eraill.

¹¹Gwybodaeth ddemograffig a gafwyd o GYFRIFIAD 2011 y Deyrnas Unedig

GRAFFIG 4: DINASOEDD CYMHAROL – CYFLOGAETH, 2016




GRAFFIG 5: DINASOEDD CYMHAROL – CYFLOGAETH, 2016



Mae gan Gaerdydd niferoedd tebyg i Fryste o leoliadau i bob 1,000 o breswylwyr, mwy na Lerpwl, a llai na Rhydychen (Graffig 6).

GRAFFIG 6: DINASOEDD CYMHAROL – LLEOLIADAU CERDD I BOB 1000 O BRESWYLLWYR



Effaith uniongyrchol

Allbwn: £70.23 miliwn
GVA: £36.94 miliwn
Cyflogau: £24.5 miliwn
Cyflogeion: 1,440

EFFAITH ANUNIONGYRCHOL AC EFFAITH YSGOGEDIG

Cyfrifir effaith economaidd anuniongyrchol drwy edrych ar y newidiadau yng ngwerthoedd allbwn, GVA, cyflogaeth a chyflogau a yrrir gan gyflenwyr yr ecosystem cerdd. I wneud hyn, rydym yn cynnwys mesur cyfnewid economaidd gyda chyflenwyr nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'r ecosystem cerdd, fel hysbysebu, cynhyrchu fideo, a hyd yn oed gwasanaethau cyfreithiol, cyfathrebu a thrafnidiaeth.

Effaith anuniongyrchol

Allbwn: £32.97 miliwn
GVA: £24.27 miliwn
Cyflogau: £17.01 miliwn
Cyflogeion: 326

Yr effaith economaidd ysgogedig yw'r gwerth economaidd (allbwn, iawndal a chyflogaeth) sy'n deillio o "wariant gweithwyr y mae eu hadnillion yn cael eu heffeithio gan y newid galw-terfynol, a elwir yn aml yn effaith gwario aelwydydd"¹². Hynny yw, mae'r effaith hon yn deillio o wariant gweithwyr y mae eu cyflogau'n cael eu cefnogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan yr ecosystem cerdd yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr arian a wariwyd gan gyflogeion ecosystem cerdd ar fwyd, adloniant, trafndiaeth ayb.

Effaith ysgogedig


Allbwn: £49.95 miliwn
GVA: £43.32 miliwn
Cyflogau: £33.58 miliwn
Cyflogeion: 729

¹² RIMS II: Offeryn hanfodol ar gyfer datblygwyr a chynllunwyr rhanbarthol, tudalen 53.

GRAFFIG 7: CAERDYDD - CYFANSWM EFFAITH ECONOMAIDD ECOSYSTEM CERDD, 2016

	ALLBWN MILIWN £	GVA MILIWN £	CYFLOGAU MILIWN £	CYFLOGEION
Effaith uniongyrchol	70,2	36,9	24,5	1440
Effaith anuniongyrchol	33,0	24,3	17,0	326
Effaith ysgogedig	50,0	43,3	33,6	729
Cyfanswm	153,2	104,5	75	2494

GRAFFIG 8: CAERDYDD – CYFANSWM CYFLOGEION ECOSYSTEM CERDD, 2016



3.2 Mapio diwydiant Caerdydd

Gan ddefnyddio offerynnau unigryw Sound Diplomacy, mapiwyd diwydiant cerdd Caerdydd, o leoliadau i fusnesau ac asedau cerdd eraill. Mae 36 lleoliad cerdd, 28 clwb nos, 11 siop recordiau/ offer, 29 stiwdio recordio, 6 lle ymarfer, 7 gorsaf radio, 45 athro cerdd cofrestredig, 15 asiant archebu/ hyrwyddwr, 26 gŵyl â thâl mynediad, 13 lle cydweithio a 7 label recordiau¹³.

O'i chymharu â Bryste a Lerpwl, dwy ddinas o boblogaethau cymharol (mae gan Bryste 535,907 o bobl a Lerpwl 552,267), dengys yr ystadegau fod Caerdydd yn ddinas sy'n cadw i fyny â'i chystadleuwyr. Mae gan Gaerdydd 0.143 o leoliadau i bob 1,000 o breswylwyr, ychydig y tu ôl i Fryste, sydd â 0.147. Dim ond 0.107 o leoliadau i bob 1,000 o breswylwyr sydd gan Lerpwl.¹⁴ Hefyd, yng Nghaerdydd ceir 29 stiwdio recordio o gymharu â 9 ym Mryste a 13 yn Lerpwl. Mae clybiau nos a lleoliadau cerdd y ddinas wedi'u clystyru yn ardal Canol Caerdydd neu o'i chwmpas, ac mae'r rhan fwyaf o bwyntiau manwerthu wedi'u lleoli ar neu o gwmpas Heol Eglwys Fair. Mae'r stiwdios recordio a mannau ymarfer wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal.

Mae gan Brif Adeilad Cerdd Prifysgol Caerdydd dros ddau ddwsin o ystafelloedd ymarfer, tair ystafell ensemble a phedair stiwdio electro-acwstig, gan gynnwys y brif stiwdio recordio sydd wedi'i chyfarparu'n llawn i safon y diwydiant. Yn ddiweddar, buddsoddodd Prifysgol De Cymru yn ei chyfleusterau ATRiuM, ac mae ganddi 9 stiwdio gerdd a sain, gydag ystafelloedd rheoli cysylltiedig, ac 16 ystafell ymarfer amlgyfrwng a ddiogelir yn acwstig. Mae hyn yn cynnwys ystafell Gus Dudgeon, sy'n gartref i'r ddesg gymysgu wreiddiol y recordiodd Elton John *Rocket Man* arni, a lle cynhyrchodd Dudgeon *Space Oddity* David Bowie. Yn ogystal â hyn, mae datblygiad adeiladau newydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru 2011, i ategu'r cyfleusterau presennol yng Nghanolfan Anthony Hopkins ac Adeilad Raymond Edwards, yn cynnwys neuadd gyngerdd Dora Stoutzker sydd â chapasiti o 400 a phedair stiwdio ymarfer fodern, maint llawn, gydag uchder dwbl.

Er bod rhai mannau gweithio ar y cyd mewn ardaloedd maestrefol, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u clystyru yng Nghanol Caerdydd ac Ardal y Bae, sy'n unol â gweledigaeth y ddinas o weld Ardal y Bae yn dod yn hyb creadigol.

Dengys cipolwg calendr 90 diwrnod o Gaerdydd fod 161 o gigs wedi'u rhestru ar Songkick¹⁵. Ar yr un dyddiadau, roedd gan Lerpwl 415 o sioeau. Gan Fryste oedd y calendr prysuraf o bell ffordd, gyda 740 o gigs. Er bod ochr 'busnes' a 'chreu' y diwydiant yn edrych yn fwy gweithgar yng Nghaerdydd, mae'r sector perfformiad y tu ôl i ddinasoedd o faint tebyg - gallai hyn fod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: mwy o gigs yn ystod yr wythnos, prynhawn a min nos ym Mryste a Lerpwl; mwy o leoliadau (er bod gan Gaerdydd gymhareb gystadleuol o ran lleoliadau y pen, mae'n dal yn ddinas lai na'r ddwy arall); data camarweiniol (efallai fod llai o weithgaredd Songkick yng Nghaerdydd).

¹³ Mapio gwybodaeth a nodwyd yng Nghaerdydd ar Orffennaf 10, 2018.

¹⁴ Gwybodaeth a gafwyd trwy ddadansoddiad effaith economaidd.

¹⁵ Mae Songkick yn llwyfan byd-eang sy'n helpu defnyddwyr i drefnu ac olrhain eu hoff fandiau, cael rhybuddion cyngerdd, a phrynu tocynnau. Eu API yw'r gronfa ddata cerddoriaeth fwyaf yn y byd. Cyfrifwyd y cyfnod o 90 diwrnod fel y dyddiadau hynny ar galendr Songkick rhwng 27.8.2018 a 27.11.2018.

3.3 Canfyddiadau allweddol

LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH

Nid oes swyddfa gerdd sy'n gysylltiedig â llywodraeth. Ceir Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cyfuniad o wasanaethau economi nos (NTE) sy'n gweithio tuag at wella amodau ar gyfer bywyd nos a'r diwydiant cerdd, er nad yw cerdd fyth yn cael ei chynrychioli na'i chyfarch yn benodol. FOR Cardiff yw un o hyrwyddwyr mwyaf o ddiogelwch a buddsoddiad gyda'r nos, ond nid yw cerdd yn rhan o'i gylch gwaith craidd. Fodd bynnag, mae'n ei gefnogi'n weithredol yn ôl ei ddisgresiwn.

Mae argymhellion y strategaeth gerdd yn y ddogfen hon yn pontio bwllch rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio ecosystem cerdd y ddinas. Un o brif amcanion yr adroddiad yw creu 'Bwrdd Cerdd' i Gaerdydd, sy'n cynnwys personél lefel uchel o'r cyngor, ochr yn ochr ag aelodau allweddol o'r ecosystem cerdd sector preifat. Bydd hyn nid yn unig yn dod â'r cyhoedd a'r sector preifat at ei gilydd, ond bydd hefyd yn arwain at ddatblygu cerdd yn y ddinas ac, wrth wneud hynny, bydd yn agor lle i drafod a chyfathrebu rhwng y gwahanol randdeiliaid.

TRWYDDEDU A'R HEDDLU

Mae llawer o'r termau sy'n gysylltiedig â sŵn yng nghytundebau trwyddedu Caerdydd yn 'awgrymiadau' neu'n 'ganllawiau', fel rhoi'r gorau i weithgarwch am 9pm neu ymgynghori â chymdogion cyn adeiladu lleoliad. Caiff niwsans statudol ei fonitro dros dri ymweliad safle, ond hefyd yn y pen draw mae'n cael ei adael i'r swyddog sy'n mynychu benderfynu a yw lleoliad/ ffynhonnell sŵn yn tarfu ar gymdogion. Mae hyn yn creu problemau gyda gorfodaeth anghyson, oherwydd gall diffiniad swyddog unigol o'r hyn sy'n 'uchel', eu profiad personol gyda'r lleoliad, neu hyd yn oed eu hwyliau ar y noson honno ddylanwadu arno.

Ar ben hynny, mae categori adeiladau lleoliadau yn amhenodol mewn llawer o fframweithiau rheoleiddio, fel y Polisi Effaith Gronnol (CIP). O ganlyniad, byddai'r CIP yn rhoi manau cerddorol presennol a rhai'r dyfodol mewn perygl yng nghanol y ddinas oherwydd yr effaith gronnol y mae eiddo trwyddedig yn ei chael ar faint o drosedd ac anhrefn sydd yn yr ardal, p'un a ydynt yn gyfrifol amdano ai peidio.

Nid oes cymorth ariannol ar gael i leoliadau sydd angen gwella gwrthsain er mwyn lleddfu cwynion am sŵn. Achosodd hyn i rai lleoliadau gau, ac mae'n fater y gellid ei ystyried o dan egwyddorion Cyfrwng Newid (y Bil CN).

Dim ond 2% o'r holl gwynion sŵn a wnaed rhwng 2016-2018 oedd yn erbyn eiddo masnachol neu ddiwydiannol. Nid yw llawer o gwynion sŵn a gofrestrwyd gyda'r ddinas yn nodi'r ffynhonnell (h.y. sŵn masnachol, adeiladu, radios preswyl, aflonyddwch cyhoeddus ar y palmant, ayb), sy'n ei gwneud yn anodd edrych yn ôl ar gwynion a dod o hyd i feysydd neu dueddiadau problemus i ymdrin â hwy.

Yn aml, mae trwyddedau yn cyfyngu mynediad i eiddo i oedrannau penodol, neu'n cyfyngu ar yr oriau y gellir chwarae cerddoriaeth. Gellir neilltuo dosbarth defnydd unigol i fannau aml-ddefnydd hefyd i'w gwneud yn haws pennu telerau trwyddedu, hyd yn oed os bydd y defnydd o'r lleoliad yn newid yn ystod y nos (h.y. efallai y bydd yn rhaid i fwyty sy'n troi'n glwb nos gadw at reoliadau bwytai ar bob adeg). Mae llawer o ddarpar drwyddedeion yn cael eu gadael yn y tywyllwch yn ystod eu prosesau ymgeisio, gan nad oes fframwaith penodol yn ei le, na rhestr o ddisgwyliadau ar gyfer paratoi eu gwaith papur a'u cynlluniau busnes. Drwy greu rhestr glir o ffioedd, trwyddedau angenrheidiol ac amcangyfrif o amserlen, bydd y broses ymgeisio yn llawer haws i berchnogion lleoliadau, a bydd y ddinas yn ei chael yn llawer haws gorfodi rheoliadau.

Er bod y System Goleuadau Traffig yn ffordd dda o orfodi telerau trwydded, mae angen bod yn dryloyw yn y broses. Ar ôl siarad â rhai lleoliadau am hyn, awgryma tystiolaeth nad ydynt yn ymwybodol p'un a ydynt yn cael eu monitro ai peidio, ble maent ar hyn o bryd yn y system (Gwyrdd, Oren neu Goch), neu'r hyn y gallant ei wneud i gyflawni statws 'Gwyrdd'. Dim ond ar ôl iddynt gael statws 'Coch' y cânt wybod am fodolaeth a gweithrediad y system.

Mae llawer o blismona lleoliadau Caerdydd yn dibynnu ar rannu data, sy'n creu problemau gan mai dim ond 'ardaloedd' problemus y gall yr heddlu eu hadnabod, yn hytrach na lleoliadau unigol. Maent o dan bwysau i rwystro lleoliadau mewn parthau coch, sy'n annheg ar y lleoliadau heb hanes o droseddau. Mae mesurau diogelwch y tu allan i leoliadau (neu'r materion hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thrwyddedu, fel aflonyddu rhywiol) yn aml yn cael eu hanwybyddu mewn polisi ac fe'u cynhelir yn bennaf gan Fugeiliaid Stryd Caerdydd neu FOR Cardiff. Ar y cyfan, dywedodd ymatebwyr ein harolwg eu bod yn teimlo bod diogelwch yn un o nodweddion cryfaf sîn gerddoriaeth Caerdydd, gan raddio eu profiad 4.1 allan o 5 ar gyfartaledd.

CYLLID

Ar un llaw, mae ariannu digwyddiadau mawr yng Nghymru yn dangos ewylllys i fuddsoddi mewn datblygu proffil yn y sectorau cerdd a diwylliannol cenedlaethol. Ar y llaw arall, mae cyllid craidd yn cael ei ddyrannu'n bennaf ar gyfer y sector cerdd glasurol ar hyn o bryd, sy'n derbyn cefnogaeth hael o'i gymharu â meysydd eraill fel addysg cerdd neu genres cyfoes. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r costau uchel sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth glasurol, er ei bod yn aml yn derbyn cefnogaeth ariannol gan roddwyr a chwsmeriaid preifat, rhywbeth nad yw'n gyffredin mewn genres cerdd eraill. Mae Caerdydd yn rhagori mewn cerddoriaeth

glasurol, gyda llawer o gerddorfeydd yn y ddinas, gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, Ffilharmonig Caerdydd a Sinfonia Cymru.

Nid yw'r cyfleoedd cyllid preifat sydd ar gael yng Nghaerdydd - fel Banc Datblygu Cymru neu Ardal Fenter Canol Caerdydd (yn ogystal â chwmnïau cenedlaethol mwy generig, y ceir nifer ohonynt e.e. y Cwmni Benthyciadau Cychwynnol) – yn rhoi cefnogaeth benodol i fentrau yn y sector cerdd neu'r diwydiannau creadigol, a gaiff eu herio'n draddodiadol o ran mynediad at gronfeydd preifat confensiynol fel benthyciadau banc.

Mae'r Banc Datblygu yn cefnogi busnesau ledled Cymru, ac fel arfer mae 'cyllid' Ardal Fenter Canol Caerdydd yn golygu cynnig rhyddhad ardrethi busnes. Er gwaethaf crynhoad mawr o ddiwydiannau creadigol yn yr ardal, mae'n werth nodi nad yw'r Ardal Fenter yn darparu unrhyw gymorth penodol iddynt.

Amlygodd ymatebwyr i'n harolwg ddiffyg gwybodaeth ddigonol am argaeledd grantiau ar gyfer eu gweithgareddau. Yn wir, dim ond 10% a dderbyniodd grant, a dywedodd y 90% arall nad oeddent wedi cael dim oherwydd nad oeddent yn ymwybodol o'r cyfle, na beth oedd y camau angenrheidiol i'w cael. Mae'n bwysig nodi yma nad oes gan y cyngor y gallu i ddarparu grantiau, ond gallai weithredu gwell cyfeirio.

Dywedodd llawer a dderbyniodd arian ar gyfer eu gweithgareddau cerdd ei fod wedi dod gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Yn ôl ystadegau diweddar CCC, roedd cyfartaledd yr holl grantiau mawr cenedlaethol a ddyfarnwyd i Gaerdydd yn 27.2% yn 2017/2018 (yn cynyddu i 37.2% ar gyfer grantiau bach o dan £5K).¹⁶ Mae yma gyfle i ehangu'r cyllid a ddyrennir i ddatblygu'r diwydiant cerdd, a chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu llinyn penodol ar gyfer gweithgareddau allforio cerdd Cymru, mewn cydweithrediad â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Mae Cronfa Lansio BBC Cymru yn darparu grantiau i artistiaid a chafodd nifer o gerddorion Caerdydd fudd ohonynt yn y gorffennol, ond hefyd mae'r gronfa hon yn cael ei hariannu'n rhannol gan CCC. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru a CCC yn gweithio gyda Sefydliad PRS i gefnogi mwy o fynediad i 'Momentum Funding' drwy'r Sefydliad PRS, ac mae Help Musicians UK ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil i weld faint o effaith a fyddai eu presenoldeb yng Nghymru yn ei chael, a sut y gallent gefnogi artistiaid yng Nghymru.

Ceir cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau ariannu presennol i greu cyfleoedd pellach i artistiaid a sefydliadau yn y diwydiant cerdd yng Nghymru. Rhai enghreifftiau yw'r Tŷ Cerdd (sydd ar hyn o bryd yn ffocysu ar sefydliadau cerdd glasurol ddielw a hyrwyddo cyfansoddwyr Gymreig), y Sefydliad PRS, Diwydiant Ffonograffig Prydain, Help Musicians UK a chyllid y Loteri Genedlaethol – grantiau Pobl a Lleoedd.

¹⁶Gweler Cyngor Celfyddydau Cymru (2019)

MANNAU A LLEOEDD

Mae gan Gaerdydd 5 lleoliad graddfa fawr (capasiti 7,500+), er mai dim ond y Motorpoint Arena sy'n cynnal cyngherddau (ac mae adborth o'r arolwg yn awgrymu bod angen i Motorpoint wella ei acwsteg). Cynhelir cyngherddau yn Stadiwm y Principality a Stadiwm Dinas Caerdydd o bryd i'w gilydd, ond yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn darparu ar gyfer gemau chwaraeon. Mae Caerdydd yn bwriadu adeiladu arena amlbwrpas 15,000+ o gapasiti. Ystyrir hon yn flaenoriaeth gan lywodraethau'r ddinas a chenedlaethol.

Ceir rhai bylchau ar ysgol leoliadau'r ddinas, sy'n gadael bylchau wrth i artistiaid symud i fyny drwy wahanol lefelau eu gyrfa. Awgryma tystiolaeth bod angen mwy o leoliadau pwrpasol gydag offer da, sydd â chapasiti rywle rhwng bariau (sy'n defnyddio cerddoriaeth fel cynnyrch atodol), clybiau bach ac arenas. Awgrymodd ymatebwyr yr arolwg mai lleoliad canolig o tua 2,000 o gapasiti fyddai orau oll. Nododd sylwadau ychwanegol yr arolwg ddiffyg lleoliadau mewn ardaloedd maestrefol.

Nododd nifer o ymatebwyr i'r arolwg bod diffyg digwyddiadau a lleoliadau amrywiol yn faterion o bwys, yn enwedig o ran amrywiaeth diwylliannol a rhywedd. Mae ffigurau'r arolwg yn awgrymu galw am fwy o genres nad ydynt yn indie, a DJs sy'n chwarae cerddoriaeth o faes ehangach (soniwyd am symud y tu hwnt i ffocws ar chwarae drwm a bas). Mae genres fel hip-hop, rap, grime, RnB, jazz, cerddoriaeth fyd, a genres electronig yn cael eu tangynrychioli o ran digwyddiadau a pherfformwyr. Byddai perthynas waith agosach â thimau trwyddedu'r ddinas yn helpu i sicrhau amrywiaeth yn y sector a gwell dealltwriaeth o genres a'u cynulleidfa.

Mae hygyrchedd lleoliadau, a diffyg mynediad heb stepiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn creu amgylchedd sy'n gyffredinol ddigroeso i bobl â chyfyngiadau symudedd sydd eisiau mynychu digwyddiadau.

Mae Caerdydd yn gweithio tuag at grwpio'r cyfryngau a'r diwydiannau creadigol, wrth i'r ddinas gydnabod manteision hirdymor twf mewn ymchwil a rhwydweithiau a geir mewn clwstwr o ddiwydiannau. Y prif ardaloedd clwstwr yng Nghaerdydd yw'r Sgwâr Canolog a Bae Caerdydd.

CYNLLUNIO

Cyflwynir strategaeth gynllunio Caerdydd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), a fabwysiadwyd yn 2016 ac sy'n rhedeg tan 2026, er y gallai gael ei adolygu cyn y dyddiad hwn. Mae'n canolbwyntio ar 8 maes Polisi Manwl i'w datblygu, yn ogystal â set o Bolisiau Allweddol.

Nid oes unrhyw bolisiau sy'n cyfeirio'n benodol at leoliadau cerddoriaeth yn y CDLI, ac yn wahanol i Gynlluniau Lleol rhai dinasoedd, ni chyfeirir at y gair 'cerddoriaeth'. Nid yw hynny'n golygu nad oes nifer o bolisiau i hyrwyddo a diogelu seilwaith cerddoriaeth, ond

nid oes fawr ddim cyfeiriadau uniongyrchol. Yn absenoldeb polisïau penodol yn cyfeirio at leoliadau cerddoriaeth, bernir pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun ar ystod eang o bolisïau, yn dibynnu ar ei amgylchiadau. Cyfeirir at rai o'r polisïau a allai fod yn berthnasol isod. Yn ogystal, mae'r CDLI yn datgan cefnogaeth i ddatblygu 'cyfleusterau hamdden, diwylliant a chwaraeon' o'r radd flaenaf ac yn datgan yr angen i ddatblygu cyfleusterau cymunedol a hamdden o fewn safleoedd tai strategol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae canllawiau Adran 106 yn arf allweddol i sicrhau bod datblygiadau'n darparu buddion cymdeithasol ehangach, yn canolbwyntio ar dwf preswyl a chyfleusterau cysylltiedig, megis ysgolion, trafndiaeth a manau cyhoeddus. Ni chyfeirir yn uniongyrchol at leoliadau cerdd ac nid ystyrir hamdden yn benodol y tu hwnt i gyfleusterau cymunedol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfleusterau cymunedol yn fuddiolwyr nodedig o arian A106, ac maent yn ddarparwr allweddol o leoedd ar gyfer dysgu neu ddatblygu cerddoriaeth.

Yn y Canolfannau Ardal, rhoddir blaenoriaeth i siopau manwerthu neu groser dros gyfleusterau hamdden ac adloniant (mae'r CDLI yn nodi mai siopa ddylai fod yn 75% o ddefnydd canolfan ardal)¹⁷. Rhaid cydnabod manteision cymdeithasol a chymunedol lleoliad cerddoriaeth wedi'i inswleiddio'n dda er mwyn iddo gael ei ystyried o fewn canllawiau cynllunio.

Mae agweddau twf economaidd y CDLI yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd cyflogaeth newydd, tir i'w hadeiladu arno, neu ehangu cyfleoedd a thir presennol. Erbyn 2026, mae Caerdydd eisïau ychwanegu 40,000 o swyddi newydd (at ffigurau 2006). Yn ardaloedd y Canol a'r Bae, rhoddir blaenoriaeth i ofod swyddfa, yn enwedig i'r rheiny sy'n darparu ar gyfer meysydd ymchwil a datblygu.

Nid yw safleoedd hamdden ac adloniant yn cael eu hyrwyddo mewn dull mor weithredol. Ni chânt eu blaenoriaethu mewn unrhyw ddsbarth defnydd, ac er eu bod yn cael eu cefnogi yn y CDLI, mae llai o ddyfnder polisi sy'n ymwneud â chyfleusterau hamdden a dim cyfeiriadau penodol at seilwaith lleoliadau cerdd. Mae lleoliadau, manau ymarfer, stiwdios recordio a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â cherdd yn cael eu categoreiddio fel Dosbarth D2 (cynulliad a hamdden) neu Sui Generis (defnydd cyffredinol). Dim ond yn yr Ardal Siopa Ganolog, Canol y Ddinas, glan y dŵr Bae Caerdydd a chanolfannau ardal/lleol y caiff defnyddiau o'r fath eu hyrwyddo. Mae ffocws cadarnhaol ar ddatblygiadau hamdden yn ardal fusnes y Canol a'r Bae. Dylid nodi mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar ddsbarthiadau defnydd, ac felly ni all awdurdod lleol eu pennu. Fel gydag unrhyw fath arall o gais, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos sut mae ei gynnig yn ymdrin â'r polisïau perthnasol.

Cafodd yr egwyddor Cyfrwng Newid ei chynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 Llywodraeth Cymru (2018) sy'n darparu canllawiau cynllunio ledled y wlad ac yn nodi'r canlynol:

¹⁷TAKE Cyngor Caerdydd (2006), t. 181

“Bydd yr egwyddor Cyfrwng Newid yn egwyddor arweiniol ar gyfer cefnogi'r economi min nos a datblygu defnyddiau sy'n sensitif i'r seinweddau a brofir mewn canolfannau masnachol prysur.” Mae'n rhy gynnar i asesu sut y gallai Cyngor Caerdydd ddefnyddio'r canllawiau hyn i wella darpariaeth cerddoriaeth yn y ddinas, ond mae'n cynnig cyfle clir.

Yn ddiweddar, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Seinwedd 2018-2023, ond dim ond fel ystyriaeth i ddatblygiadau newydd. Nid yw wedi'i glymu'n ddigonol â thrwyddedu, sy'n peri pryder os bydd unrhyw gwynion yn y dyfodol yn ymwneud ag eiddo a oedd yn bodoli cyn i'r polisiau newydd gael eu drafftio.

Ceir cynllun rhyddhad treth ar gyfer y diwydiannau creadigol, ond yr unig ddefnydd sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth yw lleoliadau cerddorfaol pwysig, fel neuaddau cyngerdd¹⁸. Mae cydnabod lleoliad fel safle treftadaeth cenedlaethol yn aml yn cael ei gadw ar gyfer sefydliadau elitaidd mawr, fel neuaddau cerddoriaeth glasurol. Ceir ychydig o safleoedd eraill a gydnabyddir yn anffurfiol, megis tir o amgylch Clwb Ifor Bach yn cael ei brynu i ddiogelu a chaniatáu ehangu, gyda chymorth Cyngor Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC).

Gallai crynodeb o'r ddeddfwriaeth gynllunio yng Nghaerdydd ddod i'r casgliad bod lleoliadau cerdd yn cael eu gwerthfawrogi, ond nad yw hyn yn cael ei ddatgan yn benodol, ac nad ydynt wedi'u rhestru uwchlaw mathau eraill o ddatblygiad nac asedau diwylliannol. Gall Canllawiau Cynllunio Atodol penodol sy'n dwyn ynghyd gyfeiriadau polisi gwahanol i un lle fod o fudd i'r ddinas wrth symud ymlaen, a chaniatáu iddi fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r egwyddor Cyfrwng Newid yn eu darparu. Gall hyn fod yn rhywbeth y dylid ei ystyried fel rhan o unrhyw broses adolygu CDLI.

TRAFNIDIAETH

Daw y gwasanaethau trenau pellter hir i ben yn llawer cynharach na gwasanaethau Cymru (mae trenau i Lundain yn dod i ben am 9.30pm, 9pm ar ddydd Sadwrn, tra bod gwasanaethau i Abertawe yn dod i ben cyn 2am, a chyn 1am ar ddydd Gwener ac ychydig ar ôl hanner nos ar ddydd Sadwrn). Crea hyn rwystr i bresenoldeb oherwydd ni fydd rhai cynulleidfaoedd eisiau talu am lety dros nos, neu yn ei weld yn ddiplastyd os na allant wneud y daith adref yn syth ar ôl y sioe.

Dim ond tan 10.30pm (11.30pm ar benwythnosau) y mae trenau'r ddinas yn rhedeg, ac nid yw llawer o orsafoedd yn hygyrch i bobl ag anableddau (sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd cludo offerynnau ar drafnidiaeth gyhoeddus). Dim ond 4 llwybr bws nos sydd i'r ardaloedd maestrefol o ganol y ddinas, gan adael ardaloedd mawr heb wasanaeth. Hefyd, dim ond o ddydd lau-dydd Sadwrn y mae 2 o'r bysiau nos hyn yn rhedeg. Mae hyn yn rhwystr i bobl sydd am dreulio noson yn y ddinas, gan fod rhaid iddynt ystyried y gost afresymol o gael tacsï adref.

¹⁸Llywodraeth y DU (2018)

Mae diffyg trafniadaeth yn y nos hefyd yn ychwanegu at gyfraddau tagfeydd wrth i gynulleidfaoedd adael lleoliadau mawr (fel stadia neu Arena Motorpoint).

Mae pedestreiddio strydoedd yn ei gwneud yn anodd cael mynediad i leoliadau i artistiaid sydd eisiau cludo offer yn ôl ac ymlaen i'w gigs. Mae llwytho/ dadlwytho offer yn heriol mewn lleoliadau llai, ac yn y gorffennol cafodd cerddorion ddirwy am barcio yn yr ardal. Byddai mwy o drafnidiaeth (ynghyd â mwy o ddibynadwyedd trafniadaeth gyda'r Coridorau Trafnidiaeth Cyflym arfaethedig) yn lleihau tagfeydd ac yn gwneud y maestrefi allanol yn fwy hygyrch, gan olygu y gall preswylwyr y maestrefi aros yn hirach yng nghanol y ddinas, ac y gall preswylwyr canolog deithio i'r maestrefi ar gyfer hamddena.

ADDYSG

Cynorthwya Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a Bro Morgannwg fyfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerdd yn ystod oriau ysgol mewn 166 o ysgolion cyfranogol. Er bod y gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd dysgu cerdd gwerthfawr i lawer o fyfyrwyr, mae ffioedd cyrsiau yn rhwystro ei hygyrchedd (o £57- £218 y tymor, gellir benthg offerynnau). Mae hon yn broblem gydnabyddedig. Gwnaed argymhellion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddull mwy trefnus a chanoledig o ddysgu hygyrch i bob myfyriwr¹⁹. Heb fesurau yn eu lle i sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael mynediad i wersi offerynnol, bydd llawer yn colli cyfleoedd allweddol. Mae sefydliadau portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddeiaethau cerddoriaeth a rhaglenni addysgol, yn bennaf cerddoriaeth glasurol ac opera.

Ceir nifer o ddewisiadau addysg uwch a phreifat i astudio cerddoriaeth mewn gwahanol ffurfiau yng Nghaerdydd. Mae Ysgol Gerdd Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig mewn perfformiad, cyfansoddi, cerddoleg, ethnogerddoleg a cherddoriaeth boblogaidd²⁰. Darperir gwersi a chysiau mewn offerynnau, cyfansoddi, arwain, rheoli llwyfan a digwyddiadau, rheoli celfyddydau, a dylunio ar gyfer perfformiad yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru²¹. Cynigia Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gymwysterau addysgu mewn TAR Cerddoriaeth Uwchradd. Hefyd, ceir dosbarthiadau offerynnau cerdd yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Chapter²², yn ogystal â dosbarthiadau mewn theori cerddoriaeth a gweithdai grŵp yn yr Ysgol Gerdd Ryngwladol²³.

Cynigia Prifysgol De Cymru BA (Anrh) mewn Busnes Cerdd, yr unig gwrs o'i fath yn y ddinas. Hefyd cynigia'r brifysgol yr unig MA mewn cyfansoddi caneuon sy'n bodoli yng Nghymru. Nid oes unrhyw weithdy neu raglen hyfforddi anffurfiol i'r rhai sydd eisiau swydd

¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018)

²⁰ Prifysgol Caerdydd (2018)

²¹ Coleg Brenhinol Cerdd a Drama (2018)

²² Ysgol Gerdd Caerdydd (2018)

²³ Ysgol Gerdd Ryngwladol Caerdydd (2018)

broffesiynol yn y diwydiant cerdd ac sydd eisiau hyfforddiant â ffocws, nac ychwaith unrhyw gymorth i artistiaid sydd angen ehangu sgiliau heb ddilyn llwybr gradd hir, sy'n aml yn ddrud (Nid felly y bu erioed - roedd Sefydliad Cerddoriaeth Cymru yn arfer hyfforddi yng Nghaerdydd cyn ei gau oherwydd toriadau cyllid²⁴).

Dengys canlyniadau ein harolwg bod 56% o artistiaid a 42% o weithwyr proffesiynol wedi eu hyfforddi eu hunain, tra mai dim ond 20% sydd â graddau sy'n gysylltiedig â'u meysydd. Yn aml, sgiliau busnes yw'r rhai anoddaf i weithwyr proffesiynol eu dysgu iddynt eu hunain, ond mae eu hangen ar y rheiny sydd efallai'n dilyn perfformio cerddoriaeth yn hytrach na llwybr academiaidd.

Ar lefel genedlaethol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar £3m ar gyfer gwella gwasanaethau cerdd mewn ysgolion ledled Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Nod y gronfa yw cynyddu mynediad a chyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghymru ddysgu offerynnau newydd ac astudio cerdd. Mae'n adeiladu ar fentrau fel Anthem²⁵ a bydd yn cynnig cyfleoedd i sicrhau mynediad cyffredinol o ansawdd uchel i addysg gerddorol i bob myfyriwr. Bydd £1.5 miliwn yn cael ei wario yn 2018/19, gyda £1.5 miliwn arall yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau cerdd y flwyddyn nesaf. Derbyniodd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru £100,000 i barhau â'u gwasanaethau cerdd, gan gynnwys ensembles ieuencid. Ar wahân i hyn, y Grant Datblygu Disgyblion yw'r unig gymorth ariannol sy'n galluogi plant incwm isel i gael cyflenwadau ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol, er na chyfeirir yn uniongyrchol at gerddoriaeth. Cefnogir mynediad i addysg drydyddol gan yr Ysgoloriaethau Cerdd Astudio Uwch gan Gyngor Celfyddydau Cymru.


CYFLOGAETH & SGILIAU

Dangosodd canlyniadau ein harolwg mai'r rolau mwyaf cyffredin yn y diwydiant yw Hyrwyddwr Cerddoriaeth Fyw (14.7%), Lleoliad Cerddoriaeth (8.6%), Newyddiadurwr/ Awdur Cerddoriaeth (7.2%) a Gŵyl Gerdd (5.4%). Er i ni ddarparu 26 o gategoriâu gwahanol i ddewis ohonynt, nodwyd nifer o rolau gwahanol eraill, gan ddangos amrywiaeth ac ehangder ecosystem cerdd Caerdydd.

²⁴BBC, Sefydliad Cerddoriaeth Cymru (2014)


²⁵<http://www.arts.wales/139279>

FFIGUR 1. ROLAU ECOSYSTEM CERDD A GYFLAWNIR GAN YMATEBWYR 'PROFFESIYNOL', 'CERDDORIAETH' AC 'ERAILL'



Mentrau masnachol sy'n dominyddu'r diwydiant cerdd; mae 24% o'r cwmnïau a arolygwyd yn ystyried eu hunain yn ddielw neu'n elusennol. Dim ond 10% o incwm y busnesau hyn ddaw gan artistiaid lleol. Golyga hyn bod artistiaid yn ei chael hi'n anodd gwneud elw byw o'u crefft. Dengys mewnwelediadau i batrymau gwaith artistiaid lleol bod 71% ohonynt yn gweithio 20 awr neu lai yn y diwydiant cerdd, gyda 87.4% yn ennill rhwng £0 a £10,000 y flwyddyn. Bydd llawer yn ychwanegu at yr incwm hwn gyda swyddi dydd, sy'n tynnu amser ac egni i fwrdd oddi wrth symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.

FFIGUR 2. INCWM SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHERDD GAN YMATEBWYR 'PROFFESIYNOL' AC 'ERAILL' YN Y 12 MIS DIWETHAF



Nid oes cyfeiriadur unigol yn cyfuno busnes cerdd, gweithwyr proffesiynol ac adnoddau Caerdydd. Gall hyn olygu bod llawer o chwaraewyr y diwydiant yn y tywyllwch, yn enwedig artistiaid DIY sydd efallai heb y sgiliau neu'r wybodaeth sydd eu hangen i symud ymlaen â'u gyrfaoedd ar ôl pwynt penodol. Byddai casglu manylion cyswllt a chreu sylfaen ar gyfer y rhwydwaith yn helpu i ddod â diwydiant cerdd Caerdydd at ei gilydd. Roedd y drafodaeth bwrdd crwn a gynhaliwyd yn ystod y project hwn yn adlewyrchu'r farn hon, gan gyfeirio at yr hen Gyfeiriadur Busnesau Cerdd Cymru, a oedd yn cael ei redeg gan Sefydliad Cerddoriaeth Cymru, fel adnodd gwerthfawr. Ar hyn o bryd, mae diwydiant cerdd y ddinas yn dameidiog, sy'n ei gwneud yn anodd symud ymlaen gyda gweledigaeth gydlynol.

TWRISTIAETH A BRANDIO

Ers amser maith, cafodd Cymru ei galw'n 'Wlad y Gân'.

Yn ôl *Wish You Were Here 2017 Report of Contribution of Music Tourism to the UK's Economy*, cynhyrchodd Cymru £115 miliwn drwy gerddoriaeth, £55 miliwn ohono drwy gyngherddau byw,

a £61 miliwn drwy wyliau cerddorol.²⁶ Ymhlith yr atyniadau cerdd, roedd Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Gŵyl Rhif 6, a Sŵn. Yn 2017, cynyddodd nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth o 18% i 1,908.²⁷ Mae twristiaeth a gweithgareddau cerdd wedi bod yn brif ffynonellau refeniw i Gymru gyfan, a'r un modd, i Gaerdydd hefyd - mewn gwirionedd mae Caerdydd wedi gwneud llawer i hyrwyddo ei threftadaeth gerddorol Gymreig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu menter ledled Cymru o'r enw Dydd Miwsig Cymru i hyrwyddo Cerddoriaeth Gymraeg, gyda ffocws arbennig ar ddiwrnod cerddoriaeth Cymraeg bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, pobl o Gaerdydd neu'r ardal gyfagos sy'n tueddu i ymweld â'r lleoliadau yng Nghaerdydd, tra bod gwyliau'n denu cynulleidfaoedd mwy rhyngwladol gyda mwy o fynychwyr. Canfu ein harolwg gyfanswm o 1,706 o sioeau ar draws lleoliadau Caerdydd yn y flwyddyn flaenorol (tua 4.6 bob nos). Cynhyrchodd hyn gapasiti posibl o 10,258, ond dim ond 58% o'r capasiti hwn a lenwyd. Mae gan leoliadau Caerdydd botensial mawr i ehangu nid yn unig lefelau presenoldeb, ond hefyd nifer y digwyddiadau, fel y dangosir yn y canfyddiadau yn Adran 3.1.

Mae cerddoriaeth fyw yn dal i gael ei hystyried yn hoff ddifyrrwch aelodau'r gynulleidfa yng Nghaerdydd, gyda 75% o'r rhai a holwyd yn mynychu o leiaf un digwyddiad cerdd y mis a 96% o'r rhain yn aml yn mynychu digwyddiadau yn cynnwys artistiaid lleol a newydd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y lleoliadau ar gyfartaledd ychydig dros hanner llawn yn dangos bod gwaith i'w wneud o hyd o ran datblygu cynulleidfa, marchnata a hyrwyddo.

Golyga agosrwydd Caerdydd i Fryste ei bod mewn cystadleuaeth gyson am gynulleidfaoedd. Yn benodol, mae'r ddinas yn ymdrechu i ddenu teithiau cenedlaethol a gigs dan oed²⁸. Mae cyfle i Gaerdydd ailsefydlu ei lle fel cyrchfan gerdd tra bod Colston Hall ym Mryste yn cael ei hadnewyddu tan 2020. Gweithiodd y strategaeth hon i Gaerdydd yn y gorffennol, pan ganiataodd cau Stadiwm Wembley am gyfnod byr i Stadiwm y Mileniwm ddarparu lleoliad amgen i ddenu artistiaid, hyrwyddwyr a digwyddiadau.

Nid yw'n syndod mai sianeli digidol, fel cyfryngau cymdeithasol, yw'r dulliau mwyaf poblogaidd o godi ymwybyddiaeth o gigs, er bod 45% o hyrwyddwyr yn dal i ddibynnu ar air llafar. Mae rhan fawr o ddiwydiant Caerdydd yn defnyddio dulliau hyrwyddo di-ddigidol hefyd. Ar hyn o bryd nid oes un ffynhonnell gynhwysfawr i artistiaid, gweithwyr proffesiynol a chefnogwyr gael gafael ar wybodaeth am ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw. Er bod gwirfoddolwyr ymroddedig ar draws y ddinas wedi dylunio mapiau, cynhyrchu canllawiau gig, ffansinau a phodlediadau, a rhedeg unrhyw nifer o safleoedd cyfryngau cymdeithasol i gefnogi'r sîn gerddoriaeth, byddai gwefan sy'n rhestru digwyddiadau traws-genre yn gwneud pethau'n hygyrch i breswylwyr ac ymwelwyr sy'n dymuno gweld sioe neu ddarganfod cerddoriaeth newydd yn lleol.

²⁶ UK Music (2017b)


²⁷ Ibid.

²⁸ Yn anecdotaid, dywedwyd wrthym hefyd fod gan Fryste amodau trwyddedu llawer mwy manteisiol ar gyfer llwyfannu gigs dan oed.

ASEDAU A BYGYTHIADAU

Roedd yr arolwg a gwblhawyd gan gerddorion a gweithwyr proffesiynol cerdd Caerdydd yn gofyn am eu barn am ddiwydiant cerdd y ddinas yn gyffredinol. Gofynnwyd i ymatebwyr raddio amrywiaeth o asedau ecosystem cerdd Caerdydd. Amrywia'r sgorau cyfartalog o 2 seren (ar gyfer ffioedd perfformio) i 3.9 seren ar gyfer talent lleol. Dengys y canlyniadau nad oes unrhyw ganlyniadau rhagorol, er nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddiffygion difrifol.


FFIGUR 3. TROSOLWG O ASEDAU 5-SEREN AC 1-SEREN YN ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD



Yn gyffredinol, dengys y canlyniadau bod gweithwyr proffesiynol diwydiant cerdd Caerdydd yn credu bod y ddinas yn cynnig sîn gerddoriaeth lewyrchus gyda nifer o ddigwyddiadau a nifer dda o bobl yn mynychu. Fodd bynnag, mae lle i wella. Mewn theori, mae cefnogaeth gref i artistiaid newydd a rhwydwaith dda o weithwyr proffesiynol i helpu i greu

digwyddiadau, er nad yw hyn wedi'i symbylu na'i gyfleu'n effeithiol i'r rhai a fyddai'n ei ddefnyddio. Mae angen datblygu sgiliau busnes cerdd. Mae cyfleoedd ariannu yn brin, ac ni chaiff y rhai sy'n bodoli eu cyfathrebu'n ddigonol, gan olygu nad yw cerddorion yn aml yn gwybod ba gyfleoedd sydd ar gael.

FFIGUR 4. GRADDIO MEYSYDD I GAEL BUDD O FWY O GYMORTH SEFYDLIADOL



Byddai strategaeth twristiaeth cerdd dda yn helpu i adeiladu cynulleidfa ryngwladol ac ehangu demograffeg. Hoffai gweithwyr proffesiynol hefyd weld cymhellion i gwmnïau hyrwyddo cyflogaeth a sicrhau bywoliaeth y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant. Awgrymwyd hyn ar gyfer pobl a busnesau creadigol y mae eu diddordebau'n gorgyffwrdd â hwy - fel bariau a chlybiau. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd ac ymatebwyr rai mesurau megis lleihau ardrethi busnes ar gyfer yr holl leoliadau cerddoriaeth a diwylliannol, cynyddu nifer y gigs (y rhai â thâl) mewn manau defnydd cymysg ac anarferol, annog tafarndai i raglennu cynnwys gwreiddiol ac addysgu cerddorion ar sut i negodi cyflog teg (mae cynllun Chwarae Teg Undeb y Cerddorion yn arwain y ffordd yn y sector hwn), ymhlith pethau eraill. Mae gan Gaerdydd rwydwaith gwych o bobl, ond mae'n dameidiog; byddai dod â'r gwahanol rannau at ei gilydd yn symbylu ac yn cryfhau'r diwydiant, gan sbarduno twf. Nododd ymatebwyr y diwydiant mai bygythiadau ariannol oedd y pryder mwyaf, boed hynny ar ffurf boneddigeiddio sy'n prisio artistiaid allan o'r ddinas, codiad ym mhrisiau tocynnau yn gwrth-annog cynulleidfaoedd newydd, neu ddiffyg ariannu digonol a chyllideb ddiwylliannol ar lefel y llywodraeth. Mae darnio'r rhwydwaith hefyd yn bryder.

4. ARGYMHELLION STRATEGOL

LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH

Y SWYDDFA GERDD

ARGYMHELLIAD 1: GWEITHIO'N BRAGMATIG Â'R HOLL RANDDEILIAID I WIREDDU POTENSIAL ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD

Cychwynnydd: Datblygu Economaidd / Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth & Digwyddiadau

Cefndir: Mae Ecosystem Cerdd Caerdydd rym gyriant pwrpasol. Ar y lleiaf, mae angen Swyddog Cerdd ar gyfer Swyddfa Gerdd y Ddinas, a fydd yn bennaf gyfrifol am oruchwylio gweithrediad yr argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn.

Er bod llawer o'r argymhellion canlynol yn yr adroddiad hwn yn rhai cost isel, byddant angen ymrwymiad a llawer o waith. Byddai penodi Swyddog Cerdd Caerdydd yn dangos ymrwymiad ac adnoddau gan y cyngor i gyflawni'r argymhellion hyn. Bydd y Swyddog Cerdd yn gyfryngwr sy'n gweithio gyda phob rhanddeiliad i ddatgloi potensial yr ecosystem cerdd a hyrwyddo ei manteision cymdeithasol ac economaidd. Mae bwch rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn Ecosystem Cerdd Caerdydd. Yn ogystal, mae'r sîn ei hun yn eithaf ynysig a thameidiog, heb fawr o gyfathrebu rhwng gwahanol randdeiliaid. Byddai grym a gyriant canolog, gwrthrychol ar ffurf Swyddog Cerdd yn tynnu pobl at ei gilydd.

Dylid lleoli'r swyddog yn yr adrannau Datblygu Economaidd a Diwylliant a dylai weithio'n agos gyda swyddogion ac adrannau perthnasol eraill (Trafnidiaeth, Seilwaith, Cynllunio, Trwyddedu ayb), gan gynnwys Bwrdd Cerdd Caerdydd a'r sefydliadau cerdd eraill yng Nghaerdydd.

Nodau:

- Arwain y ddeialog rhwng diwydiant a llunwyr polisi
- Cysylltu gwahanol sectorau (o fewn llywodraeth a'r economi gyffredinol) â cherddoriaeth
- Dod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y sector cerdd wrth annerch sefydliadau cyhoeddus
- Rhoi mynediad haws i'r sector cerdd at adnoddau a chefnogaeth gan y cyngor a chyrrff eraill, a chanllawiau ar sut i lywio prosesau biwrocraidd y cyngor
- Goruchwylio ac atgyfnerthu gweithrediad strategaeth gerdd
- Sicrhau bod cerddoriaeth yn cael ei hintegreiddio i gymaint o bolisiau dinas a strategaethau datblygu â phosibl

- Eirioli dros, ac adeiladu perthynas a all fod o fudd i'r ecosystem
- Ymgymryd ag ymchwil wedi'i dargedu i ddeall ymddygiad cynulleidfaoedd yng Nghaerdydd yn well
- Alinio diwydiant cerdd Caerdydd â diwydiannau creadigol ac adloniant eraill - ffilm, darlledu, theatr, ffasiwn, bwyd, twristiaeth a thu draw - fel y gall pawb elwa ar ei gilydd a chydweithio i hyrwyddo Caerdydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

1.1 Penodi Swyddog Cerdd

Fel y nodwyd uchod, penodi Swyddog Cerdd yw prif argymhelliad yr adroddiad hwn. Mae'r rôl ei hun yn gofyn am brofiad o'r diwydiant cerdd a'r sectorau trefol, yn ogystal â gwybodaeth ddofn o sîn gerddoriaeth Caerdydd a phrofiad ehangach. Bydd y rôl angen gwybodaeth marchnata a rheoli helaeth, a'r gallu i ddod â phobl at ei gilydd a chreu agwedd ragweithiol.

Dyma rai o'r mentrau y gallai Swyddfa Gerdd Caerdydd eu harwain:

- Datblygu micro-safle dwyieithog fel 'hyb gwybodaeth diwydiant cerdd' Caerdydd, gan gynnwys tudalen 'am', gwybodaeth gyswllt, Cwestiynau Cyffredin, dolenni i adnoddau a sefydliadau perthnasol y cyngor neu allanol a chysylltiadau uniongyrchol i wneud cais a gwirio statws trwyddedau a chyngor biwrocraatiaeth gysylltiedig.
- Gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth Bwrdd Cerdd Caerdydd - trefnu'r cyfarfodydd a'r is-grwpiau, dosbarthu deunyddiau perthnasol, cymryd cofnodion, ayb.
- Sicrhau bod cerdd yn cael ei hintegreiddio i bob adran o'r cyngor, trwy gyfarfodydd ymgynghorol misol, diweddariadau, ayb.
- Cynorthwyo / arwain bidiau ar gyfer digwyddiadau cerdd a cherddoriaeth ar raddfa fawr fel BBC Amplify, Diwrnod Lleoliadau Cerdd, Confensiwn Dinaosedd Cerdd. Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid fel Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru, lle bo'n berthnasol.

- Sefydlu protocol data i lywio strategaeth datblygu cynulleidfaoedd pob-genre ar gyfer Caerdydd, ar y cyd â'r project Cypolwg Cynulleidfa presennol a arweinir gan Gyngor Celfyddydau Cymru
- Archwilio statws 'Dinas Gerdd' UNESCO
- Hyrwyddo manau cerdd diogel yn unol â mentrau eraill ledled y DU
- Creu a chynnal Cyfeiriadur Cerdd Caerdydd
- Arwain ar ddatblygu Parthau Llwytho Parcio i Gerddorion
- Cynnig gwasanaeth cefnogi 'Cerdd mewn Perygl' i leoliadau sy'n cael trafferthion
- Sefydlu cronfa o oriau gydag arbenigwyr i gydlynu apwyntiadau un-i-un
- Cydlynu gweithdai a darlithoedd
- Rhaglennu rhaglenni cymdeithasol cerddorol chwarterol i gysylltu gweithwyr proffesiynol y diwydiant cerdd
- Gweithio gydag artistiaid yn y DU ac yn rhyngwladol a sefydliadau datblygiad proffesiynol i agor swyddfa yng Nghaerdydd
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Byddai'r Swyddfa Gerdd yn gweithio'n agos â Stryd Womanby, i barhau i hyrwyddo'r stryd fel cyrchfan gerdd ac fel arwydd o uchelgais Caerdydd fel Dinas Gerdd. Gallai Partneriaeth Preifat Cyhoeddus (PPP) helpu i ddarparu adnoddau i'r Swyddfa Gerdd, a gall helpu i gyflenwi rhai o'r camau a'r projectau a awgrymir.

MODEL PARTNERIAETH CYNGOR CERDD DINAS GERDD NASHVILLE

Mae Cyngor Cerdd y Ddinas Dinas Gerdd (MC²) yn gymdeithas o gyfarwyddwyr busnes sydd â'r nod o ddatblygu strategaethau i gynyddu ymwybyddiaeth a datblygiad enw da Nashville fel Dinas Gerdd. Ffurfiwyd y swyddfa hon yn 2009 fel partneriaeth rhwng Swyddfa'r Maer, Siambr Fasnach Nashville a Chonfensiwn ac Ymwelwyr Nashville Corp. Ar y dechrau, cyflawnodd ffurfio'r Cyngor Cerdd y gamp symbolaidd o bontio'r bwlch rhwng Music Row a'r llys. Cyn y swyddfa hon, nid oedd y diwydiant cerdd a llywodraeth leol yn gwybod sut i ryngweithio â'i gilydd.

Mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar ehangu busnesau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth neu hwyluso eu hadleoli i Nashville. Hefyd, mae'r swyddfa yn gweithio i ddod â sioeau cerdd teledu a sioeau gwobrau cerdd-gysylltiedig ar draws pob genre i'r ddinas, ac mae'n recriwtio digwyddiadau a chonfensiynau sy'n gysylltiedig â cherdd i Nashville. Ers ei sefydlu, mae'r corff hwn o wirfoddolwyr wedi helpu mewn llwyddiannau datblygiad economaidd i ddenu swyddi sy'n gysylltiedig ag adloniant i'r ddinas, gan gynnwys ehangiad Sony / ATV i ehangu i ganol tref Nashville ac ehangiad Eventbrite i Nashville.²⁹

²⁹Llywodraeth Fetropolitan Nashville a Davidson County, Tennessee (2018)

Y CAMAU NESAF:

1.2 Adeiladu a chynnal cyfeiriadur busnes o'r ecosystem cerdd leol

Awgryma tystiolaeth fod Cyfeiriadur Busnesau Cerdd Cymru y cyn-Sefydliad Cerddoriaeth Cymru yn adnodd gwerthfawr ymhlith cymuned fusnes cerdd Caerdydd. Dylai Swyddfa Gerdd Caerdydd ddatblygu cyfeiriadur o randdeiliaid ecosystem cerdd y ddinas. Mae angen i'r gronfa ddata ffynhonnell-agored hon gynnwys gwybodaeth gyswilt, a dylid ei hyrwyddo a'i diweddarau'n rheolaidd fel ei bod yn cynnwys cofnodion newydd ac yn adlewyrchu newidiadau o fewn y sector. Dylai hefyd gynnwys map seilwaith diwylliannol sy'n amlinellu manylebau, capasiti a galluoedd rhaglennu lleoliadau yng Nghaerdydd, fel y gall rhanddeiliaid y tu allan i'r ddinas ddod o hyd i wybodaeth berthnasol ac archebu tocynnau yn hawdd.

Y man cychwyn ddylai fod dull strwythuredig a chronfa ddata ddigidol unedig. Bydd hyn yn caniatáu cyfathrebu tryloyw, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wahanol randdeiliaid am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r Swyddfa Gerdd, diweddariadau polisi, cyfleoedd ariannu newydd, digwyddiadau rhwydweithio, gweithdai, ayb., a gwella cyfathrebu o fewn y sector.



Reuel Elijah, Sŵn. Llun gan Horizons/Gorwelion (BBC Wales a Chyngor Celfyddydau Cymru)

CYFARWYDDIADUR CERDD SA

Mae gan wefan SA³⁰ gronfa ddata ar-lein un stop o artistiaid, pobl broffesiynol yn y busnes cerdd, a lleoliadau yn Ne Awstralia. Mae'r broses restru am ddim ac yn syml, gyda defnyddwyr yn darparu eu manylion ar-lein a rheolwr marchnata Music SA yn goruchwyllo'r broses. Hefyd, caiff pobl broffesiynol a restrir fynediad at ofod golygyddol arbennig a disgowntiau hyrwyddol.



CAMAU GWEITHREDU PELLACH:

1.3 Datblygu llwyfan i gyfathrebu rhwng preswylwyr lleol a digwyddiadau cerdd

Dylai'r ddinas, drwy'r Swyddfa Gerdd, weithredu fel cyfryngwr rhagweithiol, cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol i breswylwyr a pherchnogion lleoliadau/ hyrwyddwyr digwyddiadau mewn ardaloedd gweithgaredd uchel i'w galluogi i gydweithio ar atebion synhwyrol a hysbysu preswylwyr am ddigwyddiadau a gymeradwyir gan y ddinas. Dylai gwefan neu blatfform ar-lein roi gwybod i bobl am ddigwyddiadau awyr agored sy'n digwydd yn y ddinas a rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw gyrffiw, cyfyngiadau sŵn a chynnig cyfle i roi adborth.

Yn y tymor hir, gellir datblygu'r platfform hwn i roi cyfle i breswylwyr gofrestru cefnogaeth neu gwynion, awtomeiddio'r broses a rhoi ystadegau amser real i'r ddinas. Dylai'r llwyfan ysgogi cydweithrediadau â strategaethau a rhaglenni presennol yng Nghaerdydd, fel Marsialiaid Nos FOR Cardiff.

³⁰Music SA (2018)

'DULL GŴYL' Y REMBRANDTPLEIN, AMSTERDAM

Sgwâr llawn bariau yw'r Rembrandtplein yng nghanol Amsterdam. Gweithiodd swyddfa'r maer gyda'r heddlu a'r diwydiant lletygarwch yn y sgwâr i sefydlu project peilot 3 blynedd i leihau trais a sŵn nosweithiol³¹. Fel rhan o gyfres o 'arbrofion' yn yr ardal, mae cyfleusterau ar y sgwâr wedi eu haddasu, gweithredwyd rheolau newydd o ran ymddygiad cwsmeriaid, a phenodwyd 'gwesteion sgwâr' dinesig o amgylch yr hybiau trafndiaeth yn ardaloedd prysur bywyd nos. Mae Dinas Amsterdam hefyd wedi datblygu ap sy'n caniatáu i bobl adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol i swyddogion cymunedol cyfagos.³²

Y BWRDD CERDD

ARGYMHELLIAD 2: GALLUOGI RHANDDEILIAID CERDD I GYNRYCHIOLI A HYRWYDDO CAERDYDD FEL DINAS SY'N DDA I GERDDORIAETH AR LEFEL LEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd, Swyddfa Diwylliant / Adran Datblygu Economaidd

Cefndir: Mae Creu Cymru yn bodoli i ddod â chanolfannau celfyddydau a theatrau at ei gilydd yng Nghymru, ond nid oes rhwydwaith na fforwm presennol lle mae lleoliadau cerdd neu sefydliadau proffesiynol cerdd yn cyfarfod yng Nghaerdydd (nac yng Nghymru). Dangosodd yr adborth o Fyrddau Crwn Cerdd yng Nghaerdydd, a gwaith a wnaed gan Wythnos Lleoliadau Annibynnol yng Nghymru (a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2018 a 2019), pa mor werthfawr oedd y cyfleoedd hwylusedig i'r lleoliadau hyn gyfarfod i drafod eu gwaith, tueddiadau, materion a syniadau.

Nodau:

- Creu corff cynrychioliadol blaenllaw a ffurfir gan ystod eang o bobl sydd â gallu a dylanwad arweinyddiaeth profedig yn yr ecosystem cerdd (h.y. y sector cerdd a sectorau cyfagos megis economeg, gorfodi'r gyfraith, cynllunio, addysg, iechyd, yr amgylchedd, twristiaeth, ayb.) i ofalu am faterion cerddoriaeth yn y ddinas.
- Bod â bwrdd ymgynghorol i helpu i sefydlu, hyrwyddo a chynnal y ddinas fel dinas sy'n gyfeillgar i gerdd.

³¹ Nacht Burgemeester Amsterdam (2018)

³² Clift (2016)

- Cysylltu â dinasoedd eraill i rannu arfer gorau, ac i gyfnewid gwybodaeth a thalentau
- Eirioli dros gynaliadwyedd y sector cerdd yn y ddinas, gan gynnwys fforddiadwyedd mannau byw a gweithio
- Cefnogi datblygiad gweithgaredd cerdd yn y ddinas
- Cydweithio â Heddlu De Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal ecosystem cerdd ddiogel
- Lobio Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gefnogaeth i'r sector cerdd (e.e. grantiau artistiaid a sefydliadau, cymorth busnes, cynlluniau treth ar gyfer cerddoriaeth boblogaidd).

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

2.1 Sefydlu Bwrdd Cerdd

Mae'r Bwrdd Cerdd yn gweithredu fel llwyfan sy'n galluogi gwell cyfathrebu rhwng corff llywodraethu'r ddinas a'i ecosystem cerdd. Yn aml, nid oes gan y ddau fyd hyn sianeli cyfathrebu agored ac maent yn siarad ieithoedd gwahanol, felly pan fyddant yn dod i gysylltiad â'i gilydd, mae'n aml mewn amgylchiadau anodd a chyhuddgar.

Mae'r Bwrdd Cerdd yn galluogi pobl o'r sectorau hyn a sectorau eraill, i ddod ynghyd mewn ffordd gyfeillgar, fwy cynhwysol, gan weithio tuag at nodau a rennir. Oherwydd bod cyfathrebu'n fwy agored, mae'r cyfarfodydd yn gweithredu fel byrddau seinio da ac yn rhoi cyfle i glywed am faterion cyn iddynt ddod yn broblem.

Wedi dweud hyn, bydd Bwrdd Cerdd Caerdydd angen rhaglen waith y gellir ei hamddiffyn yn gyhoeddus. Bydd hefyd yn ddefnyddiol nodi rhai 'enillion hawdd' cynnar a fydd yn rhoi momentwm a chyffro ynglŷn â phosibiliadau'r bwrdd. Bu Bwrdd Cerdd Llundain yn llwyddiannus diolch i fuddsoddiad cynnar gan y cyngor, a set glir o amcanion a gyhoeddwyd ar-lein.

- Bydd Bwrdd Cerdd Caerdydd angen rhaglen waith
- Sefydlu bwrdd cychwynnol o 15-18 o aelodau
- Mynnu ar raniad rhywedd 50/50, 15% o gynrychiolaeth BAME a siaradwyr Cymraeg
- Cynnal y cyfarfod cyntaf yn Neuadd y Ddinas, ond cynnal y rhai dilynol mewn gwahanol leoliadau o amgylch y ddinas
- Argymhellir aelodaeth 12 mis i ddechrau gyda rhai estyniadau deiliadaeth i sicrhau parhad busnes.

Mae'n rhaid i ddarpar aelodau gytuno i'r Cylch Gorchwyl a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn cael eu derbyn ar y bwrdd. Yn dibynnu ar eu maes arbenigedd,

gellir gofyn iddynt gyflawni camau gweithredu o fewn terfynau amser drwy gydol eu haelodaeth. Mae'n rhaid iddynt hefyd arwyddo cytundeb aelodaeth sy'n amlinellu eu hymrwymiad. Mae'r trefniant yn cynnwys cadeirydd, ysgrifenyddiaeth, a'r aelodau. Dylid sefydlu gweithgorau gwahanol i ganolbwyntio ar bynciau perthnasol. Gall y gweithgorau fod yn rhai dros dro i ddiwallu anghenion penodol. Y Swyddfa Gerdd fyddai'n cydlynu'r bwrdd. Gellir gwahodd gwesteion ac arsylwyr ar sail cyfarfod unigol, naill ai i gyflwyno ar bwnc (gwestai), neu i eistedd mewn cyfarfod (arsylwr).

BWRDD CERDD LLUNDAIN

Crëwyd Bwrdd Cerdd Llundain³³ mewn ymateb i'r angen i ddatblygu lleoliadau llawr gwlad, a gweithredu'r argymhellion a nodwyd yng Nghynllun Achub Lleoliadau Cerdd Llawn Gwlad Llundain 2015 Maer Llundain. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, a disgwylir iddo gefnogi a chynghori ar ymchwil a chanllawiau, i rwydweithio, mynychu digwyddiadau, cynnal cyfarfodydd bwrdd crwn a hyrwyddo cerddoriaeth fel rhan o ymgyrch i gynyddu twristiaeth yn y ddinas. Wedi'i ffurfio o 21 o aelodau, mae gan y bwrdd arbenigol strategaeth glir ac mae wedi gosod nodau i weithio tuag atynt er budd y sîn gerddoriaeth llawr gwlad leol.

Y CAMAU NESAF:

2.2 Creu Is-grŵp Sefydliadau Proffesiynol Bwrdd Cerdd Caerdydd

Byddai Is-grŵp Bwrdd Cerdd Caerdydd yn bodoli i ddwyn ynghyd arbenigedd ar ran sefydliadau cerdd a hyrwyddwyr proffesiynol, i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a fyddai'n cefnogi gwaith y Bwrdd Cerdd. Ymhen amser, gallai'r grŵp ddewis ffurfioli fel ei gonsortiw ei hun, fel y gall arwain a chyflenwi projectau sy'n benodol i sefydliadau proffesiynol, tra'n darparu arbenigedd a chefnogaeth i Fwrdd Cerdd Caerdydd.

2.3 Creu Is-grŵp Lleoliadau Bwrdd Cerdd Caerdydd

Byddai is-grŵp Lleoliadau Bwrdd Cerdd Caerdydd yn bodoli i ddod â lleoliadau cerdd Caerdydd at ei gilydd i rwydweithio a rhannu gwybodaeth. Gall y grŵp hwn weithio i wneud y mwyaf o gyfleoedd a lleihau unrhyw effaith negyddol digwyddiadau stadiwm neu ddigwyddiadau cyngor. Gall y canlyniadau hyn fwydo'n uniongyrchol i Fwrdd Cerdd Caerdydd, ac i'r gwrthwyneb, felly dylid gosod cyfarfodydd bob hyn a hyn sy'n caniatáu amser i'r wybodaeth gael ei phrosesu. Yn union fel gyda'r Is-grŵp Sefydliadau Proffesiynol, efallai y bydd y grŵp yn dewis ffurfioli yn y pen draw fel ei gonsortiw ei hun, fel y gall arwain a chyflenwi projectau sy'n benodol i leoliadau.

³³Maer Llundain (2017)

O ran 2.2 a 2.3, awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd gennym mewn cyfarfodydd bwrdd crwn ac mewn ymgynghoriad faint yn union y mae pobl a sefydliadau eisiau ymgasglu mewn lleoliad o'r fath, ond nid oes system ar waith i gymryd yr awenau. Gallai rhai o ganlyniadau cadarnhaol y cyfarfodydd hyn gynnwys: Amserlennu ac osgoi gwrthdaro; cydweithio er mwyn cael mwy o effaith; rhannu blaenoriaethau neu ymgyrchoedd fel sefydliadau; llobio ar y cyd; datblygu cynulleidfa; a sicrhau mwy o adnoddau ac effeithlonrwydd.

CAMAU GWEITHREDU PELLACH:

2.4 Cryfhau a datblygu cydweithredu rhyng-ddinas pellach

Bydd ymuno â rhwydwaith Dinasoedd Cerdd presennol fel Dinasoedd Creadigol UNESCO neu Rwydwaith Dinasoedd Cerdd yn cryfhau ac yn ehangu manteision gweithredu strategaeth sy'n gyfeillgar i gerdd. Gellid hefyd ysgogi partneriaethau chwaer-ddinasoedd drwy gerdd i gryfhau'r cysylltiad diwylliannol rhwng Caerdydd a dinasoedd eraill.

Mae opsiynau ychwanegol ar gyfer cydweithio â dinasoedd cerdd presennol yn cynnwys datblygu 'Chwaeroliaeth Dinasoedd Cerdd' i rannu arferion gorau mewn polisi ac annog cyfnewid artistiaid (yn debyg i Gynghrair Dinasoedd Cerdd Austin-Toronto) a datblygu rhwydwaith cyfnewid diwydiant cerdd dan arweiniad dinas, fel Rhaglen Breswyl Rhwydwaith Dinasoedd Cerdd.

SICRHAU MANTEISION CYFLE GYDA CHWAER DDINASOEDD: STUTTGART A NANTES

Yr Almaen, Ffrainc a'r DU yw'r tair marchnad gerdd fwyaf yn Ewrop, a byddai ehangu'r cydweithio rhwng ein chwaer-ddinas yn yr Almaen, Stuttgart, a Nantes yn Ffrainc o fudd i'w hecosystemau cerddoriaeth.

Stuttgart

Mae gan Stuttgart sîn gerddoriaeth egniol ac mae'n gweithredu Swyddfa Gerdd: Popbüro Stuttgart, sefydliad dielw sy'n cefnogi artistiaid a busnesau yn y rhanbarth. Mae'n darparu offer stiwdio, yn helpu gyda bysiau teithiau, yn ymgynghori ar faterion diwydiant cerdd ac yn cysylltu y sîn yn Stuttgart ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn cefnogi bandiau gyda grantiau bach ar gyfer teithiau tramor.

Nantes

Nid yn unig yr oedd Nantes ymhlith y cyntaf yn Ffrainc i gael 'maer nos' ond hefyd mae ganddi hyb cerdd rhagorol. Wedi'i ariannu gan gynghrair o sefydliadau cyhoeddus a phreifat, mae Tremolino wedi ei wreiddio'n ddwfn yn y gymuned. Mae'n cael ei strwythuro fel 'campws cerdd' o fewn yr hyb creadigol a ariennir yn gyhoeddus, Les Fabriques

Laboratoire(s) Artistique(s)³⁴. Ystyrir Trempolino yn 'broject ar gyfer projectau' ac mae ei sefydliad yn cynnwys 29 o staff, 8 o athrawon cerdd arbenigol a 16 o aelodau ymgynghorol. Mae hefyd yn cysylltu tua 80 o weithwyr llawrydd i ddarparu gweithdai, ac yn darparu cyfleoedd dysgu ar gyfer dros 50 o interniaid a hyfforddeion ar yr un pryd.

Gwelir yr hyb cerdd fel cymuned llawr gwlad a chanolfan ymchwil, felly mae ei wasanaethau a rhaglennu artistig wedi eu hanelu at ffans cerddoriaeth, cerddorion a gweithwyr proffesiynol cerdd o bob oed a chefnidir. Mae angen Aelodaeth (€5 o ffi blyneddol) i archebu cyfleusterau ymarfer a recordio, tra bod y gofod arddangosfa a'r gofod perfformio ar gael i unrhyw sefydliad. Darperir cymorth ariannol os oes ei angen ar gyfer cyflwyno cynnwys yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir drwy'r Swyddfa Gerddoriaeth yn dod o ranbarth y Pays de la Loire, gan gynnwys y grantiau sydd ar gael, cefnogaeth ariannol a rhwydweithiau dosbarthu.

Gan fod Caerdydd wedi ei gefeillio â Stuttgart a Nantes, gallai'r partneriaethau presennol gael eu cryfhau drwy gyfnewid artistiaid a gwyliau sy'n cydweithio drwy archebu bandiau ei gilydd. Gallai'r dinasoedd ddatblygu gyfnodau preswyl i artistiaid yn ogystal â rhaglenni cyfnewid busnes.

RHWYDWAITH DINASOEDD CERDD³⁵

Rhwydwaith cyhoeddus / preifat yw'r Rhwydwaith Dinasoedd Cerdd sy'n ymroddedig i wella cyfathrebu a chydweithredu, rhannu ymchwil a gwybodaeth, archwilio polisi ac eiriolaeth, a rhwydweithio. Fe'i defnyddir gan wneuthurwyr polisi, arweinwyr dinasoedd a phob un o randdeiliaid eraill Dinasoedd Cerdd. Mae ganddo aelodaeth strwythuredig, haenog. Mae'r haen uchaf, 'Aelodau Dinas Rheolaidd', yn costio tua EUR 5000 i ymuno â hi, ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys dinasoedd Aarhus, Berlin, Hamburg, Groningen, Nantes a Sydney.

Yn ogystal â'i wasanaethau aelodaeth rheolaidd, mae'r Rhwydwaith Dinasoedd Cerdd hefyd yn cynnig:

- Rhaglen Breswyl
- Cyflwyniadau ac arddangosiadau mewn digwyddiadau diwydiant
- Rhaglen datblygu cynulleidfa
- Mynegai Menywod mewn Cerddoriaeth

³⁴Les Fabriques (2018)

³⁵City of Austin (2017)

LERPWL – DINAS GERDD UNESCO

Etifeddiaeth gerdd Lerpwl yw un o'i hasedau twristaidd mwyaf, a gwariodd ei thwrystiaid cerdd £135 miliwn (yn uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn 2016³⁶. Dynodwyd y ddinas yn Ddinas Gerdd UNESCO yn 2015, sy'n caniatáu iddi ddefnyddio creadigrwydd a cherddoriaeth i greu ymdeimlad o le, tyfu'r economi ymwelwyr, ac ail-leoli delwedd y ddinas, ymhlith nodau eraill. Am y rhesymau hyn, mae gan gerdd rôl flaenllaw yn ei Strategaeth Economi Ymwelwyr³⁷, ac mae gan dwristiaeth brif bresenoldeb yn ei Strategaeth Dinas Gerdd³⁸, er nad oes yr un ohonynt yn cynnwys argymhellion penodol i fanteisio ar y naill ased na'r llall.

Defnyddia Lerpwl ei hetifeddiaeth Beatles gydag arddangosfeydd fel The Beatles Story, The Beatles Magical Mystery Tour a theithiau o rai o gartrefi plentyndod yr artistiaid. Mae yna hefyd westy â thema Beatles, Hard Days Night Hotel, sy'n cynnwys amrywiaeth o waith celf ac addurniadau Beatles. Yn ogystal, lanswyd Profiad Cerddoriaeth Prydain ym mis Mawrth 2017, yn dathlu'r gorau o dreftadaeth cerdd Prydain. Mae'n cynnwys amrywiaeth o bethau cofiadwy ac arddangosion o'r Spice Girls i Freddie Mercury, yn ogystal â rhannau rhyngweithiol fel offerynnau y gellir eu chwarae.

Mae gwefan swyddogol Lerpwl, visitliverpool.com³⁹, yn rhestru cerdd ar wahân i Gelf a Diwylliant o dan "Pethau i'w Gwneud", sy'n ddangosydd clir o bwysigrwydd cerdd i'w sector twristiaeth. Mae'r safle'n amlygu'r Neuadd Ffilharmonig. Rhestra'r wefan gerdd gyffredinol a gwefan y Neuadd Ffilharmonig atyniadau a digwyddiadau cerdd, gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol, a phrisiau a dyddiadau pan fo angen (a dolenni i brynu tocynnau). Mae'r wefan hefyd yn cynnig peiriant chwilio, "Beth sydd Ymlaen" sy'n amlinellu pethau i'w gwneud yn Lerpwl a gellir ei hidlo yn ôl math, gan gynnwys cerdd fel hidlydd.

Mae Dinas Lerpwl, trwy Ddiwylliant Lerpwl, yn trefnu digwyddiadau fel Gŵyl Gerdd Ryngwladol Lerpwl a Gŵyl Afon Mersi. Mae gwefan Diwylliant Lerpwl⁴⁰ hefyd yn cynnig trosolwg eang o ddigwyddiadau, a gellir eu hidlo yn ôl math. Ar y lefel genedlaethol, mae Heritage Great Britain yn cyfrannu at frandio a thwrystiaeth y ddinas drwy hyrwyddo a noddi digwyddiadau, yn ogystal â thrwy ymgyrchoedd marchnata.

³⁶UK Music (2017) *Wish You Were Here 2017: Contribution of Live Music to the UK Economy*, t. 39. https://www.ukmusic.org/assets/general/Report_WYWH_17.pdf

³⁷Liverpool City Region Local Enterprise Partnership (2015) "Visitor Economy. Strategy and Destination Management Plan" ar-lein yn <https://www.liverpoollep.org/wp-content/uploads/2015/06/wpilcr-dmp-2015-2025.pdf> cyrchwyd 11-7-2018

³⁸BOP Consulting (2018) "Developing a Liverpool City of Music Strategy" ar-lein yn <http://bop.co.uk/assets/others/Developing-Liverpool-Music-strategy-February-2018-1.pdf> cyrchwyd 11-7-2018

³⁹Visit Liverpool [Gwefan] ar-lein yn <https://www.visitliverpool.com/>

⁴⁰Culture Liverpool [Gwefan] ar-lein yn <https://www.cultureliverpool.co.uk/>

TRWYDDEDAU A PHOLISIŶAU SY'N DDA I GERDDORIAETH

ARGYMHELLIAD 3: ADOLYGU TREFNIADAU TRWYDDEDU PRESENNOL I HYRWYDDO 'DINAS SY'N DDA I GERDDORIAETH'.

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd (Swyddog Cerdd/ Cadeirydd y Bwrdd) / Adran Datblygu Economaidd

Cefndir: Mae Polisi Trwyddedu Cyngor Caerdydd yn rhedeg tan 2021. Cafodd ei greu drwy ymgynghori â llawer o bartneriaid, er nad oedd y sector cerdd yn rhan o'r sgwrs. Nid oes fframwaith rheoleiddio penodol ar gyfer trwyddedu a gorfodi eiddo yng Nghaerdydd, fel sy'n wir am leoliadau cerddoriaeth a chlybiau nos. Mae'r broses fiwrocraidaidd ddwys o ran trwyddedau adeiladau a digwyddiadau yn gwaethgu'r ansicrwydd a grëir i berchnogion a hyrwyddwyr gan y diffyg hwn. Ar ben hynny, mae'r categori adeiladau lleoliadau cerdd yn amhenodol mewn llawer o fframweithiau rheoleiddio, fel y Polisi Effaith Gronnol. Ceir canfyddiad ymhlith perchnogion a hyrwyddwyr lleoliadau bod rhai genres o gerddoriaeth/digwyddiadau yn cael eu plismona yn fwy llym nag eraill (e.e. safonau diogelwch uwch, peidio â derbyn cymeradwyaeth trwydded digwyddiadau, ayb).

Nodau:

- Hwyluso a safoni'r broses a ddefnyddir i ofyn am y trwyddedau a'r hawlennau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau cerdd fel digwyddiadau awyr agored, agor lleoliad neu ddechrau busnes cerdd
- Cynyddu amrywiaeth yn yr ecosystem cerdd
- Datblygu atebion a phartneriaethau synhwyrol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig, gan gynnwys lleoliadau cerdd
- Cefnogi mynediad i bob oed i gyngherddau.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

3.1 Symleiddio'r broses drwyddedu ar gyfer gweithgareddau cerdd

Mae sefydlu Swyddfa Gerdd yn un ffordd o wneud y prosesau hyn yn haws, ond bydd datblygu canllaw neu ap ar-lein sy'n symleiddio'r gofynion biwrocraidaidd yn gwneud y broses yn gliriach ac felly'n cefnogi gwaith y Swyddfa Gerdd. Drwy wneud y prosesau yn llai beichus, bydd cynhyrchwyr a hyrwyddwyr cerddoriaeth yn cael eu hannog i wneud mwy o weithgareddau cerddoriaeth.

3.2 Ailasesu gofynion diogelwch ar gyfer lleoliadau a digwyddiadau

Dylai'r ddinas, yn ddelfrydol drwy'r Swyddfa Gerdd a'r Bwrdd Cerdd, weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid - o'r llywodraeth i berchnogion lleoliadau, yr heddlu, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, trafndiaeth a seilwaith - i nodi sut i liniaru a safoni gofynion diogelwch ar glybiau a digwyddiadau cerddoriaeth fyw, lle bo'n briodol. Dylai'r ailasesiad hwn ystyried gostyngiadau ar gyfer lleoliadau cerdd sydd â record dda o ran cydymffurfio diogelwch (h.y. yn ôl y System Goleuadau Traffig a mesurau plismona perthnasol eraill), yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu llethu gan gostau'r gofynion diogelwch a osodir ar bob sefydliad trwyddedig. I ddechrau, gellid mynd ati i edrych ar yr ailasesiad hwn fesul achos gyda hyrwyddwyr a lleoliadau, i asesu atebion posibl ar gyfer rheoliadau fel y terfynau capasiti ychwanegol yn dibynnu ar allanfeydd tân digonol, opsiynau hyfforddi staff, larymau mwg, gofynion staff diogelwch, TCC, ayb.

Byddai fforwm rhanddeiliaid cerddoriaeth fyw a diogelwch (h.y. Fforwm Hyrwyddwyr a Heddlu Caerdydd) yn hyrwyddo arfer da a chyfathrebu aml wrth weithredu a gwerthuso'r argymhelliad hwn, fel y gellir trafod yr heriau sy'n wynebu hyrwyddwyr a'r heddlu yn agored mewn amgylchedd diogel, ac ymdrin â nhw mewn ffordd ragweithiol. Er enghraifft, roedd gan Fforwm Hyrwyddwyr Llundain a gefnogir gan Heddlu Metropolitan a Dinas⁴¹ rôl allweddol yn y ffaith bod Heddlu'r Met wedi hepgor Ffurflen Asesu Risg Digwyddiad Hyrwyddo 696⁴², sef ffurflen a fwriadwyd i sicrhau dull cydweithredol o reoli eiddo trwyddedig ond a oedd, yn ymarferol, yn targedu cerddoriaeth grime, garej a R'n'B yn annheg⁴³.

Yn y tymor hir, dylai Caerdydd ddatblygu canllaw clir yn amlinellu cyfrifoldebau trwyddedu a diogelwch lleoliadau cerdd yn arbennig, yn debyg i achos y 'Matrics Amodau Trwydded Cerddoriaeth Fyw' a eglurir isod.

MATRICES AMODAU TRWYDDEDU CERDDORIAETH FYW, VICTORIA (AWSTRALIA)

Daethpwyd i gytundeb ynghylch trwyddedau alcohol ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth fyw ar 6 Hydref, 2010 rhwng cynrychiolwyr y diwydiant cerddoriaeth fyw, Llywodraeth Victoria a Comisiwn Victoria ar gyfer Rheoliadau Hapchwarae a Gwirodydd (VCGLR)⁴⁴. Cytunodd y partion dan sylw "[nad yw] cerddoriaeth fyw yn achosi trais", ac ymrwymwyd i weithredu'r egwyddor Cyfrwng Newid yn 2011 ac adolygu'r cyfyngiadau a osodir ar berfformiad cerddoriaeth fyw gan reoliadau trwyddedu ac alcohol presennol. Roedd y mesurau eraill a weithredwyd yn cynnwys desg gymorth gyda swyddogion trwyddedu pwrpasol gynorthwyo trwyddedigion sy'n darparu cerddoriaeth fyw i lywio'r system trwyddedu alcohol ac, ers 2013,

⁴¹ https://www.facebook.com/digwyddiadau/404142732962526/?active_tab=about

⁴² London Metropolitan Police (n.d.) "Form 696". Ar-lein yn <http://democracy.brent.gov.uk/documents/s28414/TEN%20696%20new%20form%20WITH%20696A.pdf>

⁴³ Maer Llundain (2017) "Mayor orders review of Form 696 for music digwyddiadau in the capital". Ar-lein yn <https://www.london.gov.uk/press-releases/mayoral/mayor-orders-review-of-form-696>

⁴⁴ State Government of Victoria (2010)

Matrics Amodau Trwyddedu Cerddoriaeth Fyw (y Matrics).

Gall perchnogion lleoliad cerddoriaeth fyw wneud cais i ddileu'r gofyniad am reolwyr tyrfaoedd a TCC yn rhad ac am ddim, wedi'i asesu gan y Matrics, sy'n gosod amodau diogelwch trwydded safonol. Dylai lleoliadau sy'n darparu cerddoriaeth fyw ac yn masnachu ar ôl 1am gyflwyno cynllun rheoli i VCGLR yn cydymffurfio â'u canllawiau, a ddarperir wedyn i Heddlu Victoria am eu sylwadau. Mae'r cynllun rheoli yn ystyried amodau amrywiol, yn dibynnu ar ganiatâd cynllunio'r lleoliad, oriau masnachu, capasiti a hanes cydymffurfio.⁴⁵

3.3 Gwella mynediad i ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i gynulleidfa oedd dan oed

Un o'r meysydd allweddol y dylid ei ailasesu yw mynediad dan 18 oed i leoliadau trwyddedig tra bod perfformiad cerddoriaeth fyw (acwstig neu wedi'i chwyddo / electronig) yn digwydd. Oherwydd cyfyngiadau trwyddedu alcohol, ar hyn o bryd mae'n anodd cynnal gigs dan oed mewn lleoliadau cerdd traddodiadol yng Nghaerdydd. Gellid defnyddio manau eraill (e.e. eglwysi, neuaddau, ysgolion) ar gyfer cyngherddau i bob oed gyda llai o gyfyngiadau a materion trwyddedu. Mae'r manau hyn yn darparu amgylchedd diogel wedi'i reoli i bobl ifanc gael profiad o gerddoriaeth fyw.

MYNEDIAD I BAWB I LEOLIADAU CERDD AC ADLONANT YN CATALUNYA⁴⁶

O dan fframwaith rheoleiddio Catalunya, perchnogion eiddo trwyddedig sy'n gyfrifol am benderfynu a ganiateir i bobl o dan 18 oed (yr oedran cyfreithiol i yfed alcohol) ddod i mewn i'w lleoliadau. Mae'r polisi presennol yn caniatáu i bobl 16 oed a hŷn fod mewn adeiladau sydd wedi'u dosbarthu fel clybiau nos, manau adloniant, neuaddau dawn, lleoliadau cerdd a bariau cerdd cyn belled â bod gweithgareddau cerddoriaeth fyw yn digwydd. Rhaid cael oedolyn i oruchwylio pobl ifanc dan 16 oed a rhaid iddynt adael yr eiddo ar ôl y sioe. Mae gwneud cais am ID ar gyfer prawf oedran cyn mynd i mewn i'r lleoliad neu brynu alcohol yn cael ei orfodi'n llym.

Goruchwylir y rheoliad hwn gan wahanol fesurau yn dibynnu ar faint y safle (fesul metr sgwâr) ac mae'n cynnwys archwiliadau ar y safle gan yr awdurdodau, monitro TCC, gosod camerâu 'cyfrif pobl' a chamerau neu synwryddion is-goch. Er nad oes grant neu gefnogaeth benodol i leoliadau cerddoriaeth i dalu am gostau diogelwch, maent yn gymwys ar gyfer y grantiau cyffredinol sydd ar gael i fusnesau preifat a chymunedol a roddir gan yr awdurdodau rhanbarthol a lleol.

⁴⁵Victorian Commission for Gambling and Liquor Regulation (2013)

⁴⁶Departament d'Interior, Relacions Institucionals i Participació (2010)

3.4 Cyflwyno parthau llwytho i gerddorion ar gyfer lleoliadau yng nghanol y ddinas

Mae angen i fandiau barcio'n agos at y lleoliad y maent yn perfformio ynddo am gyfnod byr i lwytho a dadlwytho offer. Awgryma tystiolaeth o'n byrddau crwn bod cerddorion yn cael eu dirwyo'n eithaf rheolaidd ar hyn o bryd wrth iddynt geisio parcio'n ddigon agos i wneud y llwytho a'r dadlwytho hyn yn ddichonol. Achosa hyn boen ariannol, ac weithiau mae'n dileu'r elw bach a wnânt yn y lle cyntaf. Dylai lleoliadau allu cydlynu â'r cyngor i ddarparu parthau mynediad i gerddorion a thechnegwyr sydd angen llwytho offer i mewn ac allan o leoliadau. Bydd hyn yn galluogi cerddorion a lleoliadau yng nghanol y ddinas i ymdrin â materion llwytho ar ddiwrnodau gemau a diwrnodau digwyddiadau mawr yn Stadiwm y Principality, pan fo ffyrdd yn cael eu cau am oriau ar y tro.

PARTHOU LLWYTHO/DADLWYTHO I GERDDORION YN AUSTIN (UD)

Cydweithiodd y Swyddfa Gerdd yn Austin (ATX Music) ag Adran Drafnidiaeth Austin i ddarparu parthau llwytho / dadlwytho cerddorion ar gyfer perfformwyr mewn digwyddiadau yng nghanol tref Austin. Gall perchnogion lleoliadau gael y parthau llwytho a dadlwytho gweithredol 30 munud hyn sy'n helpu i reoli traffig mewn ardaloedd canol tref sy'n llawn tagfeydd, tra'n cynyddu diogelwch i berfformwyr wrth iddynt lwytho eu hoffer cerddorol. Mae Lleoliadau yn gyfrifol am ofyn, talu am, a chadw golwg ar bob trwydded, sy'n costio US\$25, a hefyd mae'n cynnwys arwyddbost i ddyndi'r gofod.⁴⁷

3.5 Creu canllaw canu yn y stryd gwirfoddol i Gaerdydd sy'n adlewyrchu anghenion preswylwyr, busnesau a cherddorion

Mae canu ar y stryd ar dir cyhoeddus yn gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig. Dengys arolygon bod y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn credu bod canu ar y stryd yn ased i ofod cyhoeddus. Mae'n bywiogi'r amgylchedd, yn darparu adloniant ac yn gwneud yr ardal deimlo'n fwy diogel⁴⁸. Er mwyn meithrin sîn perfformiad stryd ffyniannus o ansawdd uchel, rydym yn argymhell gweithredu Cod Canu ar y Stryd synnwyr cyffredin a lunnir gan bob parti: perfformwyr, cyngor lleol, yr heddlu, preswylwyr a busnesau. Dylai hyn fod yn sail i greu perthynas gadarnhaol gytûn rhwng perfformwyr a'u hamgylchedd cyfagos. Nid yw canu ar y stryd yn niwsans cyffredinol y mae angen ei reoli. Ond mewn rhai achosion, efallai y ceir lleiafrif bach o berfformwyr sy'n methu â dilyn y cod. Gellir defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol a restrir isod i ymdrin â'r perfformwyr problemus hyn.

Nid ydym yn argymhell cyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) i ymdrin â lefelau gormodol o sŵn, niwsans, annifyrrwch, y risg o niwed neu anaf a achosir gan weithgareddau adloniant stryd i breswylwyr a busnesau. Gellir delio â'r materion hyn o dan

⁴⁷City of Austin (2017)

⁴⁸London Street Performance Research, University of Westminster (2016)

ddeddfwriaeth bresennol, fel yr eglurir isod. Mae cyflwyno PSPO yn ddiangen ac mae'n cyfleu neges negyddol iawn ynglŷn â pherfformiadau stryd. Ystyriodd rhai dinasoedd a bwrdeistrefi y llwybr trwyddedu neu PSPO (neu maent wedi ceisio ei wneud dros dro). Nid ydym eto wedi dod o hyd i unrhyw un sy'n meddwl mai dyma'r ateb i unrhyw broblemau'n ymwneud â chanu ar y stryd. Mae hyn oherwydd ei fod yn llawer rhy gostus a llafurus i weithredu a phlismaona cynllun a reoleiddir ar dir cyhoeddus. Yn ymarferol, mae perfformwyr heb drwydded yn dal i berfformio ar dir cyhoeddus hyd yn oed pan fo cynllun trwyddedig yn ei le, gan nad yw swyddogion yn bresennol i'w fonitro a'i orfodi bob amser.

Dangosodd ymchwil a wnaed gan Busk in London dros 4 blynedd, fod y rhan fwyaf o gwynion am ganu ar y stryd yn ymwneud â llond llaw bach o berfformwyr ac achwynwyr. Mae'n fwy effeithiol targedu cwynion unigol na chosbi'r gymuned canu ar y stryd yn ei chyfanrwydd. Dylid croesawu ac annog talent newydd i berfformio ar eich strydoedd. Bydd hyn yn gwanhau'r ychydig berfformwyr problemus a allai fodoli.

O'n profiad ni, nid yw cyflwyno trwyddedu yn gweithio. Mae'n anodd iawn, yn cymryd amser ac mae'n gostus i'w reoleiddio. Mewn ardaloedd fel Bwrdeistref Camden yn Llundain, a aeth i lawr y llwybr trwyddedu, mae canu ar y stryd di-drwydded yn parhau. Polisi a ffeirir yw annog perfformwyr i symud o gwmpas a chwarae mewn amrywiaeth o leoliadau. Os oes rhaid i'r rhai sy'n canu ar y stryd dalu gael trwyddedau lluosog i'w galluogi i chwarae mewn gwahanol ardaloedd, mae hyn yn dod yn ormod o drafferth, ac mae'n eu hannog i aros yn yr un lle.

Rydym yn argymhell creu tasglu canu ar y stryd sy'n llunio Cod Canu ar y Stryd ar y cyd, y mae pawb yn cytuno ag ef. Yn ogystal, dylai'r ddinas greu cymaint o fannau canu ar y stryd o ansawdd uchel o amgylch y ddinas â phosibl, fel nad oes gormod o alw mewn ardaloedd sy'n denu llawer o bobl.

CHWARAE YN UNOL Â'R RHEOLAU

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Os yw'ch ymddygiad yn afresymol a'ch bod yn cael effaith barhaus, niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, byddwch yn derbyn rhybudd llafar.
- Os ydych chi'n parhau, gallech gael llythyr rhybudd ffurfiol, wedi'i ddilyn gan Rybudd Gwarchod y Gymuned o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona (2014).
- Os ydych yn torri'r rhybudd hwn, gallech gael eich dirwyo neu gellir cymryd eich offer oddi arnoch.

Niwsans swm

- Os ydych chi'n defnyddio mwyhau sŵn/chwyddo sŵn ar ôl 9pm, gallech gael eich cyhuddo o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974.
- Os yw sŵn yn achosi effaith andwyol barhaus ar ansawdd bywyd unigolyn, gallai fod yn niwsans sŵn. Os mai chi sy'n achosi'r sŵn hwn a'ch bod yn derbyn cwynion efallai y cewch Rybudd Lleihau Sŵn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990). Os byddwch yn torri'r rhybudd hwn, gallech gael eich dirwyo neu gellir cymryd eich offer oddi arnoch. Achosion mwyaf cyffredin cwynion sŵn yw: sain ar lefel afresymol o uchel; chwarae'r un gerddoriaeth dro ar ôl tro; peidio â symud yn rheolaidd. ¹¹

Rhwystro'r briffordd

- Os ydych chi neu'ch cynulleidfa yn rhwystro llwybr pobl, efallai y byddwch yn achosi rhwystr a dywedir wrthyfych am stopio. Os ydych chi'n parhau, gallech gael eich cyhuddo o dan y Deddfau Priffyrdd (1980)

Bygwth neu wrthdaro

- Os bydd unrhyw un yn torri'r heddwch neu'n bygwth eraill bydd yr heddlu yn gweithredu. Gallai'r person gael ei gyhuddo o dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus (1986). ¹²

LERPWL: CANLLAW CANU AR Y STRYD⁴⁹

Yn 2015, cynhyrchwyd canllaw arfer gorau ar gyfer canu ar y stryd yn Lerpwl. Credir mai hwn yw'r canllaw cyntaf o'i fath yn y DU, fe'i datblygwyd gan Undeb y Cerddorion, yr Ymgyrch Keep Streets Live, yr Ardal Gwella Busnes a'r cyngor dinas. Ystyrir bod busnes yn rhan bwysig o fywyd diwylliannol y ddinas ac yn ased sy'n ychwanegu lliw a bywyd i fannau cyhoeddus.

Bwriadwyd y canllaw ar gyfer canu ar y stryd, preswylwyr, busnesau, yr heddlu a'r awdurdod lleol. Mae'n cynnwys rhai argymhellion allweddol i hyrwyddo a meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng defnyddwyr mannau cyhoeddus a rennir yn y ddinas. Mae'n canolbwyntio ar ddeialog, ystyriaeth a chyfaddawd ar bob ochr (Cyngor Dinas Lerpwl et al. 2015:2).

Nod y dull yw cynnwys y partïon perthnasol mewn deialog adeiladol i ddatrys unrhyw wrthdaro posibl yn gyfeillgar heb yr angen am gŵyn ffurfiol (Ibid.:3).

Dim ond fel dewis olaf pan fo perfformwyr wedi methu â dilyn y canllaw dro ar ôl tro y

⁴⁹Undeb y Cerddorion (2015a)

cymerir camau gorfodi. (Ibid.:7).

Mae'r canllaw hefyd yn rhoi cychwyn ar gyfarfodydd agored rheolaidd rhwng y rhai sy'n canu ar y stryd yn Lerpwl i drafod unrhyw faterion sy'n codi a chynnal perthnasoedd cadarnhaol. Mae hefyd yn bosibl i'r rhai sy'n canu ar y stryd gyfarfod yn rheolaidd â'r cyngor i gynnal deialog barhaus (Ibid.:13).

GRANTIAU A CHYLLID

ARGYMHELLIAD 4: CEFNOGI AMRYWIAETH YN ECOSYSTEM CERDD Y DDINAS MEWN MODD ECONOMAIDD

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd, Adran Ddiwylliant / Adran Datblygu Economaidd / Adran Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Llywodraeth Cymru

Cefndir: Yn ein harolwg, 'grantiau addysg cerdd' a dderbyniodd y raddfa isaf o'r blaenoriaethau a fyddai'n elwa o gefnogaeth llywodraeth, a dim ond nifer fach o'r ymatebwyr o bob categori oedd wedi gwneud cais blaenorol am grant. Ar yr un pryd, bydd cynaliadwyedd (neu ddiffyg cynaliadwyedd) yr arian Loteri sydd ar gael gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn effeithio ar linyddau ariannu'r diwydiant cerdd sydd o fudd i artistiaid a busnesau yng Nghaerdydd. Ariennir llawer o'r cyfleoedd datblygu gyrfa yng Nghaerdydd gan bartneriaethau rhwng CCC, y llywodraeth, sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cronfa Horizons/Launchpad BBC Wales, siapteri Cymru o Momentum and Beyond Borders y Sefydliad PRS, a sefydliadau Portffolio CCC, sydd yn gyffredinol yn cwmpasu amrywiaeth eang o genres cerddorol a meysydd gwaith. Mae'r rhain yn helpu i bontio'r bwlch hygyrchedd ar gyfer cyfleoedd yn y llwybrau i gerddoriaeth fasnachol yn gyffredinol, er eu bod hefyd yn cynnal y gefnogaeth angenrheidiol i'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer addysg ffurfiol (glasurol). Er bod Anthem (Cronfa Gerddoriaeth Cymru, cronfa waddol ar gyfer pobl ifanc a cherddoriaeth sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd) ar gam datblygu cynnar iawn, gallai ddarparu partneriaethau newydd, cymorth ariannol ac ymyriadau strategol i feithrin cyfleoedd i bobl ifanc drwy eu datblygiad cerddoriaeth. Mae'r gronfa ar y cam cyfalafu ac mae'n anelu at fod yn gwbl weithredol erbyn 2021.

Nodau:

- Hwrwyddo tryloywder a chodi ymwybyddiaeth o grantiau
- Gwneud y mwyaf o'r gefnogaeth sydd ar gael i amrywiaeth eang ecosystem cerdd y ddinas
- Cyfrannu at dwf a chynaliadwyedd y sectorau cerddoriaeth dielw ac er elw

- Annog hygyrchedd i'r ecosystem cerddoriaeth fyw ar gyfer grwpiau cynulleidfa heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl â galluedd amrywiol.
- Alinio cefnogaeth i'r ecosystem cerdd gyda Chronfa Waddol Cerddoriaeth Cymru (Cymru gyfan) yn y dyfodol i ehangu cyfleoedd ariannu yng Nghaerdydd. Bydd y gronfa'n gweithredu ar gyfer ystod oedran o 3-25.
- Pwyso a mesur cyfleoedd i gynyddu'r cyllid diwylliannol sydd ar gael ar lefel leol o gyfraniadau'r sector preifat.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

4.1 Galluogi fframwaith cydweithio ar gyfer partneriaethau ariannu

Mae toriadau yn y gyllideb i gelfyddydau a diwylliant a ariennir yn gyhoeddus yn aml yn arwain at broiectau nad ydynt yn cael eu hariannu'n ddigonol neu at ganslo projectau, a chapasiti staff cyfyngedig. Gellir goresgyn yr her ddatblygu fawr hon yn rhannol trwy ymuno â sefydliadau eraill i gefnogi'r sector lleol. Dylai Cyngor Caerdydd (yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gerdd) gefnogi ei ecosystem cerdd drwy adeiladu ar y berthynas â sefydliadau allweddol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymru Greadigol (unwaith y bo'n weithredol), partneriaethau presennol gyda Chaerdydd Creadigol, a sefydliadau preifat, drwy fframwaith cydweithredu ffurfiol sy'n creu perthynas fuddiol i ecosystem creadigol Cymru yn gyffredinol. Gellid sefydlu'r fframwaith cydweithredu fel cytundeb cydweithredu neu Bartneriaeth Preifat-Cyhoeddus. Dylai gynnwys cyfarfodydd a diweddariadau rheolaidd, a set o nodau hirdymor wedi'u diffinio'n glir a'u halinio. Yn y pen draw, bydd y fframwaith partneriaeth hwn yn arwain at gymhelliant cyllid ac adnoddau drwy gyfrwng y mecanweithiau allweddol a gynigir ymhellach yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys creu lleoedd diwylliannol a chyflwyno argymhellion o Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol y DU.⁵⁰

4.2 Cyfathrebu'r holl gyfleoedd ariannu presennol ar gyfer sector cerdd Caerdydd mewn modd clir a hygrych


Yn ddelfrydol, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys ar wefan y Swyddfa Gerdd, a byddai newyddion yn cael ei ledaenu drwy sianeli'r swyddfa a'i anfon at yr holl danysgrifwyr mewn da bryd. Mae angen adnabod yr holl ofynion, terfynau amser, penderfyniadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn glir ar y safle. Dylid diweddarau'r wefan yn rheolaidd, a rhaid cynnal prosesau ymgeisio ar yr un safle. Rhaid iddi fod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar y wefan (gan gynnwys rhif ffôn). Mae angen i gymhellion datrys fod yn dryloyw. Dylai'r platform hefyd gynnwys gwybodaeth ar sut i gael gafael ar gymorth a chyfleoedd eraill sydd ar gael dramor, fel y cefnogir gan Gyngor Caerdydd (e.e. rhaglenni'r Cyngor Prydeinig, partneriaethau dinasoedd, ayb).

⁵⁰

<https://www.corecities.com/sites/default/files/field/attachment/Cultural%20Cities%20Enquiry%20%5Bweb%5D.pdf>

RHAGLENNI CEFNOGI AMRYWIOL GAN MUSICBOARD BERLIN

Yn 2013, sefydlodd Senedd Berlin Musicboard Berlin. Mae'r bwrdd, sy'n ymroddedig i'r sîn pop a cherddoriaeth gyfoes leol, yn cynnig cefnogaeth i brojectau sy'n cynnwys cwmpas cenedlaethol a rhyngwladol. Mae cyllideb flynyddol Musicboard Berlin yn €1.7m (gyda €250,000 yn mynd tuag at ariannu Comisiwn Cerddoriaeth Berlin). Ceir 5 rhaglen ariannu i artistiaid a grwpiau wneud cais amdanynt. Yn 2017, ariannwyd 48 o brojectau ar draws 2 o'r rhaglenni, derbyniodd 19 o gerddorion gyllid cymorth, cafodd 31 o gerddorion gymorth gan y gronfa Ysgoloriaethau a Phreswyladau a derbyniodd 12 o wyliau gyllid. Hefyd, cynorthwyodd y gronfa gyllid 183 o ddigwyddiadau⁵¹.



Ffigur 5. Ciplun o Musicboard Berlin's Gwefan Header fel yr oedd ar 27-8-2018

Ceir rowndiau ariannu Career Springboard Berlin a Pop in the Hood ddwywaith y flwyddyn, mae Cyllid Gwyliau ac Ysgoloriaethau a Phreswyladau yn digwydd unwaith y flwyddyn, ac mae Cyllid Cymorth yn rhedeg o fis Ionawr i fis Tachwedd. Gwneir penderfyniadau gan reithgor a ffurfiwyd o 5 gweithwyr proffesiynol diwydiant cerdd Berlin o gefndiroedd amrywiol. Penodwyd y rheithgor presennol yn 2018 a bydd yn eistedd ar y panel am 3 blynedd. Ffurfir y rheithgor o: asiant archebu a rheoli, DJ radio, newyddiadurwyr a rhaglenydd cerddoriaeth a chelfyddydau perfformio.⁵²

⁵¹ Musicboard Berlin (2018a)

Bydd ffocws Musicboard Berlin yn 2019 ar hyrwyddo menywod mewn diwylliant pop a chryfhau'r sectorau LGBT a BAME.

- **Career Springboard** - yn ariannu projectau a rhaglenni wedi'u hanelu at artistiaid newydd
- **Pop in the Hood** - yn ariannu projectau wedi'u hanelu at gerddoriaeth fyw mewn cymunedau lleol
- **Arian Gwyliau** - yn ariannu gwyliau cerddorol poblogaidd wedi'u hanelu at artistiaid newydd
- **Arian cefnogol** – hyd at €500 fesul artist/aelod band tuag at gostau teithio fel act gefnogol i artist / band. Rhaid i Berlin fod y fan byw/gweithio a rhaid i'r derbynnydd eisoes fod wedi cyfrifo treuliau y daith a chostau (llety, teithio, offer)⁵³
- **Ysgoloriaethau a Phreswyladau** - cyllid i gerddor pop/ band pop ddatblygu project neu sgil cerddorol newydd (cynhyrchu albwm neu fideo, dylunio gwefan, ysgrifennu caneuon). Mae ysgoloriaethau yn para 3-6 mis a gallant fod rhwng €5,000-10,000. Rhaid cyflwyno cynlluniau ariannol i gyfiawnhau'r swm y gofynnir amdano a rhoddir arian i bobl nad ydynt yn gallu cwblhau eu gwaith heb arian cyhoeddus. Mae preswyladau yn 2019 ar gael yn America, Brasil, Iran, Ffrainc, yr Eidal, Sri Lanka, India a Chiwba. Trefnodd y Musicboard nifer o bartneriaethau er mwyn cynnig cyfnodau preswyl dramor, yn cynnwys costau hedfan, llety, costau byw a rhywfaint o arian tuag at y project. Hefyd, mae'r cyfnod preswyl yn cynnwys darparu rhwydweithiau yn y sîn gerdd leol a chymorth i drefnu arddangosfa.⁵⁴

Y CAMAU NESAF:

4.3 Cefnogi lleoliadau cerdd, cynhyrchwyr digwyddiadau a sefydliadau i wella amodau eu cwmni drwy atgyfeirio at sefydliadau defnyddiol

Gweithio gyda sefydliadau ariannu, rhoddwyr a darparwyr eraill i gefnogi lleoliadau cerdd, hyrwyddwyr digwyddiadau a sefydliadau cerdd eraill i wella eu hamodau. Dylai meysydd gynnwys; rheoli trosglwyddo sain, adnewyddu offer, mynediad, gwelliannau iechyd a diogelwch, amrywiaeth, ehangu cynulleidfa, creu swyddi newydd a hyfforddi staff. Helpu i nodi grantiau i gwrdd ag ystod eang o anghenion busnesau. Mae angen dadansoddi cymorth ar sail achos unigol, fel y gall ymgeiswyr elwa o gymorth a allai fod ar gael.

⁵²Musicboard Berlin (2018b)

⁵³Musicboard Berlin (2018c)

⁵⁴Musicboard Berlin (2018d)

GALWAD AGORED BA MUSICA AM ARIAN PROJECT, BUENOS AIRES (YR ARIANNIN)

Crëwyd BA MÚSICA⁵⁵ gan Lywodraeth Dinas Buenos Aires i wella'r amodau lle mae gweithgareddau cerddoriaeth fyw yn digwydd ym mhrifddinas yr Ariannin. Ers 2012, mae'r sefydliad hwn wedi darparu offer a chymhellion (gan gynnwys cymorthdaliadau, rhyddhad trethi a rhannu gwybodaeth) i gerddorion a phobl leol.

Er mwyn bod yn gymwys i gael y cymorth trwy gyllid galwad agored, rhaid i gwmnïau, bandiau neu gerddorion unigol gwblhau proses gofrestru a chyflwyno cynnig i gael cymhorthdal, rhyddhad treth neu fath arall o gymorth. Derbynnir cyflwyniadau yn flynyddol dros ddau fis, ac ar ôl hynny cânt eu gwerthuso'n unigol gan gyfarwyddiaeth a'r Weinyddiaeth Ddiwylliant.

CLUB TR3SC, CATALUNYA⁵⁶

Datblygwyd y fenter TR3SC yn 2006 fel menter ar y cyd gan Adran Ddiwylliant a Chyfyngau y llywodraeth ranbarthol a Chorfforaeth Catalaneg y Cyfyngau Clyweledol. Mae'n sefydliad sy'n seiliedig ar aelodaeth (ar hyn o bryd yn 34,000 o aelodau) gyda chynlluniau am ddim a rhai â thâl i gael mynediad gwahanol i gynnwys a buddion yn y rhwydwaith, fel gostyngiadau, mynediad i ddigwyddiadau a phresenoldeb unigryw, nwyddau a'i fwletin digwyddiadau mewnol a chylchgrawn.

Mae'r plattform yn fanteisiol i'r ecosystem ddiwylliannol gyffredinol oherwydd ei bod yn apelio at gynulleidfaoedd a chynhyrchwyr diwylliannol fel ei gilydd. Darperir gwybodaeth fanwl am raglenni o ansawdd a buddion hygyrchedd i aelodau, ac mae'n sianel hyrwyddo i annog defnydd diwylliannol yn y rhanbarth. Cost aelodaeth sylfaenol yw €34 y flwyddyn, ac mae'n cynnwys gostyngiadau parhaol ar gyfer pob digwyddiad a hysbyseb, yn ogystal â mynediad i weithgareddau unigryw. Mae'r clwb yn darparu cerdyn ffisegol i aelodau di-dâl a'r rhai sy'n talu, y gellir eu defnyddio i gael disgowntiau wrth archebu tocynnau ar-lein neu'n bersonol yn y lleoliadau cyfranogol.

⁵⁵Gobierno de Buenos Aires (2018)

⁵⁶TR3SC (2018)

CYLLIDO'R CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT TRWY INCWM TRETHI

Yn 2015, cyflwynodd San Francisco dreth gwesty o 8%, y dyrannwyd 2.9% ohono i Gomisiwn Celfyddydau'r ddinas. Yn 2016, dosbarthwyd dros \$10m o refeniw i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.

Datblygodd Berlin fesur tebyg yn 2014. Mae ei Dreth Dinas yn cyfateb i 5% o brisiau ystafelloedd gwesty ac fe'i defnyddir fel cronfa aml-sector ar gyfer y celfyddydau. Mae projectau gan unigolion a sefydliadau sy'n cyd-fynd â hunanddelwedd Berlin fel "metropolis agored, creadigol, sy'n ymwybodol o hanes" yn agored i wneud cais, a dosberthir €1.34m bob blwyddyn.⁵⁷

MANNAU A LLEOEDD

DYRANNU LLEOEDD I GERDDORION A PHOBL BROFFIESYNOL YN Y DIWYDIANT

ARGYMHELLIAD 5: CYNYYDDU MANNAU A LLEOEDD CERDD FFORDDIADWY SYDD AR GAEL I ARTISTIAID A GWEITHWYR PROFFESIYNOL CERDD YNG NGHAERDYDD

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd / Adran Datblygu Economaidd / Datblygwyr eiddo a buddsoddwyr

Cefndir: Caiff artistiaid a gweithwyr proffesiynol ym maes cerdd, yn enwedig ar ddechrau eu gyrfaedd, anhawster i neilltuo'r oriau sydd eu hangen i berffeithio eu crefft a'u sgiliau, gan eu bod at ei gilydd yn ategu eu hincwm gyda swyddi nad ydynt yn ymwneud â cherdd. Gweithio rhan-amser yn unig yn y diwydiant cerdd (llai na 40 awr yr wythnos) a wna 73.2% o ymatebwyr yr arolwg yn y grŵp proffesiynol, a'r rhai a nodwyd fel 'Arall'. Er bod amrywiaeth o leoliadau bach a mawr yn gallu cynnal digwyddiadau cerdd a diwylliannol, mae ein casgliad data a'n hasesiad ymchwil wedi pennu bylchau yn y lleoedd sydd ar gael/ ysgol lleoliadau. Roedd fforddiadwyedd yn fygythiad arbennig ymhlith ymatebwyr yr arolwg a oedd yn nodi eu bod yn unigolion BAME a menywod. Canfu canlyniadau'r arolwg fod cerddorion lleol yn teimlo bod manau gwaith/ymarfer yn aml yn ddrud neu'n anfforddiadwy, ac mae polareiddio rhwng ymatebwyr sy'n ei chael hi'n hawdd rhwydweithio yng Nghaerdydd a'r rhai sydd wedi ei chael hi'n anodd gwneud cysylltiadau.

⁵⁷ Berlin Senate Department for Culture and Europe (2017)

Nodau:

- Cynyddu argaeledd mannau gweithio, ymarfer a pherfformio addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector cerdd leol.
- Caniatáu lle i artistiaid a gweithwyr proffesiynol gyfarfod a chydweithio'n greadigol ac yn broffesiynol.
- Clystyru'r sector gerdd i hybu gweithgarwch economaidd a chryfhau'r gymuned.
- Cysylltu'r sîn gerdd leol gyda chyfleoedd creadigol a phroffesiynol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol.
- Defnyddio mannau llai-eu-defnydd ar gyfer gweithgareddau cerdd.
- Helpu cerdd i ffynnu ym mhob ardal o'r ddinas.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

5.1 Datblygu Hyb Cerdd Cymunedol

Er mwyn sicrhau hyfywedd unrhyw ddarpariaeth cerdd, diwylliant neu'r celfyddydau, rhaid i fannau a lleoliadau fod yn fforddiadwy ac yn gynhwysol i'r gymuned. Bydd gofod hyblyg yn gyrru hyfywedd y defnydd a bydd yn cefnogi buddsoddiad pellach, creu swyddi hirdymor a datblygu sgiliau i breswylwyr lleol. Dylai anghenion a gallu'r hyb cerdd newydd a'i leoliad cyfagos gael eu hasesu gan y Swyddfa Gerdd a'r Bwrdd Cerdd i sicrhau ei bod yn addas i anghenion y bobl proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cerdd yn y ddinas. Yn y pen draw, dylai'r ganolfan weithredu fel hyb datblygu proffesiynol trwy ddarparu mynediad i gyfleoedd dysgu, ymarfer, perfformio a rhwydweithio i'r sector gerddoriaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc dan 18 oed a cherddorion ifanc eraill, a allai ei chael yn fwy heriol cael mynediad i fannau, cysylltiadau a chyfleoedd datblygu o'r fath.

Gallai'r project gael arian sbarduno, ei berchenogi a'i weithredu fel ymddiriedolaeth ddielw. Byddai'r ymddiriedolaeth neu'r elusen hon yn gyfrifol am godi arian, adeiladu, ac yna rheoli hyb cerdd Caerdydd. Gallai'r gofod gynnwys lleoliadau i gasglu incwm o weithgaredd masnachol. Dylid ailddosbarthu'r holl elw a geir yn y lleoliad i'r sector llawr gwlad, gan gefnogi creu gwyliau a digwyddiadau newydd, addysg cerdd, projectau cerdd cymunedol, datblygu a hyfforddi artistiaid, recordio a rheoli, ymhlith defnyddiau eraill.

THE GLAD CAFE, GLASGOW, DU⁵⁸

Mae The Glad Cafe yn Gwmni Buddiant Cymunedol sy'n gweithredu fel caffï dielw ar hyn o bryd. I gael ei ystyried yn Gwmni Buddiant Cymunedol, rhaid i'r caffï ddefnyddio elw ac asedau er lles y cyhoedd. Mae The Glad Cafe yn cyflawni hyn trwy gefnogi'r Glad Foundation a'r Glad Rags Thrift Shop. Ail-fuddsoddir yr incwm a gynhrychir yn y Glad Foundation, sy'n darparu gweithdai cerdd am ddim i bobl leol. Mae The Glad Cafe hefyd yn Bencadlys Côr Cymuned Glad.

Ceir lleoliad cerdd 120 o leoedd y tu ôl i ofod y caffï. Mae'r lleoliad yn cefnogi, ac yn cael ei gefnogi, gan hyrwyddwyr annibynnol a DIY a cherddorion lleol.

Derbynia'r lleoliad a'r caffï gefnogaeth anuniongyrchol gan y wladwriaeth. Mae gan y busnes brydles 10 mlynedd a sefydlwyd gyda benthyciad gan Social Investment Scotland, darparwr Menter Gymdeithasol a dielw o fenthyciadau busnes i'r trydydd sector. Daw arian arall ar gyfer y project hwn o gyllid grant gan Arts & Business Scotland, elusen a chwmi cyfyngedig. Derbyniodd y cwmni hwn arian a chefnogaeth llywodraeth yr Alban drwy Creative Scotland. Fe'i noddir hefyd gan Scotrail.

Ynghyd â'r arian cyhoeddus hwn, mae'r lleoliad yn dibynnu'n fawr ar gymorth mewn nwyddau gan y sector preifat. Er enghraifft, mae cwmnïau lleol SSK a Create48 yn benthycu y system PA ac offer arall i'r caffï. Y prif gostau ar gyfer y lleoliad hwn yw cyflogau staff.⁵⁹

TREMPOLINO, NANTES, FFRAIN⁶⁰

Mae Trempolino yn Nantes yn enghraifft dda arall o arfer gorau yn y sector hwn. Ceir mwy o wybodaeth amdano uchod yn yr adroddiad hwn, yn adran 2.4, *Cryfhau a datblygu cydweithrediad rhyng-ddinas pellach*.

CAMAU GWEITHREDU PELLACH:

5.2 Cynnig fframwaith i hwyluso prydlesi dros dro ar gyfer sefydliadau cerdd a diwylliannol lleol mewn mannau anhraddodiadol

Byddai prydlesi o'r fath ar gael i sefydliadau dielw ac elusennol, yn ogystal â sefydliadau masnachol, i ddarparu mannau gweithio fforddiadwy ar gyfer yr ecosystem cerdd neu leoedd i gynhyrchwyr drefnu digwyddiadau cerdd. Er mwyn cael eu dewis, byddai angen i sefydliadau ddarparu tystiolaeth o sut y bydd eu gweithgareddau'n ymgysylltu â'r gymuned ac yn cyfrannu ati, yn ogystal â chyfiawnhau'r ffyrdd y maent yn gwella amrywiaeth a bywiogrwydd y sîn gerddoriaeth a diwylliannol leol.

⁵⁸ <https://www.thegladcafe.co.uk/>

⁵⁹ Behr, Dr. A. (2014)

⁶⁰ Trempolino (2018)

KREATIVE RÄUMEN WIEN, FIENA⁶¹

Kreative Räumen Wien yw swyddfa'r ddinas ar gyfer 'gweithredu safleoedd gwag', a reolir yn uniongyrchol gan ddinas Fiena a 3 asiant arall: cynrychiolydd o'r diwydiannau diwylliannol, cynrychiolydd o'r diwydiant eiddo a chwmni cyngori cyfreithiol. Mae Kreative Räumen yn gweithredu fel cyfryngwr trwy gysylltu adrannau dinas perthnasol â darpar ddefnyddwyr safleoedd gwag a pherchnogion eiddo, yn ogystal â darparu unrhyw wasanaethau cyngori cyfreithiol ychwanegol sydd eu hangen. Daeth y consortiwm â dros 400 o leoedd i ddefnydd ers 1999 ac wedi arwyddo cytundebau cydweithredu gyda dros 100 o wahanol berchnogion a chwmnïau eiddo ⁶².

Mae Kreative Räumen yn darparu safleoedd gwag mewn ardaloedd datblygu trefol penodol yn Fiena i gwmnïau a gweithwyr proffesiynol lleol yn y diwydiannau creadigol fel rhan o gamau hyrwyddo strategol y Ddinas o'r sector diwylliannol a chreadigol lleol. Defnyddir safleoedd i amrywiaeth o ddibenion ac amserlenni, gan gynnwys manau arddangos, swyddfeydd, manau perfformio a gweithdai i artistiaid, a benderfynir ymlaen llaw yn ystod cyfryngu'r Ddinas gyda'r prydlesai a'r prydleswr sydd â diddordeb.

CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH, CREU LLEOEDD

ARGYMHELLIAD 6: MANTEISIO I'R EITHAF AR YR OFFER CYNLLUNIO SYDD EISOES YN BODOLI I HYRWYDDO DINAS 'SY'N DDA I GERDDORIAETH'

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd / Adran Gynllunio / Priffyrdd a Thrwyddedu

Mae'r ateb i lawer o'r materion sy'n ymwneud â datblygu Dinas Gerdd ffyniannus i'w gael o fewn y broses gynllunio. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd 2006-2026 (CDLI) yw prif ddogfen gynllunio Cyngor Caerdydd, ac mae'n amlinellu polisiau'r awdurdod ar gyfer rheoli datblygiad dros yr amserlen a nodwyd uchod.

Cyfeiriad cyfyngedig yn unig a geir at bolisiau penodol sy'n gysylltiedig â cherdd yn y CDLI, gan ei fod yn cael ei ystyried yn ddefnydd o adeilad, yn aml gyda mwy o faterion yn ymwneud â thrwyddedu yn hytrach na materion cynllunio. Yn ogystal, gall rhai polisiau cynllunio cadarnhaol fod â chanlyniadau na ragwelwyd ar gyfer gweithrediadau cerddoriaeth fyw - er enghraifft, gall pedestreiddio strydoedd wneud llwytho a dadlwytho offer yn lleoliadau yn fwy cymhleth.

⁶¹ Kreative Räume Wien (2018)

⁶² Magistrat der Stadt Wien (2018)

Gall hyn gael ei waethygu pan gynhelir digwyddiadau mawr yn Stadiwm y Principality. Gall prisiau tacsis a ffioedd parcio hefyd gynyddu cost noson allan yn sylweddol i gynulleidfaoedd, sydd, yn ôl pob tebyg, yn atal llawer o bobl rhag teithio yn amlach i'r canol ar gyfer sioeau cerdd. Mae hyn yn ganlyniad i'r seilwaith trafndiaeth presennol yng Nghaerdydd, sy'n faes gwan pan ddaw i gefnogi economi min nos ac economi nos sy'n tyfu.

Mae'r broses Gynllunio yn allweddol i gyflawni llawer o'r dyheadau yn yr adroddiad, a gall hefyd fod yn ddylanwadol o ran amodau a osodir ar weithredwyr, neu ddatblygiad seilwaith cerdd mewn ardaloedd ac adeiladau newydd yn y ddinas. Bydd cynnwys cynllunio ar gam cynnar yn helpu i liniaru problemau yn y dyfodol ac yn rhoi arweiniad o ran cyflawni llawer o'r newidiadau a argymhellir yn yr adroddiad hwn.

Nodau:

- Hwyluso datblygiad gweithgaredd cerdd i wasanaethu ardaloedd o'r ddinas ac yn ystod oriau estynedig.
- Rhagweld aflonyddwch posibl a datblygu perthynas dda rhwng preswylwyr a mannau cerdd.
- Sefydlu perthynas gyda'r adran gynllunio i ysgogi cyfleoedd posibl.
- Cynnwys y sector datblygu ystadau wrth greu dinas sy'n gyfeillgar i gerdd.
- Archwilio manteision creu lle i annog cynnal cerdd mewn mannau anhraddodiadol.
- Ystyried y strategaeth economi nos i ychwanegu eglurder i benderfyniadau cynllunio yn y dyfodol.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth Gynllunio ar Fwrdd Cerdd Caerdydd i sicrhau y gellir cyflawni uchelgeisiau.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

6.1 Gweithredu Polisi Cynllunio Cymru 10 yn gyson a defnyddio'r egwyddor 'Cyfrwng Newid' yng Nghaerdydd

Ym mis Rhagfyr 2018, mabwysiadwyd Polisi Cynllunio Cymru 10 gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn amlinellu canllawiau polisi ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, a dylai fwydo i bolisiau ledled y wlad.

Mae'r egwyddor Cyfrwng Newid yn bolisi gwarchodol, sydd bellach wedi'i fabwysiadu yng Nghymru, i wneud datblygiadau newydd yn atebol o ran gwanhau sain⁶³. Dylid asesu ei weithrediad yng Nghaerdydd i wasanaethu gofynion gweithredwyr diwylliannol yn well, gan gynnwys mesurau gwanhau sain pan fydd datblygiad preswyl arfaethedig o fewn 50 metr i leoliadau perfformio cerddoriaeth fyw presennol. Dylid diffinio amlygiad a therfynau sain mewn ardaloedd risg (h.y. canol y ddinas) i wneud lleoliadau yn atebol am droseddau posibl, gan sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr newydd yn ymwybodol o'r lefelau sŵn yn yr ardal.

Dylid sbarduno'r 'Cyfrwng Newid' yn awtomatig pan gyflwynir cais cynllunio newydd, er mwyn cychwyn yr asesiad gwanhau sain. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys nifer o gyfeiriadau penodol at gerddoriaeth fyw, ac yn ddiau mae cyfeiriadau niferus at bwysigrwydd sefydliadau diwylliannol, y mae lleoliadau cerddoriaeth fyw neu seilwaith cysylltiedig fel stiwdios recordio, yn ffurfio rhan ohonynt.



⁶³Sicrhodd Beverly Whitrick, Cyfarwyddwr Strategol yn y Music Venue Trust (MVT), Sound Diplomacy bod y sector eisoes yn gweithio ar eiriolaeth ac ymgyrchu dros sicrhau bod y 'Cyfrwng Newid' yn diogelu cerddoriaeth gyffredin ar lawr gwlad. Dywedodd hefyd fod Jon Fox wedi cyflwyno cyngor helaeth ar ran MVT i ddrafft cyntaf cynllun gweithredu Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru 2018-2023, lle mae Adran 4.3 yn ymrwymo Cymru i fabwysiadu Cyfrwng Newid mewn modd sy'n amddiffyn cerdd gyffredin llawr gwlad yn benodol.

VALLEY SOUND MACHINE, BRISBANE

Creodd Cyngor Dinas Brisbane y Valley Sound Machine⁶⁴, sef offeryn ar-lein sy'n casglu samplau o lefelau sŵn disgwylidig o wahanol rannau o'r Ardal Adloniant. Gall unrhyw un wrando ar ddwy sampl sain o ardal o'u dewis, o ddau cyfnod o'r dydd (10am i ganol nos a chanol nos i 10am). Gall y defnyddiwr hefyd addasu'r samplau eu hunain, gydag opsiynau i ychwanegu seiniau ychwanegol o ffynonellau cyffredin fel traffig, cerddwyr a chwsmeriaid. Gall defnyddwyr hefyd brofi'r lefel desibel hon yn erbyn gwahanol fathau o leoliadau, gan gynnwys ar strydoedd y Valley ac yn fflatiau'r Valley gyda gwahanol lefelau o inswleiddio. Pan gyhoeddwyd y Valley Music Harmony Plan⁶⁵ yn y lle cyntaf, nid cwynion preswylwyr oedd y prif bryder y lleoliadau a sŵn, ond yn hytrach y deddfau trwyddedu a oedd yn cynnwys trwydded alcohol, gyda lefelau sŵn llym ar ôl 10pm.



Ciplun o offer ar-lein y Valley Sound Machine

Mae'r offeryn ar-lein yn galluogi'r defnyddiwr i glywed a gweld y lefel desibel gyfartalog tra'n addasu'r amser, yr arwynebedd, y math o synau, y math o inswleiddio yn y fflat, ayb. Ceir opsiynau pellach y gellir eu haddasu, gan gynnwys gwirio'r lefelau sain yn y nos y tu mewn i fflat wedi'i inswleiddio'n isel. Bydd yr offeryn hefyd yn awgrymu gwell deunyddiau inswleiddio i helpu i liniaru sŵn, lle bo'n briodol.

Er nad yw wedi'i fwriadu fel mesur diffiniol, mae'r Valley Sound Machine yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar lefel desibel ddisgwylidig i breswylwyr neu fusnesau sy'n bwriadu symud i'r ardal.

Y CAMAU NESAF:

6.2 Datblygu strategaeth ac uwchgynllun creu lleoedd ar gyfer Ardal y Castell sy'n amlygu ei sefyllfa unigryw yn sîn gerddoriaeth Caerdydd

Dylai'r Swyddfa Gerdd a'r Bwrdd Cerdd ymgynghori â'r Busnesau Cerdd yn yr ardal ynghylch datblygu strategaeth brandio a chreu lle ar gyfer Ardal y Castell. Gellid cyflwyno hwn i Gyngor Caerdydd a'i seilio ar hyn llinellau Ardal Ogleddol Manceinion. Dylai cyflwyniad gynnwys Cynllun Gweithredu yn amlinellu ei botensial economaidd, diwylliannol a chynllunio. Dylai asesiad brandio o'r fath bennu pa offer a sianeli hyrwyddo fyddai fwyaf addas (e.e. hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol, taflenni wedi'u hargraffu, arwyddion pwrpasol) yn ogystal â pharatoi ar gyfer lliniaru gwrthdaro posibl a allai godi, fel adolygiad o'r cyfyngiadau ar oriau agor.

QUARTIER DES SPECTACLES, MONTRÉAL

Y Quartier des Spectacles yw prif ardal adloniant a chelfyddydau canol tref Montreal. Mae ganddi dros 30 o leoliadau perfformio mewn ardal sydd ychydig dros 1km², yn ogystal â manau cyhoeddus ar gyfer mwy na 40 o ddigwyddiadau y flwyddyn. Dyluniwyd yr ardal ar gyfer cerddoriaeth a diwylliant, gyda sawl taflunydd yn dod â seilwaith amgylchynol yn fyw, pyst lampau wedi'u cynllunio ar gyfer rigio, llwybrau wedi'u goleuo a sawl nodwedd ddylunio drefol arall. Er ei bod yn wreiddiol i fod i gefnogi Gŵyl Jazz Ryngwladol Montreal, mae bellach yn gwasanaethu digwyddiadau diwylliannol eraill. Yn ystod yr haf, mae'r ardal ar gyfer cerddwyr yn unig.

Gall yr ardal gynnwys 50,000 o bobl yn ei gwahanol fannau, a gall sefydliadau wneud cais i gynnal digwyddiadau drwy'r wefan Quartier des Spectacles, sy'n rhestru pob man cyhoeddus ochr yn ochr â'u priod fanylebau. Rhaid i'r digwyddiadau arfaethedig fod yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd, ac ni ddylent weithredu fel llwyfan gwerthu neu hyrwyddo i endidau masnachol.⁶⁶

6.3 Ymgysylltu â'r sector cerdd lleol yn y datblygiad Arena Caerdydd newydd

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i adeiladu'r darn coll o seilwaith cerdd y ddinas, sef arena amlbwrpas newydd gyda 15,000 o seddi. Bydd y datblygiad newydd hwn yn denu mwy o berfformwyr Rhyngwladol i Gaerdydd ac yn cael effaith gadarnhaol ar bob lefel o'r ecosystem cerddoriaeth fyw, o'r lleoliadau llawr gwlad i'n prif fannau. Bydd Swyddfa Gerdd a Bwrdd Cerdd Caerdydd yn gweithio i sicrhau y sefydlir sianeli cyfathrebu clir rhwng datblygwyr, gweithredwyr a'r ecosystem bresennol.

⁶⁶Quartier des spectacles Partnership (2017)

6.4 Gweithio â phartneriaid i gefnogi hygyrchedd gwell o ran trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos

Ymgynghori â'r Bwrdd Cerdd a swyddogion trafndiaeth i bennu llwybrau newydd posibl ar gyfer bysiau a beiciau, ac archwilio amserlenni diwygiedig i drafndiaeth gyhoeddus. Byddai'r gwelliannau yn cyd-fynd â'r strategaethau trafndiaeth a symudedd sydd yn eu lle, ac fe allent gael eu defnyddio i hyrwyddo noson allan gyfrifol yng Nghaerdydd fel rhan o ymgyrch hyrwyddo. Mae rhai o'r cyfleoedd allweddol ar gyfer gwella a nodwyd yn cynnwys:

- Gosod goleuadau clyfar yn y parciau a marcio llwybrau beicio drwy Barc Bute.
- Asesu hyfywedd amserlenni/ llwybrau bysiau newydd.
- Asesu hyfywedd ychwanegu trenau hwyrach at yr amserlen.
- Lobïo gweithredwyr trafndiaeth i dreialu gwasanaethau trên hwyrach ar benwythnosau digwyddiadau, neu i noson gig unwaith y mis.
- Sicrhau bod Cerdd yn ystyriaeth wrth ddatblygu system Metro De Cymru.

TROSGLWYDDIAD RHWYDWAITH NOS, MELBOURNE⁶⁷

Ers diwedd 2015, bu gan Public Transport Victoria Rwydwaith Nos cynhwysfawr yn cysylltu maestrefi ac ardaloedd rhanbarthol y dalaith hon yn Awstralia, gan gynnwys opsiynau trafndiaeth gyhoeddus 24-awr ar benwythnosau⁶⁸. Mae'r cynllun trafndiaeth nos wedi profi i fod yn hanfodol i ddatblygiad yr economi nos trwy ddarparu opsiynau trafndiaeth diogel, hawdd a rhad. Cynlluniwyd Rhwydwaith Nos Dinas Melbourne i ddarparu gwasanaeth trên, tram, neu fysiau o fewn un cilometr i gartrefi 70% o bobl Melbourne i annog ei ddefnydd⁶⁹. Hefyd, mae'r Parthau Tramiau sydd ar gael am ddim yn ystod y dydd yn berthnasol i deithio hwyr y nos, sy'n helpu pobl leol a thwristiaid i symud o gwmpas ardal gweithgareddau craidd y ddinas.

Hyrwyddir y defnydd o rwydwaith trafndiaeth nos hefyd drwy'r ymgyrch Explore the Night diweddar sy'n dangos sut mae llwybrau Rhwydwaith Nos penodol yn cysylltu â bywyd nos Melbourne, gyda ffocws ar weithgareddau cerddoriaeth fyw. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebu yn yr awyr agored ac ar y radio, a gweithgareddau hyrwyddo eraill, yn ogystal ag 'Up-Late Playlists' a gaiff eu curadu gan artistiaid, ac y gellir eu cael drwy sganio codau Spotify ar bosteri o amgylch y dref. Y cerddor lleol Ecca Vandal a gynhyrchodd sengl gerddorol yr ymgyrch.

⁶⁷Public Transport Victoria (2018)

⁶⁸Premier of Victoria (2018)

⁶⁹Transport for Victoria (2018)

RHEOLIADAU DIWYGIO ADEILADAU (CERDDORIAETH FYW) YN AWSTRALIA

Caiff Cod Adeiladu Awstralia (BCA) effaith uniongyrchol ar hyfywedd lleoliadau cerddoriaeth fyw, yn ogystal ag ar y lleoliadau presennol sy'n darparu rhaglen gerddoriaeth fyw. O dan ddiffiniadau'r BCA, caiff lleoliadau eu dosbarthu fel Dosbarth Manwerthu 6, sy'n grwpio manwerthu, bariau, gwystai a bwytai, neu Adeilad Dosbarth Cynulliad 9B. Os yw lleoliad yn cynnig adloniant byw, yna caiff ei ddsbarthu fel 9B (ynghyd ag adeiladau fel stadia chwaraeon a meysydd awyr) ac mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â safonau diogelwch uwch. Mae hyn yn arbennig o drafferthus i leoliadau llai o faint a'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau hŷn, sydd fel arfer yn ddrutach i'w moderneiddio a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon y cod. Gall y gwaith adeiladu helaeth sydd ei angen ar gyfer y lefel uwch hon o gydymffurfiaeth ei gwneud yn anymarferol i leoliadau bach gynnal adloniant annibynnol ar raddfa fach.⁷⁰

Ystyriwyd bod system Ddosbarthu'r BCA yn anghyson, gan amlygu nad oedd tystiolaeth gref dros y gwahaniaeth rhwng adeiladau Dosbarth 6 a Dosbarth 9B, yn enwedig o ystyried newidiadau technolegol gwell perfformiadau cerddoriaeth fyw, ac nid oedd y dull hwn yn adlewyrchu'r risg yn gywir (h.y. defnydd, perygl neu ddeiliadaeth)⁷¹. Fel ateb, cyflwynwyd Rheoliadau Diwygio Adeiladau (Cerddoriaeth Fyw) 2014 gan Lywodraeth Victoria i ddiwygio Rheoliadau Adeiladu 2006 mewn perthynas â dosbarthu Lleoliadau Cerddoriaeth Fyw Bychain o dan y BCA yn Nhalaith Victoria. Newidiwyd y Rheoliadau i gydnabod darparu adloniant cerddoriaeth fyw fel rhan bwysig o ddefnyddio adeiladau Dosbarth 6 bach fel gwystai, bwytai, caffis a bariau (lleoliadau cerddoriaeth fyw bychain), gan ddiddymu eu dosbarthiad awtomatig fel adeiladau Dosbarth 9B i bob pwrpas.⁷²

⁷⁰Government of Western Australia (2015)

⁷¹SKIP Consulting Pty Ltd. (2015)

⁷²Victorian Building Authority (2014)

CYRFFYW ESTYNEDIG LLEOLIADAU AMSTERDAM⁷³

Rhoddodd Neuadd y Ddinas Amsterdam drwyddedau alcohol a gweithredu 24-awr i 10 lleoliad ar y cyrion i leddfu'r pwysau ar fywyd nos yng nghanol y dref a thwristiaeth. Mae digwyddiadau o'r fath yn gweithredu fel cyrchfannau diwylliannol yn awr, tra hefyd yn darparu gwasanaethau i'r gymuned yn ystod y dydd. Hefyd, mae'r lleoliadau sy'n cymryd rhan yn Nigwyddiad Dawns Amsterdam wedi ymestyn oriau gweithredu (gan gau am 8am yn lle 4am), eithriad a roddwyd yn gyfnewid am gyfraniad mewn nwyddau/gwasanaethau gan leoliadau, fel timau stryd.

Arweiniodd yr oriau agor hirach at ledaeniad gwasgaredig a chwsmeriaeth dawelach, yn hytrach na bod pawb sy'n mynd i glybiau yn gadael ar yr un pryd. Gwerthusir y lleoliadau a digwyddiadau sy'n derbyn trwyddedau arbennig ar sail unigol, i sicrhau bod eu rhaglenni diwylliannol yn cyfrannu at atyniad ac amrywiaeth Amsterdam. Mae hyn angen gwaith trwyddedu helaeth, ond mae'n ateb tymor hir i gynaliadwyedd twristiaeth yn ogystal â bywiogrwydd y ddinas a'i bywyd nos.

ADEILADU STIWDIOS ARTIST FFORDDIADWY DRWY GYTUNDEBAU ADRAN 106 YN HACKNEY, DU⁷⁴

Yn aml, defnyddir cytundebau adran 106 yn Llundain i sicrhau darpariaeth seilwaith lleol allweddol gan gynnwys ysgolion, cartrefi fforddiadwy, projectau gwella tir y cyhoedd neu asedau treftadaeth, a gallant hefyd ddarparu ar gyfer seilwaith diwylliannol. Gall y datblygwr weithredu'r cyfraniadau hyn ei hun, neu gytuno i wneud taliad i'r awdurdod cynllunio lleol, fel bod y gwaith yn cael ei oruchwylio gan y cyngor.

Noda polisi diwylliannol Cyngor Hackney sut y gall y fwrdeistref weithredu fel brocer mewn datblygiadau, i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer gofod priodol fforddiadwy neu fel darparwr eiddo. O dan gytundeb Adran 106, mae datblygiad defnydd cymysg newydd Matchmakers Wharf yn Hackney wedi integreiddio 49 o stiwdios artistiaid fforddiadwy a adeiladwyd yn bwrpasol. Hackney Wick sy'n gyfrifol am y datblygiad, ardal sydd yn draddodiadol wedi cynnig gofod stiwdio artistiaid ar rent fforddiadwy, ond sydd wedi dod dan bwysau oherwydd boneddigeiddio. Felly, mae datblygiad newydd o unedau preswyl marchnad a fforddiadwy yn galluogi mynediad i'r 49 stiwdio artistiaid ar rent is na'r farchnad ar brydles 999 mlynedd. Dyrannwyd y stiwdios yn 2012 a rhoddwyd blaenoriaeth i artistiaid sy'n byw yn Hackney.

⁷³Diaz (2017)

⁷⁴Maer Llundain (2015)

ADDYSG

MYNEDIAD I ADDYSG CERDD AR BOB LEFEL AC I BOB OEDRAN

ARGYMHELLIAD 7: DATBLYGU PARTNERIAETHAU I ALLUOGI DARPARIAETH ADDYSG CERDD CYDWEITHREDOL YNG NGHAE RDYDD

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd / Adran Addysg / Rhanddeiliaid Addysg Cerdd Allweddol

Cefndir: Y darparwr mwyaf o Addysg Cerdd yw Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae tri phrif faes i'r darpariaeth: Addysgu offerynnol mewn ysgolion, projectau Datblygu Cerdd a gweithgareddau Ensemble. Mae dros 90% o ysgolion Caerdydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddisysgu offeryn. Cyflwynir 87% o'r gwaith hwn gan Wasanaeth Cerdd Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg, gydag oddeutu 100 o staff yn cael eu cyflogi i addysgu.

Mae'r cynllun Offeryn â Chymorth yn galluogi rhieni i brynu offer fforddiadwy am bris gostyngol, a, lle bo angen, caiff offerynnau eu benthyg i ddisgyblion na fyddent yn gallu eu fforddio. Gall ysgolion ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu disgyblion sy'n cael prydu ysgol am ddim. Mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, mae'r Gwasanaeth yn hwyluso projectau Datblygu Cerddoriaeth, sy'n cefnogi darpariaeth gynhwysol ac amrywiol. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Cerdd yn rhedeg 20 ensemble yn amrywio o gerddorfeydd a bandiau pres i grwpiau gitâr a chorau. Mae'r ensembles hyn yn rhoi cyfle i dros 600 o ddisgyblion wneud cerddoriaeth gyda'i gilydd. Aiff llawer o'r disgyblion hyn ymlaen i berfformio gyda Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, yn yr ensembles cenedlaethol.

Cynrychiolir cerddoriaeth yng nghwricwlwm yr ysgol yng Nghaerdydd gan 13 o Ysgolion Uwchradd a 2 leoliad ôl-16 sy'n cynnig cyrsiau TGAU. Yn ogystal, mae diplomâu BTEC Cerdd/celfyddydau perfformio ar gael mewn 9 ysgol, gyda 2 yn cynnig cyrsiau lefel A/AS. Mae Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Caerdydd yn rhedeg 5 stiwdio recordio, a phartneriaeth gyda 'The Ministry of Life', sy'n darparu cwrs lefel 2 mewn Sgiliau Diwydiant cerdd. Cefnogir y cwrs hwn gan Goleg Caerdydd a'r Fro, ac mae hefyd yn rhedeg cyrsiau cerdd a thechnoleg cerdd lefel 3, 4 a 5 sy'n cwmpasu pob agwedd ar y Diwydiant cerdd. Mae'r Grassroots Studio yn fenter arall gan y Gwasanaeth Ieuencid sydd wedi'i hanelu at y bobl ifanc fwyaf agored i niwed i ddatblygu eu sgiliau a gweithio tuag at achrediad. Ar lefel gradd, mae cyrsiau mewn Cerddoriaeth Glasurol yn CBCDC a Phrifysgol Caerdydd ac mae cerddoriaeth Roc a Phop ar gael yn yr Atrium (Prifysgol De Cymru). Darpara Addysg Oedolion a Chymunedol gyrsiau hamdden i'r rhai sy'n ymwneud â dysgu gydol oes.

Mae hwn yn gynllun addysg cerdd eang sydd wedi'i ddatblygu'n dda, ac yng ngoleuni'r wybodaeth uchod, dangosodd ymatebwyr yr arolwg farn gadarnhaol gyffredinol amdano, gan sgorio 3.2 allan o 5 ar gyfartaledd. Fodd bynnag, rhoddwyd gradd isel i argaeledd

addysg diwydiant cerdd o ansawdd uchel, ac er yn wir fod rhaglenni dysgu offerynnau a chefnogaeth grŵp ar gael ar draws Caerdydd, mae opsiynau cyfyngedig iawn i unigolion gael mynediad at hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sgiliau gofynnol, boed yn gwrs cyflwyno i feddalwedd cynhyrchu/ cymysgu cerddoriaeth fel Ableton; chwarae offeryn penodol; neu ddechrau hyfforddeiaeth mewn stiwdio recordio. Yn wir, mae tua 56% o artistiaid a 42% o weithwyr proffesiynol a arolygwyd yn hunan-hyfforddedig ym meysydd cerdd a'r diwydiant cerdd, tra mai dim ond tua 20% a astudiodd bynciau sy'n gysylltiedig â cherdd yn y brifysgol.

Mae addysgwyr cerdd yn rolau cyffredin yn yr ecosystem cerdd, ac ymddengys mai'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn yw'r rhai sydd ar y brig yn y sampl ecosystem a ddadansoddwyd - mae 50% o'r ymatebwyr hyn yn ennill £35,000-50,000.

Nodau:

- Hyrwyddo manteision addysg cerdd ymhlith plant ysgol a phobl ifanc.
- Sicrhau bod llwybrau mynediad clir i bawb, p'un a ydynt am ddysgu, cymryd rhan neu berfformio yn y rolau niferus a gynigir gan y diwydiant cerdd.
- Darparu cyfleoedd allgyrsiol i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â phroffesiynau a rolau yn y diwydiant cerdd o gyfnod cynnar, gyda mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan ym mywyd cerdd Caerdydd.
- Cadw a datblygu athrawon, hwylyswyr a pherfformwyr o ansawdd uchel.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

7.1 Creu Map o Gyfleoedd Cerdd a'r llwybrau perthnasol i ddangos i gyfranogwyr sut i gynllunio'u taith gerdd yn y ffordd orau

Er bod llawer o weithgarwch addysg cerdd yn digwydd yng Nghaerdydd, mae'n anodd i'r rhai sy'n gweithio ynddo weld y darlun llawn, gan fod llawer o ddarparwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Dylai'r bartneriaeth addysg cerdd gasglu gwybodaeth, ac unwaith y bydd hon wedi'i chwblhau, dylid paratoi dewislen o gyfleoedd a map o ddarpariaeth, gan esbonio llwybrau priodol i gynorthwyo cyfranogwyr i gyflawni eu nodau cerddorol. Dylai fod adnodd ar-lein ar gyfer disgyblion a rhieni, gan roi'r cyfleoedd hyn i gyd mewn un lle i'w lledaenu ar draws ysgolion, fel bod athrawon yn ymwybodol o'r camau nesaf sydd ar gael i'w disgyblion. Dylai'r gwaith hwn hefyd fod yn gysylltiedig â phrofiadau bywyd go iawn a chyflogaeth bosibl trwy ddefnyddio partneriaethau addysg-busnes sefydledig yng Nghaerdydd, yn ogystal â chyfleoedd mentora, diwrnodau agored ymwybyddiaeth o'r diwydiant, a ffyrdd eraill o hysbysu ymgynghorwyr gyrfaoedd ysgolion uwchradd am gyfleoedd yn y diwydiant cerdd, fel bod myfyrwyr yn cael eu hymgyssylltu i ddilyn astudiaethau trydyddol cerdd a swyddi dan hyfforddiant yng Nghaerdydd.

7.2 Datblygu gweledigaeth ar gyfer Cynnig Addysg Cerdd Cynhwysol i'r holl Bobl Ifanc yng Nghaerdydd

Dylid dwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol ar gyfer addysg cerdd yng Nghaerdydd i greu partneriaeth addysg cerdd. Dylai'r grŵp hwn lunio gweledigaeth addysg cerdd i'r ddinas, wedi'i seilio ar rannu'r gorau o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a sut i wella a datblygu hyn ymhellach. Dylai'r weledigaeth hon gael ei mynegi'n glir a bod yn uchelgeisiol o ran ei chwmpas.

Y CAMAU NESAF:

7.3 Cyflwyno gweithdai cerdd ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Mae gweithdai cerdd i fyfyrwyr ifanc yn ffordd ardderchog ac anffurfiol o gyflwyno plant i fyd cerdd amrywiol, i ddarparu cymuned o fyfyrwyr cerdd, ac maent yn ffordd dda o fuddsoddi mewn addysg cerdd y mae mawr ei hangen yng Nghaerdydd. Dylai'r rhain fod yn gysylltiedig ag ymgyrch bresennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud dosbarthiadau offerynnol yn rhad ac am ddim i bob plentyn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cydraddoldeb mewn mynediad at gerdd. Mae gweithdai cerdd yn galluogi myfyrwyr i arbrofi gydag amrywiaeth o genres cerdd ac i roi cynnig ar amrywiaeth o offerynnau newydd. Gellir annog canu i ddatblygu hyfforddiant clust, fel y gall cyflwyniad i gysyniadau theori cerddoriaeth, a nodiant cerddorol.

Mae'n werth nodi y gellid cynnwys rhan o hyn yng Nghynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol CCC⁷⁵, sy'n ceisio hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion, gan roi'r cyfle i ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol wedi'i chynllunio i wella ansawdd yr addysgu a dysgu.

⁷⁵ Cyngor Celfyddydau Cymru (2018)



SOUND THINKING NYC

Cynigir y rhaglen hon gan fenter Prifysgol Dinas Efrog Newydd a Thîm y Celfyddydau Creadigol. Yn gyffredinol, mae'n darparu lefelau lluosog o ymrwymiadau myfyrwyr, i gyd yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd yn y diwydiant cerdd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig menywod. Yn ystod y rhaglen, rhoddir cyfle i fyfyrwyr ymweld â stiwdios recordio, dysgu am ddylunio sain a rhwydweithio. Rhaid i gyfranogwyr fod yn fyfyrwyr Dinas Efrog Newydd sy'n dechrau ar radd 11^{eg} ac yn cael eu derbyn trwy broses ymgeisio gystadleuol.

Mae'r rhaglen gychwynol yn cynnwys Cwrs Dwys Haf o 3 wythnos. Caiff pob un o raddedigion y cyfnod hwn gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diwydiant yn ystod gradd 11^{eg} a 12^{fed}, gwneud cais am interniaethau haf â thâl dynodedig, a gwneud cais i gyrsiau credyd coleg am ddim yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd. Yn ystod y rhaglen, mae'r cyfranogwyr yn derbyn cardiau metro am ddim am y cyfnod o dair wythnos, ynghyd â chinio. Mae'r holl dreuliau yn dod o dan Swyddfa Cyfryngau ac Adloniant y Maer (MOME)⁷⁶.

⁷⁶ Ibid.

DATBLYGU ARTISTIAID

CYNNIG CYFLEOEDD DATBLYGU I ARTISTIAID LLEOL

ARGYMHELLIAD 8: HYRWYDDO MYNEDIAD I GYFLEOEDD DATBLYGU ARTIST YNG NGHAE RDYDD WAETH BETH FO OEDRAN, LEFEL SGILIAU A GENRES GWAITH YR ARTISTIAID

Cychwynnydd: Y Swyddfa Gerdd / Adran Datblygu Economaidd

Cefndir: Yn gyffredinol, mae heriau critigol o fewn yr ecosystem yn ymwneud yn bennaf â biwrocratiaeth ac argaeledd cefnogaeth ar gyfer datblygu talent: ffioedd perfformiad, rheoleiddio, cymorth ariannol a chefnogaeth gan y cyfryngau, labeli a rheolwyr. Nododd ymatebwyr yr arolwg a oedd yn artistiaid mai ffioedd perfformiad oedd ased waethaf Ecosystem Cerdd Caerdydd, gyda graddfeydd ymatebwyr BAME hyd yn oed yn is na'r cyfanswm cyfartalog. Mae mwyafrif yr artistiaid (71%) yn gweithio 20 awr neu lai, gyda'r mwyafrif (87.2%) yn adrodd enillion o lai na £10,000 o ffynonellau cerddoriaeth yn unig bob blwyddyn. Er ei bod yn ansicr o ran cyflogau, mae'r sîn leol yn fywiog; 'talent leol' yw'r ased a raddiwyd uchaf yn yr ecosystem, ac roedd mwyafrif yr artistiaid a ymatebodd wedi chwarae o leiaf un sioe yng Nghaerdydd (83%) y llynedd. Nodwyd hefyd ymhlith cynulleidfaoedd bod yna ryw faint o unffurfiaeth yn y mathau o gerddoriaeth sy'n cael eu harchebu - yn bennaf roc/ indie - a byddai mwy o amrywiaeth o genres yn y sîn leol yn cael ei gwerthfawrogi

Nodau:

- Hyrwyddo tâl teg i artistiaid ac economi swyddi cynaliadwy yn yr ecosystem leol.
- Cynyddu mynediad i artistiaid at gyfleoedd perfformio ar bob cam o'u datblygiad artistig.
- Caniatáu ar gyfer mwy o gyfleoedd datblygu gan artistiaid sy'n gweithio mewn amrywiaeth o genres cerdd.
- Creu a thyfu Digwyddiad Unigryw Caerdydd sy'n meithrin talent cartref.

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH:

8.1 Creu siarter moeseg a thystysgrif 'Chwarae Teg' i leoliadau

Dylai'r Swyddfa Gerdd, ar y cyd â'r Bwrdd Cerdd, weithio gydag Undeb y Cerddorion a phartneriaid i gyflwyno eu cynllun 'Chwarae Teg' ac egwyddorion sy'n cefnogi artistiaid, hyrwyddwyr a lleoliadau lleol i greu bargeinion tecach sy'n helpu'r bobl greadigol a'r ecosystem cerdd ehangach. Er na fyddai'n ofyniad gorfodol, byddai'n fwy calonogol pe bai sefydliadau fel lleoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr sy'n gymwys i dderbyn grantiau lleol neu

daleithiol yn darparu prawf o gydymffurfio â'r safon 'Chwarae Teg' hwn, gan gynnwys peidio â chael archebion talu-i-chwarae a chwotâu amrywiaeth yn eu rhaglen. Dylid asesu'r statws hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau bod lleoliadau'n parhau i gydymffurfio ac addasu i'r gofynion a safonau archebu newydd. Byddai lleoliadau gyda thystysgrif 'Chwarae Teg' yn gallu hyrwyddo eu hunain fel y cyfryw mewn deunyddiau hyrwyddo, gan gynnwys gofod blaenoriaeth yng ngweithredoedd marchnata a chyfathrebu Dinas Gerddoriaeth Caerdydd.

CYNLLUN LLEOLIAD CHWARAE TEG UNDEB Y CERDDORION⁷⁷

Mae Undeb y Cerddorion yn annog ac yn hyrwyddo gweithredu'n erbyn triniaeth annheg o gerddorion yn y DU. Arweiniodd ei eiriolaeth yn 2015 at y cynllun lleoliadau Chwarae Teg, sy'n anelu at "gydnabod arfer da a dileu'r driniaeth annheg o gerddorion"⁷⁸.

Mae'r canllaw⁷⁹ yn cynnwys cyngor i artistiaid hunan-hyrwyddo mewn meysydd fel bargeinion cyd-hyrwyddo teg, cymryd rhan mewn cystadlaethau a digwyddiadau arddangos, a chyflwyno ceisiadau i berfformio mewn gwyliau. Gall cerddorion gyflwyno eu profiadau cadarnhaol mewn lleoliadau i gael y perchnogion i gymryd rhan yn y cynllun Chwarae Teg, ac ar ôl gwerthuso, gall y digwyddiad gynnwys sticer i'w arddangos fel bathodyn o'u parch at artistiaid.

8.2 Creu llwyfan i ddatblygu perfformio

Mae arddangosfeydd artistiaid a digwyddiadau math 'Brwydr y Bandiau' yn cyflawni nifer o ddibenion. Maent yn rhoi cyfle i artistiaid hogi eu cyflwyniad cyhoeddus gyda'r her ychwanegol o gynulleidfaoedd sylwgar neu gyfranogwyr cystadleuol. Maent hefyd yn gweithredu fel dyfais farchnata, sy'n dangos y doniau cartref gorau sydd gan Gaerdydd i'w cynnig, a chaniatáu i artistiaid berfformio i gynulleidfaoedd sydd efallai wedi dod i weld rhywun arall yn chwarae.

Ar gyfer cystadlaethau sy'n gwobrwyo perfformiadau gorau, mae hwn ynnddo'i hun yn gyfle datblygu artistiaid. Gall trefnwyr weithio ochr yn ochr â stiwdios recordio lleol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu amser stiwdio, cyfleoedd artistiaid a bandiau newydd, offerynnau/ gêr neu hyd yn oed gig mewn digwyddiad dilynol, fel slot gŵyl neu slot act gynorthwyol ar daith. Er efallai nad oes gan arddangosfeydd artistiaid elfen gystadleuol, gallai'r rhai a ddewiswyd ar gyfer y digwyddiad dderbyn hyfforddiant fel rhan o'u cyfranogiad, a chael eu cynghori ar y sgiliau marchnata a busnes sydd eu hangen ar artistiaid sy'n bwriadu adeiladu eu gyrfaedd. Mae'n werth nodi bod y cyngor eisoes yn cynnal digwyddiad blynyddol o'r enw Y Gig Fawr sy'n gweithio mewn rhai o'r meysydd hyn. Fodd bynnag, byddai'r digwyddiad yn elwa o ymgymryd â rhai o'r argymhellion yma.

⁷⁷ Undeb y Cerddorion (2015b)

⁷⁸ Ibid.

⁷⁹ Undeb y Cerddorion (2018)

BRWYDR Y BANDIAU FReeZA PUSH START

Er mwyn tynnu sylw at amrywiaeth y doniau lleol, mae Llywodraeth ranbarthol Victoria yn ariannu Brwydr y Bandiau FReeZA Push Start, sy'n rhoi gwobrau ariannol ac mewn nwyddau, a slotiau perfformio i gystadleuwyr yn y rownd derfynol.⁸⁰ Mae'r arddangosfa hon yn agored i unrhyw fath o arddull gan gynnwys bandiau, unawdwyr, artistiaid hip hop, actau electronig ac acwstig, ac yn y blaen. Mae trefnwyr a hyrwyddwyr digwyddiadau ifanc hefyd yn cymryd rhan trwy bwllgorau lleol a Chynghorau Ieuenctid sy'n cynnal Push Start FReeZA. Er nad yw'r digwyddiad hwn yn denu cynulleidfaoedd mawr, noda'r cyranogwyr fod perfformio'n werthfawr i fandiau ifanc.

“Rydym wedi gwyllo dros 300 o artistiaid talentog yn cymryd rhan yn y gystadlaeth trwy eu grŵp FReeZA lleol dros y 12 mis diwethaf, ac mae'n galonogol iawn gweld cyfansoddiadau a pherfformiadau mor drawiadol gan y naw artist sydd wedi symud ymlaen i'r rownd derfynol.” — Shane Wickens, Cyfarwyddwr Artistig Push

Y CAMAU NESAF:

8.3 Creu digwyddiad arddangos artistiaid rhyngwladol traws genre


Llywodraeth y DU (2018) “Corporation Tax: creative industry tax reliefs”. Ar-lein yn <https://www.gov.uk/guidance/corporation-tax-creative-industry-tax-reliefs> cyrchwyd 9-1-2019

Llywodraeth y DU (2017) “Organising a voluntary event: a 'Can do' guide”. Ar-lein yn <https://www.gov.uk/government/publications/can-do-guide-for-organisers-of-voluntary-events/the-can-do-guide-to-organising-and-running-voluntary-and-community-events> cyrchwyd 23-8-2018

UK Music (2017a) “Measuring Music: 2017 Report”. Ar-lein yn https://www.ukmusic.org/assets/general/Measuring_Music_2017_Final.pdf cyrchwyd 21-8-2018

UK Music (2017b) “Wish You Were Here”. Ar-lein yn <https://www.ukmusic.org/research/music-tourism-wish-you-were-here-2017/> cyrchwyd 10-8-2018

Victorian Building Authority (2014) “Small Live Music Venue Classifications”. Ar-lein yn http://www.vba.vic.gov.au/data/assets/pdf_file/0009/26298/PN-68-2018-Small-Live-Music-Venue-Classifications.pdf cyrchwyd 10-8-2018

Victorian Commission for Gambling and Liquor Regulation (2013) “Licence conditions for live music venues”. Ar-lein yn https://www.vcglr.vic.gov.au/sites/default/files/uploadLiquor_licensing_fact_sheet_-_Licence_conditions_for_live_music_venues.pdf

ATODIAD 1

ASTUDIAETHAU ACHOS TWRISTIAETH CERDD A BRANDIO

Hamburg

Mae Hamburg yn enwog yn hanesyddol am ei chyfraniadau at hanes cerdd ac mae'n parhau i hyrwyddo ei hetifeddiaeth fel lleoliad arloesol gyda'i strategaeth Dinas Gerdd. Gweithiodd y llywodraeth ochr yn ochr â'r diwydiant cerdd i greu strategaeth a cherddoriaeth twristiaeth cerdd er mwyn hyrwyddo'r diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ei sîn gerddoriaeth i'w a ddatblygiad yr Elbphilharmonie ysblennydd.

Tudalen y pecyn 98

Mae gan Hamburg strategaeth twristiaeth cerdd sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn i'r ddinas. Fel y crybwyllwyd, mae cerddoriaeth fyw yn rhan o hunaniaeth graidd Hamburg a chafodd ei hyrwyddo fel un o'i hasedau cryfaf. Mae gan y ddinas gyllidebau dynodedig ar gyfer marchnata'r diwydiant cerdd ac mae'n cefnogi digwyddiadau cerdd enwog fel Rock am Ring, Wacken Open Air, a Reeperbahn, a ystyrir ymhlith y brandiau mwyaf blaenllaw yn fyd-eang ac sy'n mwynhau poblogrwydd rhyngwladol. Mae Reeperbahn hefyd yn un o gynadleddau pwysicaf y diwydiant cerdd, gan ei gwneud yn wyl gyda'r bwysicaf o'i bath yn Ewrop, fel yr SXSW. Bob blwyddyn, mae'r wyl hon yn denu cyfartaledd o 30,000 o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant a mynychwyr yr wyl, sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi gyffredinol y ddinas.¹⁰¹

Efallai mai'r cyfrannwr mwyaf at y twf presennol mewn twristiaeth cerdd yw'r Elbphilharmonie byd-enwog.¹⁰² Wedi ei ddyfeisio yn 2003, a'i gwblhau'n derfynol yn 2017, mae'r seilwaith mawreddog hwn wedi dod yn goron ar ddinaslun hardd Hamburg. Wedi'i leoli ar lannau'r afon Elbe, mae'r adeilad trawiadol yn cynnwys tair neuadd gyngerdd, gwesty, 45 o fflatiau preifat, a'r Plaza sydd ar gael i'r cyhoedd gyda golygfa banoramig 360° o'r ddinas. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei bodolaeth, mae'r ganolfan wedi croesawu 4 miliwn o ymwelwyr, gan ei gwneud yn atyniad twristiaeth poblogaidd. Bob dydd, ceir hyd at 17,000 o westeion sy'n dod i fynychu cyngerdd neu gerdded o amgylch y strwythur. Yn ôl adroddiad, tyfodd y diwydiant twristiaeth yn Hamburg o 3.7% yn 2017 ac mae hyn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â gofod y lleoliad newydd. Tyfodd 5.15% o arosiadau dros nos gan westeion o dramor ar ôl sylw cynyddol y cyfryngau, sydd wedi cydnabod Hamburg fel cyrchfan i dwristiaid.¹⁰³ Mae'r dynodiad fel Safle Treftadaeth Ddiwylliannol y Byd UNESCO hefyd wedi gwella delwedd Hamburg yn sylweddol.


¹⁰¹ <https://www.hamburg-tourism.de/erleben/>

¹⁰² <https://www.elbphilharmonie.de/en/>

¹⁰³ https://www.elbphilharmonie.de/media/filer_public/43/86/4386f78b-fd9a-4137-b929-334ad1bf857e/broschuere_elbphilharmonie_hamburg_eng.pdf

Yn ogystal â'r dwristiaeth ryngwladol a ddenwyd gan y ganolfan, mae'r Elbphilharmonie hefyd yn un o brif nodweddion y gymuned leol. Daeth yn ganolfan allgymorth i raglenni addysg ysgolion, ac mae wedi darparu gofod diwylliannol i'r ffoaduriaid a dderbyniwyd gan yr Almaen.

Parha'r strategaeth i mewn i 2018 gan fod cwmnïau marchnata a ariennir gan y wladwriaeth wedi lansio tair ymgyrch i hyrwyddo Hamburg fel cyrchfan deithio ddeniadol. O blith y strategaethau hyn, ceir "Hamburg ist live/Musikstadt" (Mae Hamburg yn fyw/Dinas Gerdd).¹⁰⁴ Prif nodau'r ymgyrch hon yw portreadu Hamburg fel man agored, creadigol a goddefgar. Mae rhai o'r camau uniongyrchol a gymerwyd i gefnogi'r celfyddydau cerddorol yn Hamburg yn cynnwys cynnal y parth rhyngwyd, www.kulturmedien-hh.de fel plattform newydd lle gall cerddorion a Busnesau Cerdd gael mynediad at gyfleoedd marchnata. Mae rhai o'r cyfleoedd hyn yn cynnwys colofnau diwylliant, lansio KulturSpots, a chreu cyfleusterau diwylliannol newydd. Hefyd ceir mynediad at hysbysebion teledu a fideo ar yr isffordd i'r diwydiant creadigol eu defnyddio naill ai am ddim, neu am gost o €30 (sydd â chymhorthdal uchel) am isafswm cyfnod o 4 diwrnod, heb unrhyw gostau cynhyrchu.¹⁰⁵




Ffigur 7. Ciplun o wefan Twristiaeth Hamburg fel yr oedd ar 23-8-2018 (1)

Mae'r wefan sy'n dangos y digwyddiadau cyfoes yn Hamburg yn hawdd i'w deall ac mae'n uniongyrchol. Mae gan y brif dudalen i dwristiaid "Musikals" (Sioeau Cerdd) fel un o'i dabiâu mwyaf adnabyddadwy, sy'n ddefnyddiol i'r rhai sy'n chwilio am weithgareddau diwylliannol.

¹⁰⁴ <https://marketing.hamburg.de/music.html>

¹⁰⁵ <https://www.farid-mueller.de/wp-content/uploads/Musikstadt-Hamburg.pdf>

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd cerddoriaeth fyw y tu allan i'r theatr, mae'n rhaid gwneud mwy o ymchwil drwy'r tab "Profiad" sy'n gwneud gwe-lywio i gerddoriaeth braidd yn ddryslyd. Nid oes dim i wahaniaethu'r dudalen digwyddiadau diwylliannol oddi wrth y cyfeirlyfrau eraill, ond serch hynny mae dyluniad, lliw a gosodiad y dudalen yn rhoi eglurder ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o opsiynau i leoliadau y gellir ymweld â nhw. Gan fod digwyddiadau diwylliannol - a cherddoriaeth yn arbennig - yn aml yn fywiog, mae cyfle i wneud y dudalen Digwyddiadau yn fwy trawiadol. Gallai'n hawdd gynnwys mwy o ddelweddau o'r math o ddigwyddiadau a gaiff eu cynnal. Agwedd wych ar y wefan yw'r opsiwn i chwilio am ddigwyddiadau yn ystod cyfnod amser arbennig ac o fewn categori penodol, sy'n gyfleus iawn i dwristiaid a phreswylwyr sy'n chwilio am ddewis.



Figur 8. Ciplun o wefan Twristiaeth Hamburg fel yr oedd ar 23-8-2018 (2)

Austin

Enwyd Austin yn "Brifddinas Cerddoriaeth Fyw'r Byd" yn 1991. Mae'n nod masnach cofrestredig sy'n gysylltiedig â'r ddinas, ar ôl darganfod bod gan Austin fwy o leoliadau cerddoriaeth fyw y pen nag unrhyw le arall yn y genedl. Bu'r ddinas yn nodd ei hystod eang o gynigion cerdd byth ers hynny, ac mae gan wefan y bwrdd twristiaeth adran benodol sy'n canolbwyntio ar y sîn gerddorol leol. Diolch i gynnig bywiog a hyrwyddo llwyddiannus a lleoli brandio, yn 2014 roedd allbwn y ddinas ar gyfer twristiaeth cerdd yn yr UD yn \$1,105.32 miliwn. Er mwyn deall effeithiau'r camau a gymerwyd gan y ddinas, comisiynodd y llywodraeth "Gyfrifiad Cerdd Austin" yn 2015, gan ddefnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar ddata i lunio'r casgliadau hyn.¹⁰⁶

Mae gan swyddfa'r llywodraeth ar gyfer twristiaeth ei chynllun "Marchnata Cerddoriaeth" dynodedig ei hun sy'n amlinellu strategaethau penodol a thactegau cysylltiedig er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Dyma grynodedb ohonynt:¹⁰⁷

1. Cynyddu diddordeb ym myd cerddoriaeth fyw Austin a pharhau i hyrwyddo'r brand, Prifddinas Cerddoriaeth Fyw

- a. Cynyddu cynnwys ar wefan CVB Austin gyda mwy o gynnwys cerddoriaeth fel fideo, lluniau, ffeithiau, rhaglenni cerddoriaeth Dinas Austin a gwybodaeth genre-benodol.
- b. Cynyddu ymdrechion yr Adran Cyfathrebu Marchnata trwy groesawu newyddiadurwyr i gynyddu darllediadau golygyddol o gerddoriaeth Austin ac amdani.
- c. Cynhyrchu CD crynhoed newydd a chardiau lawrlwytho o gerddoriaeth Austin a chanllaw bychan i sîn gerddoriaeth Austin.
- d. Creu llinell o nwyddau i hyrwyddo brand Live Music Capital of the World®; gwerthu ar wefan ACVB yn ogystal â dewis siopau Austin.

2. Hyrwyddo hygyrchedd cerddoriaeth Austin

- a. Gofyn i fusnesau gwerthu a gwasanaethau confensiynol ddefnyddio cerdd leol.
- b. Rheoli'r rhaglen "Have You Hired a Musician Today?" trwy gynorthwyo confensiynau, sioeau masnach a busnesau lleol gydag argymhellion archebu ar gyfer cerddoriaeth fyw mewn digwyddiadau.
- c. Archebu cerdd ar gyfer digwyddiadau ymgyfarwyddo, gwerthu, twristiaeth a chyfryngau.

3. Cydweithredu â phartneriaid cymunedol a Dinas Austin ar faterion yn ymwneud â cherdd i gryfhau'r gymuned gerdd leol

- a. Gweithio gyda staff Dinas Austin, Comisiwn Cerddoriaeth Austin a Maes Awyr Rhyngwladol Austin-Bergstrom drwy gydol y flwyddyn; cyfleu gweithgareddau'r swyddfa gerdd a gweithio i gyflawni'r nodau ar gyfer y gymuned gerdd.

¹⁰⁶ https://www.austintexas.gov/sites/default/files/files/Austin_Music_Census_Interactive_PDF_53115.pdf

¹⁰⁷ <http://www.austintexas.gov/edims/document.cfm?id=142178>
<http://www.austintexas.gov/edims/document.cfm?id=239291>

Archebu'r holl gerddoriaeth fyw ar gyfer cyfarfodydd wythnosol y Cyngor Dinas a hyrwyddo cyfres gyngerdd "Live from the Plaza" a pherfformiadau maes awyr


- b. Gweithio gyda sefydliadau cerdd a diwylliannol lleol, fel Cymdeithas Gerdd Latino Austin, Cynghrai Iechyd ar gyfer Cerddorion Austin, Cymdeithas Menywod mewn Cerdd Broffesiynol, Pro Arts Collective a grwpiau celfyddydau diwylliannol eraill i hyrwyddo digwyddiadau cerdd sy'n dod ag ymwelwyr i Austin ac yn codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol cerdd amrywiol
- c. Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned gerdd leol i hyrwyddo twf a datblygiad clybiau cerddoriaeth fyw, lleoliadau, stiwdios recordio, labeli recordiau a gweithgynhyrchwyr offer cerddoriaeth.

4. Codi ymwybyddiaeth o Austin fel prif gyrchfan gerdd ymhlith gweithwyr proffesiynol y diwydiant cerdd cenedlaethol a rhyngwladol

- a. Datblygu deunyddiau i hyrwyddo cerdd Austin a gwasanaethau Swyddfa Gerdd Austin.
- b. Sefydlu presenoldeb mewn digwyddiadau diwydiant proffil uchel trwy arddangosfeydd, deunyddiau hyrwyddo, derbyniadau cyfryngau, a digwyddiadau cleient fel: Grammy's, MIDEM, CMJ, Americana Music Festival, New Orleans Jazz and Heritage Festival, Latin Alternative Music Conference, Big Apple Barbecue, Coachella a Mostly Strictly Bluegrass.
- c. Cydweithio ag actau teithiol llwyddiannus Austin i hyrwyddo Austin mewn sioeau cenedlaethol a rhyngwladol gyda baneri, bagiau anrhegion Austin-ganolog, gwobrau, cystadlaethau, siopau cludfwyd, cyhoeddiadau o'r llwyfan a mynediad VIP i gleientiaid a'r cyfryngau.


Cafodd effeithiau'r buddsoddiad mawr mewn twristiaeth cerdd a marchnata sîn leol Austin ganlyniadau cadarnhaol. Dangosodd arolwg diweddar fod ymwelwyr dibreswyl i ddigwyddiad diwylliannol yn gwario cyfartaledd o 120% yn fwy y person na mynychwyr lleol (\$42.87 yn erbyn \$19.52). Ymhellach, nododd 8.4% o'r rhai nad oeddent yn breswylwyr eu bod wedi treulio o leiaf un noson ychwanegol oddi cartref yn Austin o ganlyniad uniongyrchol i fynychu'r digwyddiad diwylliannol (a gynyddodd eu gwariant cyfartalog i \$212.84 o \$42.87). Ymhellach, dywedodd 69.3% o'r holl ymatebwyr dibreswyl mai'r prif reswm dros eu taith oedd "yn benodol i fynychu'r digwyddiad celfyddydol/diwylliannol hwn", a dywedodd 31.5% o'r mynychwyr lleol y byddent wedi teithio i gymuned wahanol er mwyn mynychu profiad diwylliannol tebyg. Felly, mae'r adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd cymuned o ran darparu amrywiaeth o brofiadau artistig a diwylliannol. Os nad yw'n gwneud hynny, bydd yn methu â denu doleri newydd y twristiaid diwylliannol, tra'n colli gwariant dewisol ei phreswylwyr lleol a fydd yn teithio i fannau eraill i brofi'r math hwn o adloniant diwylliannol.¹⁰⁸

Mae gwefan twristiaeth Austin yn fywiog iawn. Adlewyrcha'r wefan ysbryd ac egni'r ddinas y mae'n ei hysbysebu, gan ei bod yn amlygu pwysigrwydd bwyd a cherddoriaeth yn syth. Edrycha'r wefan yn fwy hyrwyddol na gwefan addysgol/un a arweinir gan y ddinas. "Cerddoriaeth" yw un o'r tabiau mwyaf eglur ar y dudalen. Mae'r dudalen Gerddoriaeth ei hun hefyd yn sylweddol ac yn gyffrous gyda delweddau lluosog o arddangosiadau Austin, gwyliau, a lleoliadau. Mae hefyd yn benderfyniad da i gynnwys opsiynau ar gyfer Siopau Cerdd, Bargeinion Mewnol, a Mapiau, gan fod defnyddwyr yn fwy tebygol o dreulio mwy o amser ar y dudalen gyda'r hysbysebion hyn. Yn olaf, mae cael tabiau Austin Spotify ac Austin Playlist yn werthfawr oherwydd eu bod yn arddangos y gerddoriaeth leol yn Austin mewn ffordd gyfoes a diddorol y gall y defnyddiwr ei dilyn am gyfnod hirach nag ymweliad cyflym ar-lein. Yn ogystal, mae teclynnau darganfod yn fwy perthnasol nag erioed, felly mae cael opsiwn rhestr chwarae wedi'i churadu'n benodol i'r sîn leol yn mynd i ddenu llawer o ymwelwyr, eu cyffroi, a gwneud iddynt ymgysylltu mwy â'r hyn sy'n digwydd yn ATX.



Ffigur 9. Ciplun o wefan Croeso Austin fel yr oedd ar 23-8-2018 (1)

¹⁰⁸ https://www.austintexas.gov/sites/default/files/files/CT_Plan_Final.pdf



out. Mostly, you'll find Austin musicians at clubs, coffeehouses, bars, taquerias, auditoriums and concert halls - and with more than 250 live music venues, it can be intimidating knowing where to start. [Find out more](#) about the quintessential Austin music experiences.

Ffigur 10. Ciplun o wefan Croeso Austin fel yr oedd ar 23-8-2018 (2)

Aarhus


Ystyriwyd Aarhus fel Dinas Gerdd ers degawdau, gyda'i safle fel un o'r dinasoedd pwysicaf ar gyfer cynhyrchu a chreu talent ar gyfer sîn gerdd Denmarc.

Bu cerdd wastad yn rhan bwysig o DNA diwylliannol y ddinas, ac mae traddodiad hir o sîn gerdd adnabyddus, amrywiol a ffasiynol. Mae'r sîn honno wedi'i gwreiddio mewn ystod eang o lwyfannau ledled y ddinas - o'r Academi Gerdd Frenhinol i glybiau tanddaearol eraill. Daw bandiau di-ri o amgylchedd cerddorol a threftadaeth gref y ddinas, gan gynrychioli cerdd o bob math a genre. Yn ogystal, cynhelir nifer o wyliau yno ac mae llwyfannau addysgol yn bodoli ar lefel uchel ynghyd â llwyfannau cymunedol cerdd. Yn hollbwysig, bu cerdd yn rhan bwysig o bolisi diwylliannol y ddinas.

Mae gan Groeso Aarhus, y parth twristiaeth ar gyfer y ddinas, nifer o gyfeirlyfrau ar gyfer arddangos y gerddoriaeth fyw yn y ddinas, fel Music on Stages, Free Experiences, ac mae'n cynnal tudalennau eraill yn hyrwyddo gwyliau cerdd lleol fel SPOT. SPOT yw un o'r atyniadau mwyaf i dwristiaid cerdd, ac mae'n cynnwys arddangosfa ryngwladol o 8,000, gyda 100-200 o gyngherddau o nifer o wledydd Nordig. Yn ogystal, mae gan y ddinas ap, AarhusGuiden, a'r Kulturportalen - gwefan gyda'r holl weithgareddau diwylliannol sy'n digwydd, gan gynnwys opsiwn calendr i hidlo digwyddiadau. Mae'r ffynonellau hyn yn darparu teclyn hawdd i ymwelwyr gael gafael ar wybodaeth am y digwyddiadau y maent yn teithio i Aarhus ar eu cyfer.

Derbynia PROMUS¹⁰⁹ (Canolfan gynhyrchu cerddoriaeth, ffilm, llwyfan, llenyddiaeth, celfyddydau, dawns ayb) gyllid gan y wladwriaeth i gyflawni ei mentrau, sy'n cynnwys rhaglenni ariannu ar gyfer gwahanol broiectau cerddoriaeth, creu siop un stop ar gyfer hyrwyddwyr, a chreu Digwyddiadau Aarhus - swyddfa digwyddiad yn y ddinas. Mae'r swyddfa hon yn arbennig o bwysig o safbwynt brandio a hyrwyddo'r ddinas gan ei bod yn denu, datblygu a chefnogi digwyddiadau mawr, strategol gyda phwyslais ar ddiwyddiadau diwylliannol fel gwyliau cerddoriaeth. Mae'r ymdrechion hyn gan grwpiau cyhoeddus a phreifat yn helpu economi gyffredinol Aarhus, fel y dangosir gan y 2,500 o gerddorion, 1,100 o weithwyr a throsiant o 1.8 biliwn o kroner.

Yn olaf, fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2017, datblygodd Aarhus gyfres o strategaethau i wahaniaethu ei hun fel canolfan ar gyfer y celfyddydau a diwylliant creadigol. Roedd rhai o'r ymdrechion hyn yn canolbwyntio ar y diwydiant cerdd a ddaeth â mwy o sylw i'r maes hwn. Er enghraifft, roedd y ddinas yn canolbwyntio ar raglennu mwy yn yr Urban Mediaspace i gynyddu sylw rhyngwladol, i weld dyluniadau penseiri Sgandinafia a rhyngwladol blaenllaw tra'n cysylltu'r digwyddiadau hyn â rhaglenni eraill fel gwyliau a digwyddiadau cerddorol. Canolbwyntia pob un o'r rhaglenni hyn ar thema'r ymgyrch, sef "ailfeddwl_____". Hefyd roedd thema i bob ymdrech, a chawsant eu pecynnu mewn cydweithrediad â'r sector twristiaeth. O'r partneriaethau a'r hyrwyddiadau bwriadol hyn, mae'r ddinas yn disgwyl gweld cynnydd o 25% mewn twristiaeth ddiwylliannol erbyn 2020.¹¹⁰




Ffigur 11. Ciplun o wefan Croeso Aarhus fel yr oedd ar 23-8-2018 (1)

¹⁰⁹ http://www.promus.dk/files/MusicCityAarhus2015_net.pdf

¹¹⁰ <http://archive.thedailystar.net/newDesign/news-details.php?nid=268370>

Mae gan Aarhus ddyuniad glân a chyfoes iawn i'w thudalen ymwelwyr. Mae'r dudalen lanio yn cynnwys delweddau mawr, gafaelgar o'r lleoliad a'r digwyddiadau sy'n digwydd yno. Nid oes tab i fachu diwylliant na thab cerdd amlwg i ddefnyddwyr ymgysylltu â nhw yn glir. Yn lle hynny, ceir cerdd a digwyddiadau eraill o dan y bar cwmpo ar gyfer "Gweld a Gwneud", ac mae wedi'i chuddio mewn rhestr fawr o ddewisiadau i ddefnyddwyr eu defnyddio. Unwaith y dewisir y tab "Cerdd", mae'r brif dudalen yn parhau i ddangos pob digwyddiad adloniant, ond mae'n cynnig opsiwn hidlo ar gyfer cerdd yn unig. Dengys y dudalen ddelweddau o artistiaid a gwyliau ar ffurf grid sy'n glir i ddefnyddwyr ac yn golygu gwe-lywio hawdd ar ôl iddynt gyrraedd y fan hon. Ymhellach, mae'r dudalen yn cynnig y dewis i ddefnyddwyr chwilio am ddiwyddiadau ar ddyddiadau penodol, sy'n gyfleus iawn ac yn uniongyrchol.



Ffigur 12. Ciplun o wefan Croeso Aarhus fel yr oedd ar 23-8-2018 (2)


ATODIAD 2

Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC)

- 18201: Atgynhyrchu recordio sain
- 32200: Gweithgynhyrchu offerynnau cerdd
- 46431: Cyfanwerthu recordiau gramoffon, tapiau sain, cryno ddisgiau a thapiau fideo a'r offer y cânt eu chwarae arnynt
- 46439: Cyfanwerthu nwyddau radio a theledu ac offer trydanol y cartref (ac eithrio recordiau gramoffon, tapiau sain, cryno ddisgiau a thapiau fideo a'r offer y cânt eu chwarae arnynt) n.e.c.
- 46491: Cyfanwerthu offerynnau cerdd
- 47430: Manwerthu offer sain a fideo mewn siopau arbenigol
- 47591: Manwerthu offerynnau cerdd a sgoriau mewn siopau arbenigol
- 47630: Manwerthu cerddoriaeth a recordiadau fideo mewn siopau arbenigol
- 59200: Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth
- 60100: Darlledu radio
- 85520: Addysg ddiwylliannol
- 90010: Y celfyddydau perfformio
- 90020: Gweithgareddau cefnogol i'r celfyddydau perfformio
- 90030: Creu artistig
- 90040: Gweithredu cyfleusterau celfyddydol

Categoriâu

Recordio a Chyhoeddi	46431, 18201, 59200, 47630
Trwyddedu a Hawlfreintiau	90030
Teithio a Cherddoriaeth Fyw	90010, 90020, 90040
Offerynnau ac offer	46491, 32200, 47430, 47591
Cefnogi diwydiant	60100
Addysg	85520





SOUND
DIPLOMACY

CAERDYDD

ASTUDIAETH ECOSYSTEM CERDD
AC ARGYMHELLION STRATEGOL

Crynodeb Gweithredol

AM Y PROJECT

Caerdydd yw'r ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac mae am sefydlu ei hun fel arweinydd yn y mudiad Dinasoedd Cerdd, safon datblygiad dinesig sy'n hyrwyddo cerdd fel offeryn ar gyfer twf yn hytrach na sgil-gynnyrch ohono.

Mae gan Gaerdydd ecosystem cerdd ffyniannus, cyfuniad o gyfleoedd cerddoriaeth fyw o dafarndai lleol i neuaddau cyngerdd, sioeau stadiwm a phopeth rhwng hynny. Mae cerdd yn rhan o hunaniaeth a hanes y ddinas, gyda chynnig cerddoriaeth glasurol o'r radd flaenaf a llwyfan i fandiau Cymraeg ddatblygu eu gyrfaedd. Er mwyn cynnal a datblygu hyn, byddai diwydiant cerdd y ddinas yn elwa o gael ei ail-linio â'r strategaeth dinas ehangach sy'n ymwneud â thwf economaidd a phoblogaeth ehangach. Nid yn unig y mae'n bwysig cynnal sianeli cyfathrebu rhwng y rheiny sy'n creu polisïau a'r diwydiant, ond hefyd i fabwysiadu dull cydweithredol sy'n sicrhau bod y ddinas yn gweithio i gefnogi a hyrwyddo ei cherddorion a gweithwyr proffesiynol cerdd.

Mae'r project hwn yn dadansoddi ecosystem cerdd Caerdydd yn ei chyfanrwydd er mwyn nodi'r strategaethau datblygu mwyaf effeithiol. Mae'r ymchwiliad hwn wedi'i rannu'n sawl adran – gan gynnwys yr economi, seilwaith, twristiaeth, addysg a'r amgylchedd adeiledig. Ei nod yw sefydlu beth sy'n gwneud Caerdydd y ddinas ddiwylliannol gadarn a welw heddiw a nodi sut i fanteisio i'r eithaf ar ei rôl fel Dinas Gerdd.

Mae fformat yr adroddiad llawn wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

CYD-DESTUN

Rhoi trosolwg o gyflwr cyfredol diwydiant cerdd y DU, a lle Caerdydd ynddo.

ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD

Mae hwn yn rhoi cipolwg cynhwysfawr o gyflwr cyfredol ecosystem cerdd y ddinas, yn seiliedig ar ymchwil cynhwysfawr mewn nifer o feysydd allweddol. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn: effaith economaidd ecosystem cerdd Caerdydd; darganfyddiadau proses mapio ecosystem cerdd Caerdydd Sound Diplomacy; darganfyddiadau allweddol ar gyflwr cyfredol pethau o sectorau gan gynnwys llywodraethu ac arweinyddiaeth; trwyddedu; addysg; cynllunio; cyllid; trafniadaeth; cyflogaeth a sgiliau; twristiaeth a brandio; manau a lleoedd; ac asedau a bygythiadau.

ARGYMHELLION STRATEGOL

Mae'r adran hon yn cynnwys 12 argymhelliad sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol. Llywodraethu ac Arweinyddiaeth; Manau a Lleoedd; Addysg; Datblygu Artistiaid; Datblygu Proffesiynol; Ymgysylltu â'r Gynulleidfa; a Marchnata Cerdd. Gyda phob argymhelliad ceir 1 neu fwy o Gamau Blaenoriaeth a/neu Gamau Nesaf a awgrymir, yn ogystal ag astudiaeth achos o bedwar ban byd sy'n dangos arfer gorau.

Paratowyd yr astudiaeth hon ar gais Cyngor Caerdydd Nid yw cynnwys yr astudiaeth hon yn adlewyrchu barn swyddogol Cyngor Caerdydd. Yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am y wybodaeth a'r safbwyntiau a fynegir yn yr astudiaeth.

METHODOLEG

Datblygodd Sound Diplomacy ddull methodolegol 4 adran unigryw o ran darparu asesiad cynhwysfawr o ecosystem cerdd Caerdydd:

CAM 1: ASESIAD EFFAITH ECOLEGOL

Fe wnaethon ni gwblhau ymchwil desg ac adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr, a darparu asesiad rheoliadol manwl i gael dealltwriaeth o bolisi a rheoliadau cyfredol.

CAM 2: YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID

Roedd yr arolwg a chyfweiliadau'r diwydiant yn ffynhonnell cyd-destun allweddol. Ymgysylltodd dros 1000 o unigolion ag arolwg Strategaeth Cerdd Caerdydd a chafodd eu hymatebion eu dadansoddi'n llwyddiannus. Fe wnaethon ni hefyd gynnal cyfres o gyfweiliadau bord gron a phersonol â dros 100 o randdeiliaid gydol y broses.

CAM 3: YMCHWIL MEINTIOL

Trwy ddadansoddi ystadegau swyddogol, data sylfaenol a ddatblygwyd gan Sound Diplomacy a chanlyniadau o'r arolwg cynhyrchwyd astudiaeth fanwl o effaith economaidd ecosystem cerdd Caerdydd.

CAM 4: DADANSODDI DARGANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

Cynllun cynhwysfawr ar gyfer datblygu ecosystem cerdd Caerdydd yn seiliedig ar waith dadansoddol a gwblhawyd yn flaenorol.



Gŵyl Hyb. Llun: Jonathan Baker

EFFAITH ECONOMAIDD ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD



Golygfa o'r awyr o Gaerdydd. Llun: Andrew Hazard

Tudalen y pecyn 113



CYFLOGAETH AC EFFAITH ECONOMAIDD

CYFLOGAETH


Canfuwyd bod 58% o'r swyddi a gynhrychwyd yn uniongyrchol gan y sector cerdd yn rhai llawn amser (840) a 42% yn rhai rhan amser (600).

INCWM/ CYFLOGAU

Incwm blynyddol artistiaid ac asiantiaid creadigol yn y sector cerdd yw £18,000¹, gyda ffynhonnell incwm amrywiol a ddim yn angenrheidiol i gyd o gerddoriaeth, tra bod gweithwyr **technegol a rheoli** o'r sector cerdd² yn ennill £27,500 ar gyfartaledd, gwahaniaeth o 44%³ ar gyfartaledd.

Cafodd cyfanswm o **2,495** o swyddi eu cynhyrchu a'u cefnogi gan y sector cerdd yn y ddinas, ar gyfer cyfanswm incwm o **£75.1 miliwn**.

CAERDYDD – CYFLOGAETH ECOSYSTEM CERDD, 2016



1 Ychydig yn is na'r cyfartaledd cyflog cenedlaethol ar gyfer cynhyrchwyr cerdd sef £20,504 (t12, adroddiad Mesur Cerdd 2018 UK Music)

2 Gweithwyr technegol a rheoli yn y sector cerdd; gweithwyr proffesiynol cerdd ac addysgu, gweithredwyr darlledu clyweled, peirianwyr clywedol, hyrwyddwyr digwyddiadau.

3 Mae'r amcangyfrifiadau'n seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a'r arolwg a gynhaliwyd gan Sound Diplomacy

TROSIANT

Mae'r canlyniadau'n dangos bod ecosystem cerdd Caerdydd yn gyfrifol am tua 30% o'r cynhyrchiad a 41% o'r swyddi a gynhrychir gan graidd sector cerdd Cymru.



	ALLBWN MILIWN £	GVA MILIWN £	CYFLOGAU MILIWN £	CYFLOGEION
Effaith uniongyrchol	70,2	36,9	24,5	1440
Effaith anuniongyrchol	33,0	24,3	17,0	326
Effaith anwythol	50,0	43,3	33,6	729
Cyfanswm	153,2	104,5	75,1	2,495




Yn defnyddio codau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, canfuwyd mai cerddoriaeth fyw a theithiau sy'n cynhyrchu allbwn uchaf ecosystem cerdd y ddinas, gan gynhyrchu 65% o'r cyfanswm incwm (£45.6 miliwn), a chreu 70% o'r cyfanswm swyddi.

Cyfanswm
allbwn 153,2
MIO GBP


CYMHARU Â DINASOEDD ERAILL

Mae nifer y cyflogeion sy'n gweithio yn y sector cerdd yng Nghaerdydd yn debyg i'r rheiny ym **Mryste** (1,485) a **Lerpwl** (1,500), a llawer uwch na **Rhydychen** (400). Fodd bynnag, canfuwyd bod Caerdydd yn creu **4.3** o swyddi yn y sector cerdd ar gyfer bob 1,000 o breswylwyr, tra bo Bryste, Lerpwl a Rhydychen ond yn creu **2.74**⁴.


DINASOEDD CYMHAROL – CYFLOGAETH, 2016



LLEOLIADAU CERDDORIAETH FESUL 1,000 O DRIGOLION



DINASOEDD CYMHAROL – CYFLOGAETH, 2016




⁴ Gwybodaeth ddemograffig a gafwyd o GYFRIFIAD 2011 y Deyrnas Unedig


MAPIO DIWYDIANT CERDD CAERDYDD


Gan ddefnyddio offerynnau unigryw Sound Diplomacy, fe wnaethon ni fapio diwydiant cerdd Caerdydd, o leoliadau i fusnesau ac asedau cerdd eraill. Mae 36 lleoliad cerdd, 28 clwb nos, 11 siopau recordiau / offer, 29 stiwdio recordio, 6 lle ymarfer, 7 gorsaf radio, 45 athro cerdd cofrestredig, 15 asiant archebu / hyrwyddwr, 26 gŵyl â thâl mynediad, 13 lle cydweithio a 7 label recordiau.

5 Mae gwybodaeth fapio yn gywir ar 10 Gorffennaf 2018 pan ymchwiliwyd i'r data. Cafodd dadansoddiadau dilynol, fel lleoliadau fesul pen ac allbynnau economaidd, eu cyfrifo yn defnyddio'r data hwn.




CAERDYDD





- Lleoliadau Cerdd
- Clybiau Nos
- Siopau Recordiau ac Offer
- Stiwdios Recordio
- Mannau Ymarfer
- Gorsafodd Radio
- Athrawon Cerdd
- Asiantiaid Archebu a Hyrwyddwyr
- Gwyliau
- Mannau gweithio ar y cyd
- Label Recordiau

DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL





DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL

LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH

Nid oes unrhyw swyddfa gerdd sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth. Mae yna Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, cydweithfa o wasanaethau economi nos sy'n gweithio tuag at wella amodau ar gyfer bywyd nos a'r diwydiant cerdd, er **nid yw cerddoriaeth byth yn cael ei chynrychioli na'i thrin yn benodol**. FOR Cardiff yw un o'r hyrwyddwyr diogelwch a buddsoddiadau nos mwyaf, ond nid yw cerddoriaeth yn rhan o'i brif gylch gwaith. Fodd bynnag, mae'n ei chefnogi'n frwd yn ôl ei ddisgresiwn.



GRL TLK, Sŵn. Llun: Simon Ayre

TRWYDDEDU A'R HEDDLU

Mae nifer o'r termau sy'n gysylltiedig â sŵn yn rheoliadau trwyddedu Caerdydd yn 'awgrymiadau' neu 'ganllawiau'. Nid oes unrhyw gymorth ariannol ar gael i leoliadau sydd angen gwella mesurau gwrthsain i leihau cwynion sŵn.


Mae trwyddedau'n aml yn cyfyngu mynediad i eiddo ar gyfer pobl o oeddrannau penodol, neu gyfyngu'r oriau y gellir chwarae cerddoriaeth ynddynt. Gallai manau aml-ddefnydd hefyd gael trwydded dosbarth defnydd unigol er mwyn ei gwneud yn haws i bennu amodau trwyddedu, hyd yn oed os yw defnydd y lleoliad yn newid gyda'r nos (h.y. gallai bwyty sy'n troi'n glwb gyda'r nos orfod cydymffurfio â rheoliadau bwytai bob amser). **Mae'r prosesau ymgeisio yn eithaf aneglur i nifer o drwyddedigion arfaethedig**, gan nad oes unrhyw fframwaith penodol ar waith, na rhestr o ddisgwyliadau y gallant eu defnyddio i baratoi eu gwaith papur a'u cynlluniau busnes.

CYLLID

Caiff cyllid craidd ei ddyrannu'n bennaf i'r sector cerddoriaeth glasurol, sy'n derbyn cefnogaeth hael o gymharu â meysydd eraill fel addysg cerdd neu genres cyfoes. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y costau uchel sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth glasurol – mae hefyd yn aml yn derbyn cymorth ariannol gan roddwyr a noddwyr, rhywbeth na cheir yn aml mewn genres cerdd eraill.

Yn ôl ystadegau diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ar gyfartaledd dyfarnwyd 27.2% o'r holl grantiau mawr cenedlaethol yn 2017/2018 i Gaerdydd (gan gynyddu i 37.2% ar gyfer grantiau bach dan £5k)⁶. Mae cyfleoedd i ymestyn y cyllid a ddyrennir i ddatblygu'r diwydiant cerdd a chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffrwd penodol ar gyfer gweithgareddau allforio cerdd Cymru ar y cyd â Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

SGOR MEYSYDD A FYDDAI'N ELWA O FWY O GEFNOGAETH SEFYDLIADOL



⁶ Gweler Cyngor Celfyddydau Cymru (2019)

RHESYMAU GAN YMATEBWYR SYDD HEB DDERBYN UNRHYW GRANTIAU



MANNAU A LLEOEDD

Mae rhywfaint o fylchau yn yr ysgol lleoliadau yn y ddinas, sy'n gadael bylchau wrth i artistiaid gynyddu drwy wahanol lefelau eu gyrfaedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod **angen lleoliadau penodol â mwy o gyfarpar** â chapasiti rhywle rhwng tafarndai (sy'n defnyddio cerddoriaeth fel cynnyrch ategol), clybiau bach ac arenau. **Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg mai lleoliad o faint canolig â chapasiti o tua 2,000 fyddai'n ddelfrydol.** Roedd sylwadau ychwanegol yn yr arolwg yn cyfeirio at **ddiffyg lleoliadau mewn ardaloedd maestrefol.**

Mae diffyg amrywiaeth o ddigwyddiadau a lleoliadau yn broblem helaeth a nodir gan nifer o ymatebwyr i'r arolwg, yn enwedig o ran amrywiaeth ddiwylliannol a'r rhywiau. **Nid oes digon o gynrychiolaeth mewn genres fel hip-hop, rap, grime, RnB, jazz, cerddoriaeth y byd a genres electronig,** a hynny o ran digwyddiadau a pherfformwyr. Mae hygyrchedd mewn lleoliadau, a diffyg mynediad heb risiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn creu **amgylchedd eithaf annifyr i bobl â chyfyngiadau symudedd sydd eisiau mynychu digwyddiadau.**



Reuel Elijah, Sŵn. Llun gan Horizons/Gorwelion (BBC Wales a Chyngor Celfyddydau Cymru)

CYNLLUNIO

Nid oes unrhyw bolisiau sy'n cyfeirio'n benodol at **leoliadau cerdd yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd, ac ni chyfeirir at y gair 'cerdd'.**

Mae Canolfannau Ardaloedd yn blaenoriaethu siopau manwerthu neu groser bach dros gyfleusterau hamdden ac adloniant (mae'r CDLI yn nodi y dylai siopau gyfrannu at 75% o ddefnydd canolfannau ardaloedd)⁷.

Mae cynllun rhyddhad treth yn bodoli ar gyfer y diwydiannau creadigol, ond o ran cerddoriaeth, dim ond lleoliadau cerddorfaol, fel neuaddau cyngerdd a all ei ddefnyddio⁸. Mae cydnabod lleoliad fel safle treftadaeth cenedlaethol yn aml yn cael ei gadw ar gyfer sefydliadau elit mawr, fel cerddoriaeth glasurol. Mae ychydig o safleoedd anffurfiol eraill, fel y tir o amgylch Clwb Ifor Bach yn cael ei brynu i amddiffyn a chaniatáu ar gyfer ehangu gyda chymorth Cyngor Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC).


⁷ Cyngor Caerdydd (2006), tud. 181

⁸ Llywodraeth y DU (2018)

TRAFNIDIAETH

Mae gwasanaethau trênn pell yn dod i ben yn llawer cynt na gwasanaethau Cymru (mae'r trênn olaf i Lundain yn gadael am 9.30pm, 9pm ar nos Sadwrn, tra bo'r trênn olaf i Abertawe yn gadael ychydig cyn 2am, ychydig cyn 1am ar nos Wener ac ychydig ar ôl hanner nos ar nos Sadwrn).

Mae gwasanaeth olaf trenau'r ddinas yn gadael am 10.30pm (11.30pm ar benwythnosau) ac mae nifer o orsafoedd yn anhygyrch i bobl ag anableddau (sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd i gario offerynnau ar drafnidiaeth gyhoeddus). Dim ond 4 llwybr bws nos sydd ar gael i ardaloedd maestrefol o ganol y ddinas, **sy'n golygu bod nifer o ardaloedd heb wasanaeth**. Hefyd, mae 2 o'r bysus nos hyn ond yn rhedeg o ddydd lau i ddydd Sadwrn.



Llun gan Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd
a Bro Morgannwg

ADDYSG

Cafodd argaeledd addysg cerdd o safon uchel ei sgorio'n wael ac mae'r opsiynau i unigolion ddilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y diwydiant yn brin, pu'n ai'n gwrs cyflyniad i feddalwedd cynhyrchu / cymysgu cerddoriaeth fel Ableton; chwarae offeryn penodol; neu ddechrau hyfforddeiaeth mewn stiwdio recordio.


Mae tua 56% o artistiaid a 42% o weithwyr proffesiynol yn hunan hyfforddedig o ran cerddoriaeth a'r diwydiant, a dim ond tua 20% sydd wedi astudio pynciau cerdd yn y brifysgol.

CYFLOGAETH A SGILIAU


Mae arolwg o batrymau gwaith artistiaid lleol yn dangos bod **71% yn gweithio 20 awr neu lai yn y diwydiant cerdd**, â 87.4% yn ennill rhwng £0 a £10,000 y flwyddyn. **Bydd llawer yn ategu at yr incwm hwn gyda swyddi dydd mewn diwydiannau eraill, sy'n effeithio ar gynnydd eu gyrfaedd.**

Nid oes unrhyw gyfeiriadur sy'n casglu busnes, gweithwyr proffesiynol ac anodau cerdd Caerdydd. Byddai casglu manylion cyswllt a chreu sylfaen i'r rhwydwaith yn dod â diwydiant cerdd Caerdydd ynghyd.

INCWM CERDD 'GWEITHIWR PROFFESIYNOL' AC 'ERAILL' SYDD WEDI YMATEB



PA MOR AML Y MYNYCHIR DIGWYDDIADAU CERDDORIAETH FYW YNG NGAERDYDD



TWRISTIAETH A BRANDIO


Gelwir Cymru yn 'Gwlad y Gân'. Yn 2017, cynhyrchodd y wlad £115 miliwn trwy gerddoriaeth, cafodd £55 miliwn ei greu trwy gyngherddau byw a £61 miliwn trwy ylliau cerddoriaeth, a thyfodd nifer y swyddi cerdd gan 18%.

Roedd 75% o'r rheiny a arolygwyd yn mynychu o leiaf un digwyddiad cerddoriaeth y mis a dywedodd 96% o'r rheiny eu bod yn mynychu digwyddiadau gydag artistiaid lleol a newydd.

ASEDAU A BYGYTHIADAU

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n dangos bod gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerdd yng Nghaerdydd yn credu bod y ddinas yn cynnig sîn gerddoriaeth ffyniannus gyda nifer o ddigwyddiadau a chynulleidfaoedd da. Fodd bynnag, mae lle i wella. Mewn theori, mae cefnogaeth gref ar gyfer artistiaid newydd a rhwydwaith da o weithwyr proffesiynol i helpu i greu digwyddiadau, ond nid yw hyn yn cael ei gyfathrebu'n dda â'r rheiny a fyddai'n ei ddefnyddio. Mae angen datblygu sgiliau busnes cerdd. **Mae cyfleoedd ariannu'n brin**, ac nid yw'r rheiny sy'n bodoli yn cael eu cyfathrebu'n ddigonol, **sy'n golygu bod cerddorion yn aml yn anymwybodol o ba gyfleoedd sy'n bodoli.**

TROSOLWG O'R ASEDAU Â'R SGÔR UCHAF AC ISAF YN ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD



ARGYMHELLION STRATEGOL



Opera Cenedlaethol Cymru Llun: Clive Barda/ArenaPAL

ARGYMHELLION STRATEGOL

Caiff pob argymhelliad ei esbonio a'i fapio yn yr astudiaeth gyflawn. Isod ceir crynodeb o'r darganfyddiadau craidd.

LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH

Y SWYDDFA GERDD ARGYMHELLIAD 1

GWEITHIO'N BRAGMATIG Â'R HOLL RANDDEILIAID I WIREDDU POTENSIAL ECOSYSTEM CERDD CAERDYDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

1.1 Penodi Swyddog Cerdd

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

1.2 Creu a chynnal cyfeiriadur busnes yr ecosystem cerdd leol

1.3 Datblygu llwyfan i gyfathrebu rhwng preswylwyr lleol a digwyddiadau cerdd.

Y BWRDD CERDD ARGYMHELLIAD 2

GALLUOGI RHANDDEILIAID CERDD I GYNRYCHIOLI A HYRWYDDO CAERDYDD FEL DINAS SY'N DDA I GERDDORIAETH AR LEFEL LEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

2.1 Sefydlu Bwrdd Cerdd

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

2.2 Creu Is-grŵp Sefydliadau Proffesiynol Bwrdd Cerdd Caerdydd

2.3 Creu Is-grŵp Lleoliadau Bwrdd Cerdd Caerdydd

2.4 Cryfhau a datblygu cyfleoedd i gydweithio rhwng dinasoedd.

TRWYDDEDAU A PHOLISIÂU SY'N DDA I GERDDORIAETH ARGYMHELLIAD 3

ADOLYGU TREFNIADAU TRWYDDEDU PRESENNOL I HYRWYDDO DINAS SY'N DDA I GERDDORIAETH

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

3.1 Symleiddio'r broses drwyddedu ar gyfer gweithgareddau cerdd

3.2 Ailasesu gofynion diogelwch ar gyfer lleoliadau a digwyddiadau

3.3 Gwella mynediad i ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i gynulleidfaoedd dan oed

3.4 Cyflwyno parthau llwytho i gerddorion ar gyfer lleoliadau yng nghanol y ddinas

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

3.5 Creu canllaw canu yn y stryd i Gaerdydd sy'n adlewyrchu anghenion preswylwyr, busnesau a cherddorion.

GRANTIAU A CHYLLID ARGYMHELLIAD 4

CEFNOGI AMRYWIAETH YN ECOSYSTEM CERDD Y DDINAS MEWN MODD ECONOMAIDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

4.1 Galluogi fframwaith cydweithio ar gyfer partneriaethau ariannu

4.2 Cyfathrebu'r holl gyfleoedd ariannu presennol ar gyfer sector cerdd Caerdydd mewn modd clir a hygrych

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

4.3 Cefnogi lleoliadau cerdd, cynhyrchwyr digwyddiadau a sefydliadau i wella amodau eu cwmni drwy atgyfeirio at sefydliadau defnyddiol.

MANNAU A LLEOEDD

**DYRANNU MANNAU
I GERDDORION
A GWEITHWYR
PROFFESIYNOL YN Y
DIWYDIANT
ARGYMHELLIAD 5**

**CYNYDDU MANNAU
A LLEOEDD CERDD
FFORDDIADWY SYDD
AR GAEL I ARTISTIAID
A GWEITHWYR
PROFFESIYNOL CERDD
YNG NGAERDYDD**

**CAM GWEITHREDU
BLAENORIAETH**

5.1 Datblygu Hyb
Cerdd Cymunedol

**CAMAU NESAF A
CHAMAU PELLACH**

5.2 Cynnig fframwaith i
hwyluso prydlesi dros dro
ar gyfer sefydliadau cerdd
a diwylliannol lleol mewn
mannau anhraddodiadol.

**CYNLLUNIO,
TRAFNIDIAETH, CREU
LLEOEDD
ARGYMHELLIAD 6**

**MANTEISIO I'R EITHAF
AR YR OFFER CYNLLUNIO
SYDD EISOES YN BODOLI
I HYRWYDDO DINAS 'SY'N
DDA I GERDDORIAETH'**

**CAM GWEITHREDU
BLAENORIAETH**

6.1 Gweithredu Polisi
Cynllunio Cymru 10 yn gyson a
defnyddio'r egwyddor 'Asiant
Newid' yng Nghaerdydd

**CAMAU NESAF A
CHAMAU PELLACH**

6.2 Datblygu strategaeth a chynllun
meistr creu lleoedd ar gyfer Ardal y
Castell sy'n amlgu ei sefyllfa unigryw
yn sîn gerddoriaeth Caerdydd

6.3 Ymgysylltu â'r sector
cerdd lleol yn y datblygiad
Arena Caerdydd newydd

6.4 Gweithio â phartneriaid i
gefnogi hygyrchedd gwell o ran
trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos.

ADDYSG

**MYNEDIAD I ADDYSG
CERDD AR BOB LEFEL
AC I BOB OEDRAN
ARGYMHELLIAD 7**

**DATBLYGU
PARTNERIAETHAU I
ALLUOGI DARPARIAETH
ADDYSG CERDD
CYDWEITHREDOL
YNG NGAERDYDD**

**CAM GWEITHREDU
BLAENORIAETH**

7.1 Creu Map o Gyfleoedd
Cerddorol a'r llwybrau
perthnasol i ddangos
i gyfranogwyr sut i
gynllunio'u siwrne gerddorol
yn y ffordd orau

7.2 Datblygu gweledigaeth
ar gyfer Cynnig Addysg
Cerdd Cynhwysol i'r holl
Bobl Ifanc yng Nghaerdydd

**CAMAU NESAF A
CHAMAU PELLACH**

7.3 Cyflwyno gweithdai
cerdd ar gyfer myfyrwyr
mewn ysgolion cynradd
ac uwchradd.



Ar y Record, Gŵyl Gyfoes Caerdydd.
Llun gan Freya Dooley a Cinzia Mutigli



Ar y Record, Gŵyl Gyfoes Caerdydd. Llun: Noel Dacey

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

CYNNIG CYFLEOEDD DATBLYGU PROFFESIYNOL I'R SECTOR LLEOL ARGYMHELLIAD 9

CEFNOGI GWEITHWYR PROFFESIYNOL YN Y DIWYDIANT I DDATBLYGU EU GYRFA, RHWYDWAITH A SGILIAU YNG NGHAERDYDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

9.1 Trefnu gweithdai a chynadleddau busnes cerdd mewn partneriaeth â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn y DU

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

9.2 Asesu'r broses o greu rhaglen dechrau busnes cerdd Caerdydd.

DATBLYGU ARTISTIAID

CYNNIG CYFLEOEDD DATBLYGU I ARTISTIAID LLEOL ARGYMHELLIAD 8

HYRWYDDO MYNEDIAD I GYFLEOEDD DATBLYGU ARTIST YNG NGHAERDYDD WAETH BETH FO OEDRAN, LEFEL SGILIAU A GENRES GWAITH YR ARTISTIAID

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

8.1 Creu siarter moeseg a thystysgrif 'Chwarae Teg' i leoliadau

8.2 Creu llwyfan i ddatblygu perfformio

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

8.3 Creu digwyddiad arddangos artistiaid rhyngwladol traws genre.



Tibet, Sŵn. Llun gan Horizons/Gorwelion (BBC Wales a Chyngor Celfyddydau Cymru)

CYNNWYS CYNULLEIDFAOEDD

ARGYMHELLIAD 10

CYNYDDU GWEITHGAREDDAU CERDD YNG NGAERDYDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

10.1 Eirioli dros fwy o raglenni cerdd cymunedol ac yn ystod y dydd

10.2 Creu platfform rhestru gigiau ar-lein sy'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r sin cerddoriaeth ehangach yng Nghaerdydd

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

10.3 Ailsefydlu Neuadd Dewi Sant fel neuadd gyngerdd o'r radd flaenaf.



MARCHNATA CERDDORIAETH

CREU BRAND DINAS GERDDORIAETH ARGYMHELLIAD 11

DOD Â RHANDEILIAID CERDD YNGHYD I GREU BRAND 'DINAS GERDD' CAERDYDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

11.1 Diffinio rolau Croeso Caerdydd, y Swyddfa Gerdd a rhanddeiliaid eraill o ran hyrwyddo'r ddinas trwy gerddoriaeth

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

11.2 Cynghreirio'n strategol â llwyfannau a chynhyrchwyr blas rhyngwladol i hywyddo síns amgen a thanddaearol Caerdydd.

GWEITHGAREDDAU TWRISTIAETH CERDD ARGYMHELLIAD 12

CREU STRATEGAETH MARCHNATA TWRISTIAETH 'DINAS GERDD' CAERDYDD

CAM GWEITHREDU BLAENORIAETH

12.1 Creu cynllun cyfathrebu 'Dinas Gerdd' Caerdydd ar gyfer strategaeth ar-lein ac off-lein

CAMAU NESAF A CHAMAU PELLACH

12.2 Creu dewisiadau i ymgysylltu ag ymwelwyr cerdd cyn ac ar ôl iddynt gyrraedd

12.3 Creu taith treftadaeth cerdd

12.4 Cynnig cynnal digwyddiadau diwydiant cerdd rhyngwladol allweddol

12.5 Ystyried partneriaeth â Neuadd Colston Bryste.

ASTUDIAETHAU ACHOS AC ARFER GORAU

Brig: Stadiwm Principality. Llun: CroesoCaerdydd
Gwaelod: Gwenno, Sŵn. Llun: Simon Ayre

Mae'r argymhellion strategol yn yr adroddiad llawn yn cynnwys astudiaethau achos o bedwar ban byd, sy'n amlygu achosion o arfer da a'r camau nesaf yn dilyn gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

Bwrdd
Cerdd
Llundain,
Llundain

Music City
Music Council,
Nashville



Menter
Dinas Gerdd
UNESCO

Y
Rhwydwaith
Dinasoedd
Cerdd

Club
TR3SC,
Catalunya

The
Glad Café,
Glasgow

The
Rembrandtplein,
Amsterdam

Sound
Thinking,
Efrog
Newydd

Synthesizer,
Tel Aviv

The
Philharmonie,
Paris



Tremolino,
Nantes

Quartier Des
Spectacles,
Montréal

Uncommon
People,
Sheffield

CASGLIADAU

Mae'r astudiaeth hon wedi darparu gwerthusiad o ecosystem cerdd Caerdydd, a llwybr i'w defnyddio, ei maethu a'i datblygu. Mae cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a heriau wedi'u nodi a'u dadansoddi. Gall Caerdydd ddweud yn falch ei bod hi'n un o'r dinasoedd yn y byd sydd wedi buddsoddi mewn a datblygu cyfres o argymhellion strategol i fesur, gwerthfawrogi a datblygu'r rôl bwysig y mae ei hecosystem cerdd yn ei chwarae yn yr economi leol.

O'r pwynt hwn ymlaen, bydd Cyngor Caerdydd, rhanddeiliaid partner a sefydliadau yn gyfrifol am greu a chynnal polisiâu, rheoliadau a chefnogaeth a fydd yn blaenoriaethu ac yn maethu ecosystem cerdd y ddinas. Bydd hyn yn sicrhau bod Caerdydd yn ddinas a gaiff ei hedmygu'n rhyngwladol. Bydd pontio'r bwlch rhwng y sector cyhoeddus a phreifat yn hwyluso

gweithwyr creadigol, busnesau a chymunedau i ddatblygu cynnig cerdd deniadol y bydd preswylwyr ac ymwelwyr eisïau bod yn rhan ohono. Mae gweithio ynghyd ar ecosystem cerdd diogel, cynhwysol a chynaliadwy yn gofyn am waith caled ac ymrwymiad o bob ochr, ond rydym yn teimlo'n gadarnhaol y bydd yn cynnig nifer o fanteision i Gaerdydd a'i phreswylwyr.



Llun gan Gwlb Ifor Bach


YNGHYLCH YR AWDURON

SOUND
DIPLOMACY

Mae Sound Diplomacy yn sefydliad yr ymddiriedir ynddo'n rhyngwladol i greu a darparu strategaethau sy'n cynyddu gwerth cerddoriaeth ac ecosystemau economi nos.

DIOLCHIADAU

Hoffai Sound Diplomacy ddiolch i bob unigolyn a weithiodd gyda ni, a gymerodd ddiddordeb yn yr adroddiad, a ymatebodd i'r arolwg, a fynychodd gyfarfod bord gron ac a rannodd wybodaeth. Mae eich cyfraniad a'ch mewnbwn wedi bod yn hynod werthfawr ac ni ellid bod wedi gwneud y gwaith hwn heboch.



Sacred Paws, Wales Goes Pop.
Llun: Pete Takes Pictures



SOUND
DIPLOMACY